Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
83/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
27/11/2024

# Asesiad Gwerthusadwyedd o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83625-932-9

Asesiad Gwerthusadwyedd o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

Awdur: Alma Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2024). Asesiad Gwerthusadwyedd o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 83/2024 Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gynllun-gweithredu-lhdtc-cymru-asesiad-gwerthusadwyedd

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Victoria Saynor
Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Is-adran
Cydraddoldeb, Tlodi, Tystiolaeth a Chymorth Plant
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ

E-bost: yrunedtystiolaethcydraddoldeb@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr tablau........................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

1. Cyflwyniad ........................................................................ **Error! Bookmark not defined.**
2. Methodoleg ........................................................................ **Error! Bookmark not defined.**
3. Canfyddiadau'r Asesiad Gwerthusadwyedd ............. **Error! Bookmark not defined.**
4. Casgliad ac argymhellion: Dull o ymdrin â'r gwerthusiad ........ **Error! Bookmark not defined.**
5. Atodiad A: Adolygiad llenyddiaeth ........................................................................ 81
6. Atodiad B: Canfyddiadau o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid ........................................ 98
7. Atodiad C: Diffiniadau o ddulliau sy'n seiliedig ar Theori ....................................... 121
8. Atodiad D: Canllawiau trafod ar gyfer cyfweliadau ................................................ 124
9. Cyfeiriadau ........................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

**Rhestr tablau**

Tabl 1: Banc data – asesiad o'r dirwedd data meintiol ........................................................ 33
Tabl 2: Nifer awgrymedig o gyfweliadau ........................................................................ 74

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud Cymru'r wlad fwyaf cyfeillgar i LHDTC+ yn Ewrop. Er mwyn cyflawni hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu LHDTC+ (Llywodraeth Cymru, 2023), sy’n amlinellu sut y mae’n bwriadu cyflawni’r nod hwn. Mae’r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi strategaeth Llywodraeth Cymru i wella bywydau pobl LHDTC+ yng Nghymru. Yn benodol, nod Cynllun Gweithredu LHDTC+ yw (i) cryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol; (ii) gwneud Cymru yn lle mwy diogel i bob unigolyn LHDTC+; (iii) gwneud Cymru yn noddfa ar gyfer ymfudwyr LHDTC+; (iv) gwella canlyniadau gofal iechyd; (v) sicrhau addysg gynhwysol; (vi) gwella cynhwysiant a chyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd; (vii) cynnwys cymunedau LHDTC+; ac (viii) amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl drawsryweddol ac anneuaidd.

1.2 Dylid ystyried y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ochr yn ochr â Chynlluniau Gweithredu a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Gweithredu ar anabledd: fframwaith a chynllun gweithredu’r hawl i fyw’n annibynnol (Llywodraeth Cymru, 2019), y Cynllun Hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru,). 2020), y strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Llywodraeth Cymru, 2022), Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022), Cynllun Gweithredu HIV (Llywodraeth Cymru, 2023), a Strategaeth Tlodi Plant Cymru (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae ystyried sut mae’r Cynlluniau Gweithredu hyn yn ategu ei gilydd a sut y gellir eu gweithredu gyda’i gilydd yn rhan bwysig o’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol sydd ar y gweill ar gyfer 2024 i 2028 (Llywodraeth Cymru, 2023).

1.3 Er mwyn asesu effaith a llwyddiant Cynllun Gweithredu LHDTC+, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o'i werthuso yn y dyfodol. I roi cyngor ar hyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru Alma Economics yn 2023 i gynnal asesiad gwerthusadwyedd o’r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

1.4 Nod yr asesiad gwerthusadwyedd hwn yw asesu ystod o opsiynau ar gyfer gwerthuso gweithrediad ac effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+, yn seiliedig ar y Llyfr Magenta (Tasglu Gwerthuso a Thrysorlys EM, 2020). Bydd yn darparu argymhellion ar sut y gellid gwerthuso Cynllun Gweithredu LHDTC+ a Theori Newid Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae’r Theori Newid yn nodi’r prif effeithiau a mecanweithiau achosol y byddai angen eu hasesu mewn gwerthusiad. Bydd yr asesiad hwn hefyd yn ystyried sut y gellid mesur effaith a llwyddiant a pha gamau y

gellid eu cymryd i wella gwerthusadwyedd Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn y dyfodol, a nodir y rhain yn y Banc Data yn Adran 3.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.5 Strwythurir gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn crynhoi'r **fethodoleg a'r dulliau** a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hwn.
- Mae **Adran 3** yn manylu ar **ganfyddiadau'r** ffrydiau gwaith ymchwil amrywiol, gan gynnwys yr ymarfer cwmpasu, adolygiad o lenyddiaeth, y Banc Data, gwaith maes ansoddol ac asesiad o opsiynau gwerthuso.
- Mae **Adran 4** yn darparu **argymhellion** ar gyfer gwerthusiad yn y dyfodol.
- Yr adrannau sy'n weddill yw'r **Atodiadau**. Mae Atodiad A yn rhoi mwy o fanylion am ganfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth. Mae Atodiad B yn cynnwys crynodeb llawn o gyfweliadau gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol. Mae Atodiad C yn manylu ar ddiffiniadau o ddulliau Seiliedig ar Theori. Mae Atodiad D yn cynnwys y canllawiau trafod a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweliadau hyn.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae’r bennod hon yn nodi’r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal yr asesiad gwerthuso: yr ymarfer cwmpasu, adolygiad o lenyddiaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith maes, theori newid, y Banc Data ac ystyried yr opsiynau gwerthuso. Mae'r bennod hefyd yn mynd i'r afael â chyfyngiadau methodolegol.

2.2 Mae gan yr asesiad gwerthusadwyedd hwn ddau brif amcan:

- Datblygu cyfres o theorïau newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos cwmpas a gweithgareddau Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Mae'r rhain yn manylu ar sut y bydd mewnbynnau yn arwain at allbynnau, canlyniadau ac effeithiau arfaethedig (a'r tybiaethau y mae'r cadwyni achosol hyn yn seiliedig arnynt).
- Cynnal asesiad gwerthusadwyedd o’r Cynllun Gweithredu LHDTC+, gan benderfynu i ba raddau y gall gwahanol opsiynau gwerthuso asesu gweithrediad ac effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn ymarferol. Bydd yr

asesiad gwerthusadwyedd yn nodi opsiynau ar gyfer gweithgareddau casglu data ansoddol a meintiol sydd eu hangen i gael gwerthusiad effeithiol.

2.3 Amlinellir y dull a fabwysiadwyd ar gyfer yr asesiad gwerthusadwyedd hwn yn y camau canlynol, a arweinir gan y Llyfr Magenta (HM Treasury and Evaluation Task Force, 2020) ac arfer gorau. Prif ddibenion asesiad gwerthusadwyedd yw hysbysu p'un a yw gwerthusiad yn ymarferol, pryd y gellid ei gynnal, a sut i wella'r tebygolrwydd y bydd gwerthusiad yn cynhyrchu canlyniadau defnyddiol. Fel y trafodwyd yn y Llyfr Magenta, mae allbynnau asesu gwerthusadwyedd yn cynnwys: Theori Newid, sut bydd canlyniadau o ddiddordeb yn cael eu nodi a'u mesur, sut y rhoddir cyfrif am ffactorau cyd-destunol ehangach, manylion am y dulliau i'w defnyddio, cwestiynau ymchwil y gwerthusiad, a manylion am y data sydd ei angen. Mae'r canllawiau hyn yn ffurfio conglfaen yr asesiad gwerthusadwyedd hwn.

2.4 Cafodd y gwaith o gyflawni'r asesiad gwerthusadwyedd hwn ei fonitro gan Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru. Darparwyd cyngor gan y Grŵp ar gerrig milltir pwysig yn ystod yr asesiad gwerthusadwyedd, a oedd yn cynnwys nodi cyfweleion ac adolygu fersiynau ailadroddol o'r Theori Newid. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys penaethiaid cangen ar y cyd tîm Polisi LHDTC+ a phennaeth yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd, sy'n rhan o broffesiwn Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

**Ymarfer cwmpasu**

2.5 Cynhaliwyd adolygiad o ddogfennaeth allweddol yn ymwneud â'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ i ddarparu dealltwriaeth bellach ohono, gan gynnwys ei brif amcanion a nodau a sut mae'n rhyngweithio â chynlluniau cydraddoldeb eraill Llywodraeth Cymru. Roedd y dogfennau a adolygwyd yn cynnwys Cynllun Gweithredu LHDTC+, diweddariadau cynnydd Cynllun Gweithredu LHDTC (Llywodraeth Cymru, 2023), Argymhellion Panel Arbenigol Annibynnol LHDTC+ (2021), y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Llywodraeth Cymru, 2020), Gweithredu ar anabledd: fframwaith a chynllun gweithredu'r hawl i fyw'n annibynnol (Llywodraeth Cymru, 2019), y Cynllun Hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020), y strategaeth Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Llywodraeth Cymru, 2022), Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2022), a Chynllun Gweithredu HIV (Llywodraeth Cymru, 2023). Yn ogystal, cafodd y ddealltwriaeth o ba fetrigau sy'n

cael eu casglu a'u monitro ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ei llywio trwy adolygu diweddariadau cynnydd y Cynllun Gweithredu LHDTC+ (Llywodraeth Cymru, 2023) a chynnal pedwar cyfweliad lled-strwythuredig gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â darparu cefndir ar y blaenoriaethau a'r heriau ar gyfer y gwerthusiad, ceisiodd cyfweliadau cwmpasu Alma â swyddogion Llywodraeth Cymru ddyfnhau dealltwriaeth o'r data a fyddai'n debygol o fod ar gael i werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae'r canllawiau trafod ar gyfer y cyfweliadau cwmpasu i'w gweld yn Atodiad D.

**Adolygiad llenyddiaeth**

2.6 Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth i nodi gwerthusiadau presennol o bolisïau a rhaglenni tebyg a oedd yn anelu at wella profiadau a chanlyniadau i bobl LHDTC+. Nododd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i werthuso polisïau perthnasol, heriau allweddol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r gwerthusiad, unrhyw argymhellion a wnaed, ac unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu ar gyfer y gwerthusiad.

2.7 O ystyried cymhlethdod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ o ran sut mae'n rhychwantu meysydd polisi, polisïau a rhaglenni lluosog, adolygodd yr adolygiad llenyddiaeth hefyd ddulliau ar gyfer gwerthuso rhaglenni cymhleth ac aml-faes a sut y gellid cymhwyso hyn i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Roedd hyn yn hysbysu'r opsiynau gwerthuso ar y rhestr hir.

2.8 Roedd yr adolygiad llenyddiaeth yn adolygiad desg o lenyddiaeth gwmpasu, a gynhaliwyd rhwng Mehefin 2023 ac Awst 2023. Nodwyd llenyddiaeth drwy ddefnyddio Google Scholar ac o ddogfennaeth a nodwyd yn ystod yr ymarfer cwmpasu gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys erthyglau cyfnodolion cyhoeddedig gan gymheiriaid a rhai nas adolygwyd gan gymheiriaid, yn ogystal â llenyddiaeth lwyd fel dogfennau polisi perthnasol, i gael mynediad at y wybodaeth ddiweddaraf, ac unrhyw werthusiadau anffurfiol o gynlluniau gweithredu neu strategaethau diweddar.

2.9 I gynnal yr adolygiad llenyddiaeth, defnyddiwyd dau gategori o dermau chwilio allweddeiriau. Roedd y cyntaf yn eiriau ar fathau o ymyriadau sef '*interventions, behavioural, regulation, policy, evidence, financial support, incentives, social norms, information and awareness, service provision, training*.' Yr ail gategori oedd geiriau allweddol ar boblogaethau targed a chroestoriadedd. Y geiriau hyn oedd '*LGBTQ+, transgender, vulnerable, socio-economic, depriv*, disadvantaged,*

*disability, young people, adults, older adults, ethnicity, low income*.' Er mwyn llunio rhestr fer o nifer y papurau a nodwyd o'r geiriau allweddol hyn, cyfyngwyd y cwmpas i ganolbwyntio ar y polisïau neu strategaethau a werthuswyd. Nododd y chwiliad hwn 52 o bapurau a ystyriwyd yn berthnasol ac a drafodwyd felly yn yr adolygiad llenyddiaeth llawn.

2.10 Defnyddiwyd canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth i lywio'r asesiad gwerthusadwyedd drwy ddarparu dealltwriaeth o'r cynsail presennol o werthusiadau o raglenni tebyg, a all nodi risgiau, heriau ac atebion posibl yn ymwneud â methodolegau ac offer gwerthuso.

2.11 Mae canfyddiadau allweddol yr adolygiad llenyddiaeth yn adran 3, gyda fersiwn fanylach yn Atodiad A. Un o gyfyngiadau allweddol yr adolygiad llenyddiaeth oedd nad oedd bwriad i ddilyn adolygiad tystiolaeth cyflym penodol neu brotocol adolygu systematig, oherwydd y bwriad oedd cynnal ymarfer targededig gyda chwmpas cyfyngedig. O ganlyniad, ni ystyriwyd ansawdd y dystiolaeth, ac efallai nad yw'r rhestr o dystiolaeth a nodwyd yn hollgynhwysfawr.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith maes**

2.12 Roedd natur gymhleth a phroffil uchel y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn gofyn am gyfweld ystod eang o randdeiliaid, swyddogion polisi ac arbenigwyr er mwyn llywio asesiad o werthusadwyedd, gan gynnwys datblygu'r Theori Newid a'r argymhellion. Cynhaliwyd cyfweliadau naill ai mewn lleoliadau un-i-un neu mewn grwpiau bach. Llywiwyd yr asesiad hwn o werthusadwyedd trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid rhwng 20 Medi 2023 a 22 Tachwedd 2023. Cynhaliwyd 36 o gyfweliadau â 50 o gyfweleion. O'r rhain, cynhaliwyd 12 cyfweliad un-i-un gyda chynrychiolwyr sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru.

2.13 Cynhaliwyd cyfanswm o 24 o gyfweliadau, gyda 38 o gyfweleion, trwy alwadau fideo ar Microsoft Teams gyda chyfanswm o 38 o swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn gweithio mewn meysydd polisi sy'n berthnasol i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Roedd y cyfweliadau hyn yn canolbwyntio ar ddeall sut y byddai'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cyfrannu at ei effaith, a sut y gallai gyflawni ei amcanion. Roedd y trafodaethau hefyd yn ystyried data a metrigau perthnasol y gellid eu defnyddio i fesur effaith, yn ogystal â barn swyddogion Llywodraeth Cymru ar y blaenoriaethau a'r dulliau gwerthuso yn y dyfodol. Gan ddefnyddio samplu pwrpasol, darparwyd manylion cyswllt y cyfweleion gan Lywodraeth Cymru trwy ddefnyddio porth mewnol o fanylion

cyswllt. Cynhaliwyd cyfweliad llwyddiannus gyda phob adran a nodwyd gan Grŵp Llywio asesiad gwerthusadwyedd cynllun gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn golygu bod yr ystod lawn o bynciau polisi a gynhwyswyd yn y cynllun gweithredu LHDTC+ wedi'u cynnwys. Mewn rhai achosion, gwahoddwyd unigolion lluosog a oedd yn gweithio yn yr un adran a'r un maes polisi i un cyfweliad.

2.14 Cynhaliwyd 12 cyfweliad pellach gyda sefydliadau allanol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhanddeiliaid. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys elusennau a sefydliadau sector gwirfoddol gyda ffocws cryf ar LHDTC+ a materion croestoriadol. Roedd y trafodaethau yn canolbwyntio ar ddeall safbwyntiau allanol ar sut beth fyddai gweithredu'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn llwyddiannus; sut y dylid mesur ei effeithiau; a'r hyn y dylid ei ystyried fel dull gwerthuso yn y dyfodol. Lle y bo'n bosibl, bu trafodaethau hefyd yn ystyried sut mae camau gweithredu a themâu penodol y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cyfrannu at gyflawni'r effeithiau a fwriadwyd. Gan ddefnyddio samplu pwrpasol, rhoddodd Llywodraeth Cymru fanylion cyswllt y darpar gyfweleion i Alma Economics, unwaith y cawsant eu caniatâd. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol, a rhoddodd pob un ohonynt eu caniatâd i gael eu henwi: Amber Project, Bwrdd Ieuenctid Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Fighting with Pride, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Pride Sports, Stonewall Cymru, Ymddiriedolaeth Terrence Higgins, Timbrell Education, TransVision Cymru, Undivided Consultancy, Unique Transgender Network, Viva LGBTQ+, a Gwasanaeth Rhywedd Cymru. Ni ddefnyddiwyd cymhellion ar gyfer y cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru na'r sefydliadau allanol.

2.15 Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn i ddyfnhau dealltwriaeth o'r hyn y mae llwyddiant yn ei olygu yng nghyd-destun Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru; llywio datblygiad y Theori Newid; nodi risgiau a thybiaethau a allai effeithio ar werthusadwyedd y Cynllun Gweithredu LHDTC+; nodi ffynonellau data hanfodol i gefnogi monitro Cynllun Gweithredu LHDTC+; a rhoi barn ar sut y dylid ei werthuso.

2.16 Manylir ar ganfyddiadau'r cyfweliadau yn adran 3, gydag adroddiad manylach yn Atodiad B. Roedd dadansoddiad thematig o'r cyfweliadau yn sail i'r Theori Newid, yr asesiad gwerthusadwyedd, a'r Banc Data. Mae canllawiau trafod ar gyfer y cyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau allanol ar gael yn Atodiad D. Dilynodd y cyfweliadau strwythur thematig y Cynllun Gweithredu LHDTC+, gan ganiatáu mewnwelediad manwl a dwys i bob un o'i themâu.

Dadansoddwyd cyfweliadau trwy nodi a chategoreiddio'r themâu, yna is-gategoreiddiwyd y rhain yn ôl is-themâu i nodi'r mewnwelediadau allweddol. Yna, defnyddiwyd y dadansoddiad thematig hwn i werthuso i ba raddau y mynegwyd rhai safbwyntiau yn amlach nag eraill.

**Datblygu'r Theori Newid**

2.17 Defnyddiwyd canfyddiadau'r cyfweliadau i ddrafftio Theori Newid sy'n disgrifio'n weledol y mecanweithiau a ddefnyddir i greu canlyniadau ac effaith i'r gweithgareddau a'r camau gweithredu a geir yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Ni chafodd yr Adolygiad Llenyddiaeth fawr o effaith ar y Theori Newid ond roedd yn fuddiol o ran llywio gwerthusiad rhaglenni cymhleth. Defnyddir y Theori Newid i gefnogi'r asesiad gwerthusadwyedd trwy nodi effeithiau pwysig a mecanweithiau achosol y byddai angen eu hasesu mewn gwerthusiad, ac y dylid felly eu hystyried yn yr asesiad gwerthusadwyedd. Mae'r Theori Newid hefyd yn helpu i nodi dangosyddion allweddol i fonitro cynnydd ac effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+, sydd yn ei dro yn pennu pa ddata y dylid eu casglu cyn gwerthusiad yn y dyfodol i'r diben hwn.

2.18 Cyflwynwyd drafft cychwynnol o'r Theori Newid i Lywodraeth Cymru drwy weithdy pwrpasol ac wedyn cafodd ei mireinio. Cyflwynir y Theori Newid yn adran 3.

**Datblygu'r Banc Data**

2.19 Cyflwynir y Banc Data yn Adran 3 yr adroddiad hwn. Caiff ei hysbysu gan yr adolygiad llenyddiaeth o werthusiadau presennol, cyfweliadau â pherchnogion camau gweithredu a rhanddeiliaid eraill, a datblygiad y Theori Newid. Nodwyd camau gweithredu a chanlyniadau hanfodol y Cynllun Gweithredu LHDTC+ mewn cyfweliadau a'u hadlewyrchu yn y Theori Newid. Seiliwyd y chwiliad am ffynonellau data posibl ar y gweithgareddau, yr allbynnau a'r canlyniadau a restrir yn y Theori Newid (gweler adran 3). Rhan hanfodol o greu'r Banc Data oedd ystyried sut y gellid dangos tystiolaeth o'r cysylltiadau achosol o fewn y Theori Newid. Darparodd y Theori Newid fframwaith i ddadansoddi'r potensial i ddangos tystiolaeth o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Aseswyd ansawdd, defnyddioldeb a pharodrwydd ffynonellau data, a gwnaed argymhellion i sicrhau y bydd ffynonellau data o ansawdd uchel ar gael i werthuso Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.

### Asesu'r opsiynau gwerthuso

2.20 Mae'r dull o asesu gwerthusadwyedd wedi'i seilio ar y dull a geir yn y Llyfr Magenta, ac mae'n defnyddio methodoleg systematig a gydnabyddir yn eang i nodi ac asesu ystod o opsiynau gwerthuso posibl er mwyn pennu'r opswn addas gorau. Mae'r dull hwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn y camau blaenorol, gan gynnwys canfyddiadau o'r adolygiad llenyddiaeth, cyfweliadau â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol, a Theori Newid. Cynhaliwyd yr asesiad gwerthusadwyedd yn unol â'r camau canlynol:

- **Nodi opsiynau gwerthuso ar y rhestr hir**. Crëwyd rhestr hir i bennu'r holl opsiynau gwerthuso posibl. Yn unol ag arfer gorau, mae'r rhestr hir hon fel arfer wedi'i seilio ar y Llyfr Magenta ac mae'n perthyn i 3 grŵp: (i) Dulliau seiliedig ar theori sydd i raddau helaeth yn ansoddol a/neu yn ddulliau cymysg; (ii) Dulliau Lled-Arbrofol; a (iii) Dulliau arbrofol sy'n gwbl feintiol.
- **Rhestr fer o opsiynau**. Rhennir y rhestr hir o opsiynau i restr fyrrach o opsiynau (y 'Rhestr Fer'), yn seiliedig ar feini prawf asesu y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru, yr ystyrir eu bod yn ymarferol ar y cyfan yng nghyd-destun y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae'r meini prawf asesu yn amlinellu ystyriaethau megis cadernid, yr effeithiau a gasglwyd, argaeledd data, gofynion adnoddau, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ystyriaeth foesegol. Yn ymarferol, cynhaliwyd yr asesiad llunio rhestr fer yn seiliedig ar y tri grŵp gwerthuso (dulliau seiliedig ar theori, lled-arbrofol ac arbrofol), gan gydnabod y byddai'r asesiad yn debygol o fod yr un fath ar draws yr holl opsiynau o fewn pob grŵp.
- **Asesiad o'r rhestr fer**. Asesir pob opsiwn gwerthuso yn y rhestr fer yn fanylach yn erbyn y meini prawf asesu, i gynhyrchu'r opsiwn gwerthuso gorau. Cydnabyddir y gallai fod gorgyffwrdd ar draws sawl opsiwn, ac efallai y gallai sawl opsiwn fod yn ymarferol neu gael eu defnyddio gyda'i gilydd.
- **Cadarnhad o'r opsiwn a argymhellir**. Cyflwynwyd yr opsiwn a argymhellir yng Ngrŵp Llywio Llywodraeth Cymru, ynghyd â chanfyddiadau'r camau blaenorol a'r rhesymeg.

2.21 Yr opsiwn gwerthuso a argymhellir yw prif allbwn yr adroddiad hwn. Ceir crynodeb o'r dull gwerthuso a argymhellir yn adran 0.

**Ystyriaethau Methodolegol**

2.22 Mae rhai cyfyngiadau methodolegol i'r ymchwil sy'n haeddu ystyriaeth yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

2.23 Roedd yr adolygiad llenyddiaeth yn adolygiad cwmpasu llenyddiaeth ac felly nid oedd yn cynnwys adolygiad systemig o dystiolaeth na detholiad strwythuredig yn seiliedig ar feini prawf. Felly ni chafodd ei gynllunio i fod yn gyflawn. Datgelodd yr adolygiad llenyddiaeth hefyd mai cyfyngedig oedd y dystiolaeth gyhoeddedig ar werthusiadau cymhleth o gynlluniau gweithredu aml-haen i hyrwyddo hawliau LHDTC+.

2.24 Er y cyfwelwyd â 50 o bobl ar gyfer y prosiect hwn – gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, cyrff hyd braich, a sefydliadau LHDTC+, ni chynhaliwyd ymgysylltiad eang ag unigolion LHDTC+. Dylid cydnabod hyn, yn enwedig wrth ystyried y canfyddiadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid a'r Theori Newid sy'n deillio o hynny.

2.25 Roedd y Theori Newid yn dibynnu ar dystiolaeth o'r adolygiad cwmpasu – yn bennaf Cynllun Gweithredu LHDTC+ ei hun – a chyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach. Oherwydd y camau arloesol yn y cynllun a'r diffyg gwerthusiadau o bolisïau i wella hawliau LHDTC+, nid oedd yn bosibl dilysu cryfder y cadwyni achosol a nodwyd. Bydd hwn felly yn amcan allweddol o werthusiad y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Cydnabyddir hefyd bod sawl dull o ddatblygu Theori Newid, ac felly efallai y bydd angen ei hadolygu gan werthuswyr yn y dyfodol.

2.26 Llywiwyd yr ymarfer Banc Data gan yr adolygiad llenyddiaeth gwmpasu a chyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, erbyn amser y gwerthusiad, efallai y bydd ffynonellau data newydd wedi cael eu creu neu eu gwneud yn fwy defnyddiol. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried y Banc Data (Tabl 1) fel man cychwyn ar gyfer y gwerthusiad – ac fel offeryn i Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio i wella ansawdd ac argaeledd data – yn hytrach na chasgliad cynhwysfawr o'r ffynonellau data a allai fod ar gael pan fo gwerthuso'n digwydd.

# 3. Canfyddiadau’r Asesiad Gwerthusadwyedd

3.1 Mae’r adran hon yn manylu ar ganfyddiadau’r asesiad gwerthusadwyedd, sy’n nodi ac yn asesu ystod o opsiynau gwerthuso posibl er mwyn pennu opsiwn addas a ffefrir.

**Canfyddiadau o’r adolygiad llenyddiaeth**

3.2 Rhennir yr adolygiad llenyddiaeth yn dri chategori: mae'r cyntaf yn asesu'r llenyddiaeth ar werthusiadau cymhleth a'i chymhwysedd i Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru; mae'r ail yn adolygu gwerthusiadau o gynlluniau aml-faes a strategaethau system gyfan i wella bywydau pobl LHDTC+; ac mae'r trydydd yn ystyried gwerthusiadau o ymyriadau penodol o fewn Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Darperir fersiwn gryno isod, ac mae adolygiad llenyddiaeth manylach ar gael yn Atodiad A.

**Theori gwerthusiadau cymhleth**

3.3 Oherwydd ei berchnogion gweithredu lluosog, llinynnau achosol, a dylanwad ffactorau allanol, mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn system gymhleth sydd angen gwerthusiad sy’n sensitif i gymhlethdod (Rogers, 2008; Glouberman a Zimmerman, 2002).

3.4 Mae’r llenyddiaeth academaidd ar gymhlethdod mewn gwerthusiadau yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio Theori Newid – diagram sy’n egluro’r llwybrau achosol sy’n cysylltu ymyriad â’i ddeilliannau cymdeithasol dymunol (Chapman et al., 2023) – wrth werthuso ymyriadau polisi aml-faes o fewn systemau cymhleth (Dyson a Todd, 2010). Mae’r llenyddiaeth hefyd yn nodi y dylai sefydliadau gydnabod bod rhai newidiadau y tu allan i’w rheolaeth, gyda hyn yn cael ei ddelweddu yn y diagram, megis trwy gynrychioli tybiaethau (Valters, 2014). Mae’r llenyddiaeth hefyd yn nodi y gall Theorïau Newid ddyddio, yn enwedig mewn meysydd polisi sy’n newid yn gyflym (Abercrombie et al., 2018). Efallai y bydd angen diweddaru'r Theori Newid rhwng yr asesiad gwerthusadwyedd a gwerthusiad, neu yn ystod gwerthusiad ei hun (Mason, 2007). Yn olaf, mae’r llenyddiaeth academaidd yn awgrymu mai gwerthusiadau dulliau cymysg sydd orau i fynd i’r afael â heriau ymyriadau cymhleth a gofynion gwerthuso (Sanderson, 2003; Bristow et al., 2009).

3.5 Gan symud y tu hwnt i theori academaidd, y canllaw awdurdodol ar gymhlethdod i ymarferwyr gwerthuso yw canllaw atodol Trysorlys EF i'r Llyfr Magenta, sef

Handling Complexity in Policy Evaluation. Mae'r canllaw yn nodi un ar ddeg o nodweddion systemau cymhleth, ond nodwyd pedair fel y rhai mwyaf perthnasol i werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Y pedair nodwedd yw bod yn agored (neu systemau agored), adborth, effeithiau anuniongyrchol annisgwyl, a phwyntiau tyngedfennol.

- Mae **systemau agored** yn systemau polisi sy'n cael eu dylanwadu'n gryf gan ffactorau allanol. Mae system Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yn cael ei dylanwadu’n gryf gan ffactorau allanol, megis polisïau Llywodraeth y DU. Felly bydd Theori Newid yr asesiad gwerthuso hwn yn amlygu dylanwadau allanol allweddol mewn colofn ‘tybiaethau’.
- Mae **dolenni adborth** yn digwydd pan fo newid yn aflinol, er enghraifft pan fydd canlyniadau llwyddiannus polisi yn effeithio ar weithredu polisi cysylltiedig. Mae canllawiau Trysorlys EF yn argymell y dylid caniatáu digon o amser i ymyriadau gael eu rhoi ar waith ac i ddolenni adborth ddatblygu cyn dechrau gwerthuso effaith. Yn unol â llenyddiaeth academaidd, bydd dolenni adborth a ragwelir yn cael eu mynegi yn y Theori Newid, i’w hamlygu i werthuswyr a gweithredwyr (Davies, 2018; Desta Research, 2022).
- Mae **effeithiau annisgwyl a phwyntiau tyngedfennol** yn cael eu hachosi gan gadwyni achosol hir o fewn systemau cymhleth. Yn ôl eu natur, mae'r rhain yn anodd eu rhagweld. Mae canllawiau Trysorlys EF a llenyddiaeth academaidd yn awgrymu y gall mapio systemau nodi effeithiau anuniongyrchol, ac y gall diweddaru Theori Newid cyn neu yn ystod gwerthusiad fod yn ddefnyddiol hefyd (Mason, 2007).

3.6 I grynhoi, wrth werthuso rhaglenni cymhleth, mae canllawiau Trysorlys EF yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio Theori Newid i egluro’r llwybr achosol sylfaenol rhwng ymyriad polisi a’i ganlyniad cymdeithasol dymunol o fewn systemau cymhleth. Mae llenyddiaeth academaidd yn awgrymu y dylai’r Theori Newid gydnabod rôl dylanwadau allanol. Dylid cydnabod hyn yn ei dro yn y dewis o ddull gwerthuso, oherwydd mae’n debyg y bydd yn anodd nodi achosiaeth gyda chanlyniadau o'r fath. Mae’r canfyddiad hwn yn berthnasol i linynnau a themâu unigol y Cynllun Gweithredu LHDTC+, lle mae canlyniadau allweddol yn debygol o gael eu heffeithio ar draws ymyriadau lluosog sy’n rhychwantu themâu lluosog y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae’r llenyddiaeth yn awgrymu bod dulliau methodolegau cymysg o werthuso (h.y. y rhai sy’n defnyddio cyfuniad o

dechnegau meintiol ac ansoddol) yn ddoeth, o ystyried y byddant yn galluogi dull hyblyg a all ddal cymhlethdodau a naws y rhaglen ac addasu i newidiadau annisgwyl wrth weithredu ymyriad cymhleth, megis Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am yr adolygiad llenyddiaeth yn Atodiad A.

**Gwerthusiadau o strategaethau LHDTC+ aml-faes**

3.7 Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth o werthusiadau o gynlluniau gweithredu LHDTC+ aml-faes tebyg mewn gwledydd eraill. Cynhaliwyd chwiliad mewn ystod eang o ieithoedd Ewropeaidd am werthusiadau ffurfiol o gynlluniau tebyg i Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Dim ond yn Norwy y canfuwyd gwerthusiadau ffurfiol sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y strategaethau hyn ar gael yn Atodiad A.

3.8 Canfu'r gwerthusiad o gynllun gweithredu Norwy 2009-12 nad oedd prif amcan y cynllun o roi terfyn ar wahaniaethu LHDT yn Norwy "yn realistig" o fewn y ffrâm amser pedair blynedd, a'i fod yn "ymddangos yn debycach i weledigaeth i anelu ati na nod i'w gyrraedd" (Cyfarwyddiaeth Norwy ar gyfer Materion Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, 2013). Canfu hefyd nad oedd addewidion a gweithredoedd amwys yn aml yn cael eu gweithredu yn dda. Conglfaen ei fethodoleg oedd arolwg o weithwyr yng ngweinyddiaethau Llywodraeth Norwy, a chanfu'r arolwg nad oedd y cynllun yn cael ei ystyried yn berthnasol i waith holl weinyddiaethau Norwy. Canfu gwerthusiad o gynllun gweithredu LHDT Norwy 2017-2020 fod camau gweithredu gyda pherchnogion camau gweithredu lluosog, a diffyg targedau mesuradwy neu amser-benodol, wedi tanseilio cynllun gweithredu Norwy 2016-2020 (Proba Samfunnanalyse, 2021; 2021a).

3.9 Y tu hwnt i Norwy, mae gwerthusiadau o gynlluniau gweithredu LHDTC+ yn fwy cyfyngedig. Er enghraifft, dim ond diweddariadau monitro cyhoeddus neu adroddiadau cynnydd ar y gweithredu y mae Llywodraeth y DU (2019), Llywodraeth Iwerddon (2019), Llywodraeth Malta (2023), Senedd Gwlad yr Iâ (2022), a Llywodraeth Gwlad Groeg (2022) yn eu gwneud, heb unrhyw dystiolaeth o Theorïau Newid na gwerthusiadau ffurfiol o'u cynlluniau gweithredu LHDTC+. Mewn llawer o achosion, yn enwedig Rhaglen Weithredu Gwlad yr Iâ 2022-2025, dibynnir ar fap Enfys ILGA-Ewrop i fonitro llwyddiant ac effaith cynlluniau gweithredu LHDTC+. Er bod y trafodaethau'n parhau, nid yw Cymru'n cael ei chynrychioli ar hyn o bryd ar Fap Enfys ILGA-Ewrop, yn wahanol i weddill y DU. Mae hyn yn golygu na fydd newidiadau polisi ar hawliau LHDTC+ yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu yn safleoedd ILGA.

3.10 Yn y bôn, mae'r sylfaen dystiolaeth i werthusiadau o strategaethau a rhaglenni LHDTC+ perthnasol yn brin. Er bod cynlluniau gweithredu LHDTC+ yn gymharol gyffredin ledled Ewrop, nid yw mwyafrif helaeth y cynlluniau gweithredu LHDTC+ rhyngwladol yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol, ac nid yw'r gwerthusiad felly ar gael i'r cyhoedd. Mae’r gwerthusiadau mwyaf perthnasol yn ymwneud â chynlluniau gweithredu LHDT Norwy (2009-2012; a 2017-2020), ond roedd y rhain yn canolbwyntio’n bennaf ar ddull gwerthuso proses a oedd yn gyfyngedig iawn o ran cwmpas, ac felly’n rhoi canfyddiadau cyfyngedig o ran yr asesiad gwerthusadwyedd presennol. Er enghraifft, roeddent yn bennaf yn cynnwys arolwg o weinyddiaethau'r llywodraeth ac ni ddatblygwyd Theori Newid. Fodd bynnag, datgelodd yr arolwg o staff Llywodraeth Norwy a fu’n gwerthuso Cynllun Gweithredu LHDT Norwy 2009-2012 fod lleiafrif cryf o weinyddiaethau Llywodraeth Norwy yn credu nad oedd y cynllun yn berthnasol i’w gweinyddiaeth – mae hyn yn awgrymu y gellid defnyddio arolwg tebyg o uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru i ganfod i ba raddau y mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cael ei flaenoriaethu a’i weld yn berthnasol tu mewn i Lywodraeth Cymru.

**Gwerthusiadau o ymyriadau yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru**

3.11 Wrth gydnabod y nifer gyfyngedig iawn o werthusiadau o gynlluniau gweithredu LHDTC+ aml-faes, roedd yr adolygiad llenyddiaeth yn cynnwys ystyriaeth o sut y cafodd yr ymyriadau penodol yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru eu gwerthuso mewn mannau eraill. Mae'r is-adran hon felly yn ystyried gwerthusiadau presennol o ymyriadau tebyg i'r rhai a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Nid yw'n ceisio darparu trosolwg o “beth sy'n gweithio” mewn perthynas â pholisïau LHDTC+. Pan nodir gwerthusiadau, mae'r adolygiad hwn yn adrodd yn bennaf ar eu dulliau methodolegol. Lle nad oes gwerthusiadau ar gael, bydd canllawiau ar arfer gorau yn cael eu hystyried. Gellir darllen yr adolygiad llenyddiaeth llawn a manwl yn Atodiad A, wedi'i rannu yn ôl themâu Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Prif ganfyddiadau'r adran hon o'r adolygiad llenyddiaeth yw:

- Yn gyffredinol, mae diffyg gwerthusiadau effaith o ymyriadau LHDTC+ y gellir eu defnyddio fel templed ar gyfer gwerthusiad o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.
- Mae rhai astudiaethau yn y DU (e.e. Chakraborti a Hardy, 2015) yn ceisio recriwtio cyfranogwyr LHDTC+ yn bersonol trwy gaffis, bariau, a grwpiau

cymunedol i gynyddu'r tebygolrwydd o recriwtio unigolion nad ydynt eisoes yn ymwneud â sefydliadau LHDTC+. Y nod yw ymgysylltu â sampl ehangach a mwy cynrychioliadol o bobl LHDTC+.

- Mae adolygiad systematig o dystiolaeth o ddeunyddiau addysgol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn materion LHDTC+ yn awgrymu bod ymyriadau yn effeithiol wrth fynd i'r afael ag agweddau ac ymddygiad negyddol tuag at bobl LHDTC+ os ydynt yn cynnwys rhyngweithio uniongyrchol rhwng staff heterorywiol a chyfoedion neu ddarlithydd LHDTC+ y maent eisoes yn ei adnabod, ac mae llawer o'r ymyriadau cwbl addysgol heb ryngweithio personol yn aneffeithiol (Hunt et al., 2019). Mae hyn yn awgrymu y gellid defnyddio mesur lefel y personoli mewn hyfforddiant LHDTC+ mewn gwerthusiad o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru..
- Yn fras, nodwyd bod data ansoddol yn allweddol i werthuso ymyriadau LHDTC+. Mae hyn oherwydd bod data meintiol fel arfer yn cael ei gasglu mewn meintiau sampl annigonol i gynrychioli'n ddigonol brofiadau amrywiol a chroestoriadol y gymuned LHDTC+, a gall fod yn rhy syml i gael gwybodaeth ddwys a manwl. Er enghraifft, roedd gwerthusiad cynhwysfawr o gynhwysiant a chyfranogiad LHDTC+ mewn chwaraeon yn Awstralia yn dibynnu ar wybodaeth ansoddol oherwydd meintiau sampl, ac mai dim ond yn ansoddol y gellid mesur y derbyniad o bobl LHDTC+. Ni ddefnyddiwyd tystiolaeth feintiol, megis nifer y bobl LHDTC+ mewn clwb chwaraeon (Storr *et al.*, 2021).

**Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid**

3.12 Mae'r adran hon yn nodi'r canfyddiadau o'r cyfweliadau ansoddol â rhanddeiliaid, ac mae'r adran gyntaf yn trafod canlyniadau cyffredinol llwyddiant y cynllun gweithredu LHDTC+. Mae'r ail adran yn trafod y ffactorau allweddol i'w hystyried wrth werthuso'r cynllun gweithredu LHDTC+. Mae'r drydedd adran yn amlygu sefydliadau posibl y gellid cysylltu â nhw i gymryd rhan yn y gwerthusiad. Er mwyn caniatáu i sefydliadau siarad yn rhydd, priodolir yr atebion hyn i "gyfweleion allanol" yn hytrach na'r sefydliadau eu hunain. Roedd gan y cyfweleion farn wahanol, ac roedd llawer yn arbenigo yn eu meysydd arbenigedd, ond roedd y cyfweleion yn cytuno'n fras y byddai'r canlyniadau canlynol yn dangos bod Cynllun Gweithredu LHDTC+ wedi'i weithredu yn llwyddiannus:

- mwy o ymwybyddiaeth o'r gymuned LHDTC+ a'i hawliau ymhlith y cyhoedd a llunwyr polisi,
- mwy o adrodd am droseddau casineb LHDTC+ ac ymwybyddiaeth o'r ffyrdd o adrodd am droseddau casineb, perthynas gryfach rhwng yr heddlu a chymunedau LHDTC+,
- cwricwlwm cynhwysol newydd LHDTC+ yn cael ei weithredu ac yn arwain at fwy o ysgolion LHDTC+ gynhwysol gyda gostyngiad mewn bwlio gwrth-LHDTC+,
- arferion iechyd cynhwysol yn arwain at fwy o hyder ymhlith pobl LHDTC+ wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd cyffredinol, gwasanaethau ffrwythlondeb, gwasanaethau mamolaeth, a gwasanaethau rhywedd,
- sicrhau y cedwir at hawliau dynol LHDTC+, drwy ddiwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd a gwahardd therapi trosi,
- nododd rhanddeiliaid allanol bod creu Gwasanaeth Rhywedd ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru yn ganlyniad hanfodol i Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.

3.13 Er bod y rhan fwyaf o’r allbynnau o’r cyfweliadau wedi llywio datblygiad y Theori Newid ac asesiad o ddata meintiol drwy’r Banc Data, mae nifer o ganfyddiadau sy’n berthnasol i’r asesiad gwerthuso a welwyd yn gyson ar draws y cyfweliadau.

- **Ni ddylid defnyddio mesurau meintiol ar eu pen eu hunain a dylid eu defnyddio'n ofalus wrth werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.** Rhybuddiodd y mwyafrif llethol y byddai dibyniaeth ar fesurau meintiol mewn perygl o beidio â dal yr amrywiaeth lawn o brofiadau o fewn y gymuned LHDTC+. Roedd cyfweleion yn ymwybodol bod diffyg cyffredinol o ddata meintiol ar gael ar ronynnedd addas i asesu effaith ymyriadau o fewn y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae hyn yn golygu y gall data meintiol drin profiadau LHDTC+ fel rhai homogenaidd, sydd mewn perygl o guddio’r heriau a wynebir gan fenywod, pobl draws, lleiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches, a grwpiau eraill. Yn ogystal, nododd rhai cyfweleion fod dulliau meintiol yn aml yn cynnwys risg o ragfarn bosibl (e.e. samplu, rhagfarn anymwybodol a hanesyddol) nad ydynt yn amlwg ar unwaith. Mae diffyg cyffredinol hefyd o ddata meintiol ar ronynnedd addas (lefel ddigonol o

fanylder neu drachywiredd) ar gyfer asesu effaith yr ymyriadau yn y Cynllun Gweithredu.

- **Rhoi pwyslais ar ddeall canfyddiadau a phrofiadau byw pobl LHDTC+ a phrofiadau croestoriadol** trwy ddulliau casglu data ansoddol o ansawdd uchel (cyfweliadau, grwpiau ffocws llai) i ddeall effaith. Mae hyn yn caniatáu dealltwriaeth fanwl o brofiadau pob grŵp. Mae pobl yn fwy tebygol o ymgysylltu ac ymddiried mewn gwerthusiad sy'n amlwg yn gwrando ar bobl. Roedd y cyfweleion yn croesawu’n gryf y syniad bod gwaith maes ansoddol yn ymgysylltu â phobl LHDTC+ yn uniongyrchol ledled Cymru. Mae hyn yn golygu y dylai'r gwerthusiad ystyried defnyddio canolfannau a grwpiau LHDTC+ ledled Cymru i recriwtio ar gyfer gwaith maes. Roedd rhai yn pryderu efallai na fyddai cyrff cynrychioliadol a recriwtio cyfryngau cymdeithasol yn adlewyrchu sampl gynrychioliadol o brofiadau LHDTC+ yng Nghymru. Fodd bynnag, disgwylir i anhysbysrwydd a natur eang cyfryngau cymdeithasol fod yn bwysig er mwyn dal safbwyntiau unigolion LHDTC+ nad ydynt ‘allan’.
- **Sicrhau cynrychiolaeth o bobl â hunaniaethau croestoriadol ar draws y gymuned LHDTC+ yn y gwerthusiad**, gan y gall yr unigolion hyn fod wedi cael profiadau unigryw, nad ydynt o bosibl yn cael eu dal gyda dull poblogaeth gyfan.
- **Mae dwy brif effaith i'w hystyried mewn gwerthusiad**: (i) Sut mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ wedi gwella bywydau a phrofiadau pobl LHDTC+?, a (ii) Sut mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ wedi arwain at ymgorffori ystyriaeth o ymwybyddiaeth LHDTC+ wrth lunio polisïau cyffredinol?
- **Bydd rhai canlyniadau yn cymryd mwy o amser i'w gwireddu** – yn enwedig y rhai sy'n dibynnu ar newid ymddygiad ymhlith y cyhoedd. Mae hyn yn awgrymu na fydd pob newid o ganlyniad i Gynllun Gweithredu LHDTC+ yn amlwg erbyn diwedd tymor y Senedd 2021-2026.
- **Dylid cydnabod y gorgyffwrdd â Chynlluniau Gweithredu eraill**, yn enwedig mewn meysydd cyffredin – megis mynd i'r afael â throseddau casineb a bwlio. Awgrymodd cyfweleion y dylai’r agweddau hyn ar y Cynllun Gweithredu LHDTC+ gael eu cyflenwi a’u gwerthuso mewn ffordd gydgysylltiedig.

3.14 Yn ogystal, nododd y cyfweleion y cyfleoedd canlynol i recriwtio pobl LHDTC+ ledled Cymru i ymgysylltu â gwaith maes ansoddol fel rhan o’r broses werthuso:

- Mannau cymdeithasol LHDTC+, fel y Queer Emporium yng Nghaerdydd.
- Hoops & Loops.
- Clybiau a thimau chwaraeon LHDTC+
- Stonewall Cymru.
- Grwpiau LHDTC+ Undeb y Myfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru.
- Grwpiau cefnogi i gyn-filwyr LHDTC+.
- Trans Vision Cymru.
- Rhwydwaith Unique Transgender.
- Undebau llafur Cymru a'u rhwydweithiau cydraddoldeb.
- Lleoliadau gwaith ieuenctid, yn enwedig clybiau ieuenctid LHDTC+ fel Viva LHDTC+.

3.15 Mae copi llawn a manwl o’r cyfweliadau ar gael yn Atodiad B.

**Theori Newid**

3.16 Roedd yr asesiad gwerthusadwyedd presennol yn cynnwys cynhyrchu Theori Newid, yn cael ei llywio gan yr adolygiad llenyddiaeth a 36 o gyfweliadau â rhanddeiliaid. Bu gweithdy gyda Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru a grëwyd ar gyfer yr asesiad gwerthusadwyedd hwn hefyd yn sail i’r Theori Newid a ddeilliodd o hynny.

3.17 Diben y Theori Newid yw dyfnhau dealltwriaeth o’r llwybrau achosol damcaniaethol rhwng ymyriad polisi a’r canlyniadau dymunol. Mae Theori Newid yn datgelu tybiaethau ar hyd y llwybr hwn y gellir eu profi trwy werthusiad. Cânt eu defnyddio i ddatblygu consensws ar effeithiau allweddol o wahanol agweddau ar ymyriad, a nodi canlyniadau allweddol y dylid eu monitro mewn gwerthusiad.

3.18 Erbyn adeg y gwerthusiad, efallai y bydd angen diweddaru'r Theori Newid. Er enghraifft, efallai y bydd allbynnau neu ddeilliannau nad ydynt yn rhagweladwy eto wedi datblygu, ac yn sgil hynny, bydd angen eu cynrychioli yn y diagram. Yn ogystal, mae gwahanol ffyrdd o gynrychioli theorïau newid, ac efallai y bydd

gwerthusiad yn y dyfodol eisiau ailedrych ar y penderfyniadau a wnaed wrth gynhyrchu'r Theori Newid hon i weddu i'w dulliau gwerthuso a'u blaenoriaethau.

3.19 Mae'r Theori Newid hon yn cynnwys y symbolau canlynol:

- Mae'r **saethau** (yn amrywio o 'Gamau Gweithredu' i'r 'Weledigaeth Gyffredinol') yn cynrychioli'r broses gweithredu polisi. Mae'r 'Camau Gweithredu' yn y cynllun yn arwain at y 'Gweithgareddau' sydd, o'u gweithredu, yn arwain at 'ganlyniadau cyfryngol' a rhai 'allbynnau cyfryngol', a ddilynir wedyn gan 'Ganlyniadau' tymor hwy. Mae'r canlyniadau hyn yn cynrychioli newidiadau gwirioneddol ym mywydau pobl LHDTC+. Mae pob 'Canlyniad' yn cyfrannu at gyflawni 'Gweledigaeth Gyffredinol' Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, a nodwyd gan Alma Economics drwy ymgysylltiad dwys â rhanddeiliaid, ac a gadarnhawyd gan y Grŵp Llywio. Mae'r Weledigaeth Gyffredinol yn uno pob Thema o dan weledigaeth a rennir. Cynrychiolir 'allbynnau cyfryngol' yn y golofn 'canlyniadau cyfryngol' oherwydd nad oes digon o allbynnau adnabyddadwy ar y cam hwn o'r asesiad gwerthusadwyedd i haeddu colofn ar wahân. Unwaith y bydd mwy o allbynnau yn glir, efallai y bydd gwerthuswyr eisiau newid sut mae allbynnau'n cael eu cynrychioli ar y diagram.
- Mae **ffiniau gwyn â llinellau** yn nodi eitemau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol yn y Cynllun Gweithredu ond sydd yn hytrach wedi'u gwreiddio yn y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Ychwanegwyd testun o fewn ffiniau gwyn trwchus rhwng llinellau lliw i egluro llwybrau achosol a gwneud y Theori Newid yn fwy perthnasol a chydlynol. Mae testun nad yw o fewn ffiniau gwyn wedi'i wreiddio yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, ond yn aml yn cael ei grynhoi.
- Mae'r **golofn Tybiaethau Allweddol** yn coladu gwybodaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r adolygiad o lenyddiaeth ynghylch y tybiaethau a'r dibyniaethau yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae'r holl ragdybiaethau wedi'u gwreiddio mewn canfyddiadau o'r cam cwmpasu a chyfweliadau â rhanddeiliaid mewnol ac allanol:
    - Cynhwysir **dolenni adborth** yn y Theori Newid hon oherwydd nid yw pob newid yn llifo'n daclus o weithgareddau i ddeilliannau - maent hefyd yn llifo "yn ôl". Defnyddir dolenni adborth felly i amlygu pryd mae'r canlyniadau'n effeithio ar weithrediad gweithgaredd neu i ba

raddau y cyflawnir allbwn. Tybiaethau yw'r rhain, ac felly cânt eu hesbonio'n fanylach yn y golofn Tybiaethau Allweddol.

- Hefyd nodwyd **risgiau** yn y golofn Tybiaethau Allweddol. Mae'r rhain yn deillio o'r cyfweliadau ac yn amlygu risgiau y dylai gwerthuswyr a gweithredwyr polisi dalu sylw iddynt. Os na chaiff canlyniad ei gyflawni, gallai'r risgiau helpu i egluro beth oedd yr heriau sylfaenol. Gall ystyried y risgiau allweddol sicrhau bod heriau'n cael eu lliniaru a bod camau gweithredu a chanlyniadau'n cael eu cyflawni.

## Thema A: Hawliau dynol a chydnabyddiaeth

### Camau Gweithredu

- Gwahardd pob agwedd ar Arferion Trosi LHDTC+
- Sbarduno cais i ddatganoli pwerau mewn perthynas â Chydnabyddiaeth Rhywedd
- Gwella dealltwriaeth o hawliau dynol LHDTC+ a chynrychiolaeth mewn fforymau cydraddoldeb
- Darparu cydnabyddiaeth o bobl anneuaidd a rhyngrywiol mewn dogfennaeth swyddogol
- Mae ymgysylltu rhyngwladol yn arddangos ein gwerthoedd a chefnogaeth LHDTC+ yng Nghymru ac yn fyd-eang

### Gweithgareddau

- Chwilio am bwerau a'u defnyddio i wahardd arferion trosi
- Amlygu niwed arferion trosi a chefnogaeth i oroeswyr
- Nodi ffyrdd o gefnogi ymgeiswyr Tystysgrif Cydnabod Rhywedd (GRC) yng Nghymru
- Rhannu adnoddau ar hawliau pobl LHDTC+
- Monitro a gwella cynrychiolaeth LHDTC+ mewn fforymau cydraddoldeb a dylunio gwasanaethau cyhoeddus
- Amlygu bod Cymru yn genedl gyfeillgar i bobl LHDTC+ a chodi pwysigrwydd hawliau LHDTC+ mewn ymrwymiadau diplomyddol

### Canlyniadau canolraddol

- Llai o bobl LHDTC+ sy'n profi arferion trosi yng Nghymru a gwell mynediad at wasanaethau i oroeswyr
- Mae pobl draws yn cael cymorth i gael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd yng Nghymru
- **Canlyniad canolraddol**: Mae hunaniaethau anneuaidd yn cael eu cydnabod mewn trwyddedau gyrru, pasbortau, a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru
- Mae poblogaeth a darparwyr gwasanaethau Cymru yn ymwybodol o hawliau LHDTC+ a sut i ymateb os nad yw eraill yn eu cynnal
- **Canlyniad canolraddol**: Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi'u cynllunio i wasanaethu pobl LHDTC+ yn well.

### Canlyniadau

- Mae pobl LHDTC+ yn cael eu cydnabod, a gallant gael mynediad at wasanaethau fel eu gwir hunain, yn unol â'u hunaniaeth rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol
- Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gymunedau traws yn weladwy
- Mae pobl LHDTC+ yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru – ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi
| **Thema C**: Cenedl noddfa i geiswyr lloches a ffoaduriaid | **Nodi, diogelu a chyfeirio pobl LHDTC+ i hawlio lloches** | *Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid LHDTC+ yn teimlo bod ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn Genedl Noddfa yn cynnwys pobl LHDTC+* | Amh. | Awgrymodd cyfweleion fod Gwasanaeth Noddfa Cymru yn monitro boddhad ceiswyr lloches gyda’u gwasanaethau a’u profiadau ehangach, ond nad yw hyn yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol na hunaniaeth rhywedd | Angen archwilio a gwaith pellach Bydd angen cael y data a'i ddilysu. Bydd angen diwygio'r arolwg monitro hefyd. | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys cwestiwn o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn arolwg boddhad Gwasanaeth Noddfa Cymru. Bydd angen cael y data a'i ddilysu. Gall hyn fod yn gymhleth o ystyried nad yw lloches yn faes polisi datganoledig. |
| **Thema D**: Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant | **Deall a gwella profiad pobl LHDTC+ yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.** | *Mae pobl LHDTC+ yn teimlo’n ddiogel, yn cael eu parchu a’u deall wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol* ac *mae pobl* | Amh. | Roedd cyfweleion allanol yn obeithiol y gellid defnyddio nifer y bobl LHDTC+ sy’n gwneud cwynion i fyrddau iechyd mewn gwerthusiad.<br><br>Gan nad oedd y data hwn ar gael, awgrymodd cyfweleion y gallai Llais – | Angen archwilio a gwaith pellach Nid yw’n glir a yw’r data hwn ar gael, efallai y bydd angen gwaith mawr i goladu a chyflunio gan Lywodraeth | Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau data cwynion iechyd ar nifer y cwynion gan bobl sy'n nodi eu bod yn LHDTC+. Os nad yw hyn |

| **Thema** | **Cam Gweithredu Perthnasol** | **Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol** | **Dolen i'r ffynhonnell ddata** | **Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig** | **Asesiad data** | **Argymhelliad/ Argymhellion** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *LHDTC+ wedi gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd ac maent mewn llai o risg o gael eu hallgáu* | | Corff Llais y Dinesydd dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol chwarae rhan yn y gwerthusiad, gan gynnwys drwy adroddiadau profiadau cleifion. | Cymru iddo fod ar gael i werthuswyr. | yn bosibl, dylent geisio nifer y cwynion sy'n cyfeirio at wahaniaethu gwrth-LHDTC+ mewn gofal iechyd. |
| **Thema D**: Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant | **Deall a gwella profiad pobl LHDTC+ yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.** | *Mae pobl LHDTC+ yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u deall wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol* ac *mae pobl LHDTC+ wedi gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd ac maent mewn llai o risg o gael eu hallgáu* | | Roedd cyfweleion o'r farn y byddai angen casglu data mwy trylwyr ynghylch cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd cleifion er mwyn dyfnhau dealltwriaeth o brofiadau LHDTC+ mewn gofal iechyd. | Angen archwilio a gwaith pellach. | Dylai gwasanaethau cyhoeddus Cymru – gan gynnwys y GIG – gasglu data'n amlach ar hunaniaeth rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol defnyddwyr gwasanaethau er mwyn asesu'r galw a nodi unrhyw anghydraddoldebau wrth ddarparu gwasanaethau. Dylid safoni a |

| Thema | Cam Gweithredu Perthnasol | Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol | Dolen i'r ffynhonnell ddata | Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig | Asesiad data | Argymhelliad/ Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | chasglu data yn gyson. |
| **Thema D**: Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant | **Deall a gwella profiad pobl LHDTC+ yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.** | *Mae pobl LHDTC+ yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u deall wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol* ac *mae pobl LHDTC+ wedi gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd ac maent mewn llai o risg o gael eu hallgáu* | Arolwg Staff GIG Cymru 2023 (canlyniadau ar y gweill) | Gellid defnyddio arolwg staff GIG Cymru 2023 i lywio'r gwerthusiad, drwy ystyried profiadau staff LHDTC+ sy'n gweithio ym maes gofal iechyd.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'n glir a ofynnodd yr arolwg i unigolion am eu cyfeiriadedd rhywiol na'u hunaniaeth rhywedd – neu a yw'n bosibl hidlo'r canlyniadau fel hyn. Nid oedd hyn yn bosibl mewn arolygon staff blaenorol. | Angen archwilio a gwaith pellach Nid yw'n glir a yw'r data'n addas ar gyfer y gwerthusiad ac felly bydd angen eu harchwilio ymhellach, a gallai fod angen diwygio'r arolwg. | Dylid archwilio'r data ymhellach i benderfynu a ddylid ychwanegu cwestiynau yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd i'r arolwg. |
| **Thema D**: Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant | **Deall a gwella profiad pobl LHDTC+ yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.** | *Mae pobl LHDTC+ yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u deall wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol* ac *mae pobl* | Efallai bod adroddiad ar y gweill | Dywedodd cyfweleion sy'n gweithio ym maes iechyd y gallai Arolygiaeth Iechyd Cymru gynnwys cynwysoldeb LHDTC+ yn ei hadroddiad blynyddol os oes data cryf. Roeddent hefyd yn awgrymu bod Arolygiaeth Iechyd Cymru yn ystyried cynnal | Angen archwilio a gwaith pellach. Mae'n bosibl y bydd adroddiad a set ddata sylfaenol ar gael i lywio'r gwerthusiad. | Dim wedi ei nodi |

| Thema | Cam Gweithredu Perthnasol | Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol | Dolen i'r ffynhonnell ddata | Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig | Asesiad data | Argymhelliad/ Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *LHDTC+ wedi gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd ac maent mewn llai o risg o gael eu hallgáu* | | adolygiad o anghydraddoldebau iechyd pobl draws a gallai hyn fod yn rhan o werthusiad. | | |
| **Thema D**: Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant | **Sicrhau bod datblygiad y strategaeth iechyd meddwl newydd yn ystyried pobl LHDTC+** | *Mae pobl LHDTC+ yn hyderus bod gwasanaethau iechyd meddwl yn diwallu eu hanghenion* | Ar y gweill | Roedd cyfweleion mewnol yn hyderus y bydd strategaeth iechyd meddwl newydd Llywodraeth Cymru yn cael ei gwerthuso'n ffurfiol, ac y byddai hyn yn ystyried profiadau LHDTC+. Gallai hyn lywio'r gwerthusiad hwn. | Disgwylir i ddata fod ar gael yn rhwydd i werthuswyr – os gwneir gwerthusiad o'r strategaeth | Dim |
| **Thema D**: Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant | **Cyhoeddi a gweithredu ar Gynllun Gweithredu HIV newydd** | *Cymru'n cyrraedd y targed o ddim trosglwyddiadau HIV newydd erbyn 2030 ac mae pobl sy'n byw gyda HIV yn fodlon â'u gofal ac mae pobl LHDTC+ ym mhob rhan o Gymru yn teimlo y gallant gael* | Ar y gweill (*Arolwg Llesiant HIV* Iechyd Cyhoeddus Cymru ) | Fel y nodwyd yng Ngham Gweithredu 26 Cynllun Gweithredu HIV, mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnal arolwg o lesiant pobl sy'n byw gyda HIV yng Nghymru. Bydd yr arolwg cyntaf yn agor yn gynnar yn 2024 ac yn cael ei ailadrodd yn flynyddol. Bydd yn gofyn i unigolion fewnbynnu eu cyfeiriadedd | Disgwylir i ddata fod ar gael yn rhwydd i werthuswyr | Dim |

| Thema | Cam Gweithredu Perthnasol | Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol | Dolen i'r ffynhonnell ddata | Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig | Asesiad data | Argymhelliad/ Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *mynediad hawdd, preifat a chyfrinachol at wasanaeth iechyd rhywiol* | | rhywiol a'u hunaniaeth rhywedd trwy feysydd testun agored cyn gofyn cyfres gynhwysfawr o gwestiynau ar foddhad, rhwystrau a llesiant.<br><br>Yn ogystal, disgwylir i ddata pellach fod ar gael ynghylch targed Iechyd Cyhoeddus Cymru o ddim trosglwyddiadau HIV. | | |
| **Thema D**: Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant | **Parhau i ddatblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru** | *Pobl drawsryweddol ac anneuaidd – gan gynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion - yn hyderus bod y WGS a'r llwybrau atgyfeirio yn bodloni eu hanghenion gofal iechyd* | | Roedd cyfweleion yn hynod hyderus y gallai data o'r WGS ar amseroedd aros, mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMs), mesurau profiad a adroddir gan gleifion (PREMs), ac adborth dienw o'r cyfarfodydd misol a gynhelir rhwng WGS a chynrychiolwyr trawsryweddol fod ar gael i werthuswyr Cynllun Gweithredu LHDTC+. | Data ar gael ond mae angen ei goladu/dadansoddi. | Dylai Llywodraeth Cymru a/neu werthuswyr ofyn am y data monitro hwn i lywio'r gwerthusiad. Roedd cyfweleion yn hynod hyderus y byddai'r data hwn ar gael. |

| Thema | Cam Gweithredu Perthnasol | Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol | Dolen i'r ffynhonnell ddata | Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig | Asesiad data | Argymhelliad/ Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Thema E**: Addysg gynhwysol | **Darparu canllawiau traws cenedlaethol i ysgolion ac awdurdodau lleol** a **Dylunio a gweithredu ymagwedd ysgol gyfan sy'n gwbl gynhwysol o LHDTC+.** | *Mae pobl draws yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cael eu cynnwys mewn addysg* ac *mae pobl ifanc LHDTC+ yn adrodd am lefelau is o fwlio a gwahaniaethu* | Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion – Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yng Nghymru | Credai cyfweleion mewnol y gellid mesur effeithiau'r Canllawiau drwy Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion drwy amlygu profiadau myfyrwyr traws ac anneuaidd. Mae'n cynnwys cwestiynau ar seiberfwlio a thrais mewn ysgolion, a allai fod yn addysgiadol mewn gwerthusiad. | **Angen archwilio a gwaith pellach.** Gallai'r data hwn fod ar gael i werthuswyr, ond byddai angen newidiadau i'r arolwg. | Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion i sicrhau bod Arolygon Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yn y dyfodol yn gofyn cwestiynau i ddisgyblion ysgolion uwchradd am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd a sicrhau bod y data hwn ar gael i werthuswyr Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r arolwg yn gofyn am hunaniaeth rhywedd yr ymatebwyr yn |

| Thema | Cam Gweithredu Perthnasol | Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol | Dolen i'r ffynhonnell ddata | Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig | Asesiad data | Argymhelliad/ Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | unig, ac nid yw'n casglu data ar gyfeiriadedd rhywiol nac a yw eu hunaniaeth rhywedd yr un fath â'u rhyw a ddisgrifiwyd adeg eu geni. |
| **Thema F**: Cymunedau, bywyd preifat a bywyd teuluol | **Yr holl gamau gweithredu yn y thema hon** | *Gwella profiadau – a chysylltedd – pobl LHDTC+ ym mhob rhan o Gymru* | Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019-2020)<br><br>Newidynnau: DvSexOrient a DvFGLonely. | Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019-20) bod pobl heterorywiol yn llawer llai unig na phobl nad ydynt yn heterorywiol. Nid yw arolygon ers arolwg 2019-2020 wedi adrodd ar y canlyniadau gyda dadansoddiad LHDTC+ ar gyfer y cwestiwn hwn yn y Dangosydd Canlyniadau sydd ar gael yn gyhoeddus. | Data ar gael ond mae angen ei goladu/dadansodd i.<br>Mae data ar gael ond bydd angen dadansoddiad pellach i roi dadansoddiadau perthnasol. | Gweler yr Argymhellion ar Arolwg Cenedlaethol Cymru ar ddiwedd y tabl hwn. |
| **Thema F**: Cymunedau, bywyd preifat a bywyd teuluol | **Cefnogi bywydau teuluol pobl LHDTC+.** | *Mae pob aelod o'r teulu yn teimlo'n hyderus ynghylch sut i gefnogi aelodau o'u teulu LHDTC+, gan* | Amh. | Mae gan yr ymgyrch 'Magu Plant: Rhowch Amser iddo' dudalennau newydd sy'n darparu gwybodaeth i rieni plant LHDTC+ ac i rieni | Data ar gael ond mae angen ei goladu/dadansodd i.<br>Mae data'n debygol o fod ar | Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth ddadansoddol y wefan hon i |

| Thema | Cam Gweithredu Perthnasol | Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol | Dolen i'r ffynhonnell ddata | Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig | Asesiad data | Argymhelliad/ Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *gynnwys plant a phobl ifanc* | | LHDTC+. Caiff nifer yr ymweliadau â thudalennau eu monitro a gellid eu defnyddio mewn gwerthusiad. Dim ond os yw rhieni'n defnyddio adnodd Llywodraeth Cymru y mae'r ffynhonnell hon yn ei nodi – sy'n golygu y gallai fod angen cynnal ymchwil pwrpasol i werthuso a yw holl aelodau'r teulu'n hyderus i gefnogi aelodau o'r teulu LHDTC+. | gael i werthuswyr ond mae angen i Lywodraeth Cymru ei goladu. | werthuswyr. Er mwyn gwella'r data hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried gofyn i'r rhai sy'n ymweld â'r dudalen we am adborth ar eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| **Thema F**: Cymunedau, bywyd preifat a bywyd teuluol | **Darparu cefnogaeth i bobl LHDTC+ gymryd rhan mewn democratiaeth, gan gynnwys sefyll am swyddi etholedig.** | *Gwell cynrychiolaeth i bobl LHDTC+ mewn bywyd cyhoeddus* | Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol | Mae'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yn gofyn i ymgeiswyr roi adborth os ydynt yn ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol. | **Angen archwilio a gwaith pellach.** Disgwylir i ddata ar gyfer ymgeiswyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol fod ar gael yn hawdd i werthuswyr.<br><br>Er mwyn casglu data ar gyfer ymgeiswyr traws, byddai angen newid yr arolwg. | Mae hyder yn y ffigurau hyn yn dibynnu ar y gyfradd ymateb i'r arolwg a chwestiynau cyfeiriadedd rhywiol.<br><br>Gellid cryfhau'r arolwg pe bai'n gofyn a yw hunaniaeth rhywedd pobl yr un fath â'r rhyw |

| **Thema** | **Cam Gweithredu Perthnasol** | **Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol** | **Dolen i'r ffynhonnell ddata** | **Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig** | **Asesiad data** | **Argymhelliad/ Argymhellion** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | a ddisgrifiwyd adeg eu geni. |
| **Thema G:** Cymryd rhan ym mywyd Cymru: diwylliant a chwaraeon | **Gwella cynrychiolaeth, cynhwysiant a chyfranogiad pobl LHDTC+ mewn chwaraeon** | *Mae cymuned LHDTC+ yn cael ei chynrychioli a'i derbyn yn well yn y sectorau chwaraeon a diwylliant* | Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019-2020)<br><br>Newidynnau: DvSexOrient a DvVolSport. | Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019-20) bod pobl heterorywiol a'r rhai nad ydynt yn heterorywiol yr un mor debygol o fod wedi gwirfoddoli mewn chwaraeon yn ystod y 12 mis diwethaf. Nid yw arolygon ers arolwg 2019-2020 wedi adrodd ar y canlyniadau gyda dadansoddiad LHDTC+ ar gyfer y cwestiwn hwn. | **Data ar gael ond mae angen ei goladu/dadansodd i.**<br>Mae data'n debygol o fod ar gael i werthuswyr ond mae angen i Lywodraeth Cymru ei goladu. | Gweler yr Argymhellion ar Arolwg Cenedlaethol Cymru ar ddiwedd y tabl hwn. |
| **Thema G:** Cymryd rhan ym mywyd Cymru: diwylliant a chwaraeon | **Gwella cynrychiolaeth, cynhwysiant a chyfranogiad pobl LHDTC+ mewn chwaraeon** a **Gwella mynediad a chyfranogiad pobl drawsryweddol** | *Mae mwy o gyrff chwaraeon yng Nghymru yn mabwysiadu polisïau traws-gynhwysol a chaiff y rhain eu rhoi ar waith yn gyson ac ar bob lefel* | Polisïau Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon | Adolygu traws-gynhwysedd polisïau Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol. | **Angen archwilio a gwaith pellach.**<br>Mae'r data hwn yn annhebygol o fod ar gael yn rhwydd a bydd angen i Lywodraeth Cymru ofyn am y data a chynnal dadansoddiad. | Bydd casglu polisïau hŷn yn anodd ond mae eu hangen er mwyn cymharu. Dylai Llywodraeth Cymru gasglu llinell sylfaen o ganllawiau cyn gynted â phosibl, y gall gwerthuswyr eu |

| Thema | Cam Gweithredu Perthnasol | Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol | Dolen i’r ffynhonnell ddata | Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig | Asesiad data | Argymhelliad/ Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **mewn chwaraeon.** | | | | | defnyddio i fesur newidiadau. |
| **Thema G:** Cymryd rhan ym mywyd Cymru: diwylliant a chwaraeon | **Gwella cynrychiolaeth, cynhwysiant a chyfranogiad pobl LHDTC+ mewn chwaraeon** a **Gwella mynediad a chyfranogiad pobl drawsryweddol mewn chwaraeon.** | *Mae cymuned LHDTC+ yn cael ei chynrychioli a’i derbyn yn well yn y sectorau chwaraeon a diwylliant* | Chwaraeon Cymru: Traciwr Gweithgaredd au Cymru | Mae cyfres o arolygon, a gynhelir ar wahanol adegau o’r flwyddyn, yn rhoi cipolwg ar weithgarwch corfforol a chwaraeon, yn ogystal ag agwedd pobl Cymru tuag at ymarfer corff. | Angen archwilio a gwaith pellach Ansicr os gofynnir i ymatebwyr nodi eu hunaniaeth rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol. | Dylai Llywodraeth Cymru drafod cynnwys cwestiynau ynghylch cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd mewn fersiynau o’r arolygon yn y dyfodol. Dylai unrhyw arolygon hanesyddol gyda data sydd ar gael yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd fod ar gael i werthuswyr. |
| **Thema G:** Cymryd rhan ym mywyd Cymru: | **Dathlu a gwella cynrychiolaeth cymunedau** | *Cynrychiolir diwylliant a hanes LHDTC+ yn well* | Arolwg Sbotolau ar | Mae’r Arolwg Sbotolau Amgueddfeydd yn darparu data ynghylch canran yr | Disgwylir i ddata fod ar gael yn | Dim. |

| Thema | Cam Gweithredu Perthnasol | Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol | Dolen i'r ffynhonnell ddata | Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig | Asesiad data | Argymhelliad/ Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| diwylliant a chwaraeon | **LHDTC+ yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru** | *yn y sector diwylliannol* | Amgueddfeydd | amgueddfeydd sydd wedi rhaglennu gweithgareddau neu arddangosfeydd yn ymwneud â phob nodwedd warchodedig. | rhwydd i werthuswyr | |
| **Thema G:** Cymryd rhan ym mywyd Cymru: diwylliant a chwaraeon | **Dathlu a gwella cynrychiolaeth cymunedau LHDTC+ yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru** | *Mae'r rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau diwylliannol yn ymgysylltu ac yn ymwybodol o ddigwyddiadau a gweithgareddau LHDTC+ ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ac mae diwylliant a hanes LHDTC+ yn cael eu cynrychioli'n well yn y sector diwylliannol* | Data monitro ac adroddiadau – sefydliadau diwylliant a chwaraeon a ariennir gan y Llywodraeth | Awgrymodd y cyfweleion y dylai data monitro manwl gan sefydliadau diwylliannol a ariennir gan Lywodraeth Cymru (Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a Chwaraeon Cymru) fod ar gael i werthuswyr y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Gallai hyn gynnwys nifer yr eitemau LHDTC+ a arddangoswyd, arddangosfeydd a digwyddiadau. Gall hefyd gynnwys data ar nifer y bobl sy'n ymweld ag arddangosfeydd a digwyddiadau LHDTC+. | Data ar gael ond mae angen ei goladu/dadansoddi. Mae data'n debygol o fod ar gael i werthuswyr ond mae angen i Lywodraeth Cymru ei goladu. | Dylai Llywodraeth Cymru a/neu'r gwerthuswyr ofyn am y data monitro hwn i lywio'r gwerthusiad. |

| Thema | Cam Gweithredu Perthnasol | Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol | Dolen i'r ffynhonnell ddata | Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig | Asesiad data | Argymhelliad/ Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Yn ogystal, efallai y bydd dadansoddiadau LHDTC+ ar gael ar gais gan dîm Arolwg Cenedlaethol Cymru. | | |
| **Thema H:** Gweithleoedd cynhwysol | **Darparu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n cynnwys anghenion pobl LHDTC+ i bob sefydliad sector cyhoeddus** ac **Annog cyflogwyr y sector preifat i fod yn LHDTC+ gynhwysol** | *Gostyngiad yn y lefelau o wahaniaethu LHDTC+ a adroddir mewn gweithleoedd yng Nghymru* | Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019-2020)<br><br>Newidynnau: DvSexOrient WorkBul a WorkDisc. | Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019-20) bod pobl nad ydynt yn heterorywiol yn llawer mwy tebygol o brofi gwahaniaethu a bwlio yn y gwaith na'u cyfoedion heterorywiol. Nid yw arolygon ers arolwg 2019-2020 wedi adrodd ar y canlyniadau gyda dadansoddiad LHDTC+ ar gyfer y cwestiwn hwn. | **Data ar gael ond mae angen ei goladu/dadansoddi.**<br>Mae data ar gael ond bydd angen dadansoddiad pellach i roi dadansoddiadau perthnasol | Gweler yr Argymhellion ar Arolwg Cenedlaethol Cymru ar ddiwedd y tabl hwn. |
| | | | | * **Argymhellion i Arolwg Cenedlaethol Cymru:** Tra bod Arolwg Cenedlaethol Cymru yn gofyn i unigolion am eu cyfeiriadedd rhywiol, nodir nad yw'r data hwn yn cael ei adrodd yn yr adroddiadau canlyniadau sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae gwerthuswyr yngallu gwneud cais am ddadansoddiadau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd drwy 'Ddangosydd Canlyniadau' yr arolwg, gyda tîm Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dylent fod yn ymwybodol o risg meintiau sampl isel wrth ddefnyddio'r data hwn.<br><br>Yn arolwg 2019-2020, defnyddiwyd categorïau "heterorywiol" a "heb fod yn heterorywiol" i ddadansoddi data ond nid oedd yn | | |

| Thema | Cam Gweithredu Perthnasol | Canlyniad neu allbwn cyfryngol mwyaf perthnasol | Dolen i'r ffynhonnell ddata | Disgrifiad o'r ffynhonnell ddata arfaethedig | Asesiad data | Argymhelliad/ Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cynnwys dadansoddiadau pellach.. Argymhellir, lle mae hyn yn bosibl, bod data presennol yn cael ei ddadansoddi ymhellach i ddarparu dadansoddiadau i grwpiau LHDTC+, yn ddelfrydol ar gyfer pob fersiwn arolwg blaenorol er mwyn nodi unrhyw dueddiadau hanesyddol. Fodd bynnag, cydnabyddir mae diffyg adrodd yn erbyn grwpiau LHDTC+ fod o ganlyniad i feintiau sampl isel. Argymhellir felli bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gorsamplu grwpiau LHDTC+ drwy strategaethau recriwtio wedi'u targedu, er mwyn gwella cynrychiolaeth yn y maes hwn mewn arolygon yn y dyfodol. | | |

**Crynodeb o asesiad o ffynonellau data**

3.23 I grynhoi, mae argaeledd tystiolaeth feintiol y gellir ei defnyddio'n hyderus i fesur effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn gyfyngedig. Nid yw ffynonellau sy'n gallu mesur p'un a yw gweledigaeth gyffredinol Cynllun Gweithredu LHDTC+ 'i wneud Cymru'r genedl fwyaf cyfeillgar i LHDTC+ yn Ewrop' wedi'i chyflawni ar gael yn rhwydd.

3.24 Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaeth ag ILGA-Ewrop yn gofyn am i Gymru gael ei chydnabod ar Fap Enfys ILGA-Ewrop (2024), sy'n rhoi sgôr i wledydd o ran pa mor gyfeillgar i LHDTC+ ydynt. Ar hyn o bryd, nid yw Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Map Enfys ac nid yw o fewn pŵer uniongyrchol Llywodraeth Cymru i newid hyn. Amlygodd llawer o randdeiliaid nad yw ffocws y weledigaeth hon ar berfformiad Cymru o gymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill yn canolbwyntio ar brofiad Cymru. Mewn achosion eithafol, hyd yn oed os nad yw cyfeillgarwch tuag at bobl LHDTC+ yn newid yng Nghymru ond yn lleihau ar draws gweddill Ewrop – gallai'r cynllun "lwyddo" heb i fywydau LHDTC+ wella yng Nghymru. Dylid diwygio'r weledigaeth hon i fod yn un GAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) os yw am gael ei defnyddio i fesur llwyddiant mewn asesiad effaith. Dylai llunwyr polisi benderfynu ar weledigaeth GAMPUS drosfwaol mewn ymgynghoriad eang â'r gymuned LHDTC+. Un enghraifft o weledigaeth allweddol yw bod y gyfran o boblogaeth LHDTC+ Cymru sy'n adrodd am unigrwydd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn gostwng i'r un lefel â phobl nad ydynt yn LHDTC+ erbyn blwyddyn benodol.

3.25 Nid yw data sy'n cofnodi profiadau ac agweddau bywyd pobl LHDTC+ yng Nghymru dros amser yn cael ei gasglu'n systematig mewn digon o fanylder i'w ddefnyddio i werthuso llwyddiant y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Fel y gwelir yn y Banc Data, dim ond dadansoddiadau o'r gymuned LHDTC+ fel grŵp homogenaidd a ddarperir gan Arolwg Cenedlaethol Cymru – a hyd yn oed bryd hynny, dim ond unigrwydd, cyfranogiad chwaraeon, a gwahaniaethu yn y gweithle a geir yn y dadansoddiadau. Fodd bynnag, efallai y bydd mwy o ddata ar gael ar adeg y gwerthusiad, neu drwy wneud cais i weinyddwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fel y trafodwyd yn ystod y cyfweliadau â rhanddeiliaid, mae gwella profiadau bywyd pawb sy'n LHDTC+, gan gynnwys pobl â hunaniaethau croestoriadol, yn hanfodol i amcanion Cynllun Gweithredu LHDTC+, a dylai ei bwyslais ar groestoriadedd fod yn elfen graidd o unrhyw werthusiad yn y dyfodol. Ymhellach, mae hyd yn oed llai o ddata meintiol ar gael a all adlewyrchu profiadau pobl LHDTC+ sydd â

nodweddion gwarchodedig ychwanegol, megis ffoaduriaid LHDTC+, pobl anabl LHDTC+, a phobl dduon LHDTC+. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn yr asesiad gwerthusadwyedd.

3.26 Mae rhai dangosyddion meintiol yn bodoli a all ddangos tystiolaeth o themâu penodol yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+, er bod angen gwella llawer o'r setiau data hyn cyn y gellir eu defnyddio i werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'i weithrediad. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dadansoddiadau LHDTC+ perthnasol ar gael a'u bod yn rhoi cyfrif am groestoriadedd, gan wella'r ffordd y mae'r data ar gael yn rhwydd. Mewn rhai achosion, ceir data sy'n ymwneud â boddhad a chwynion am brofiadau pobl LHDTC+ sy'n rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus, megis ar gyfer Themâu B, C, D ac E. Fodd bynnag, nid yw data o'r fath ar gael yn rhwydd ar hyn o bryd i swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y Cynllun Gweithredu LHDTC+, a bydd angen gweithredu pellach i goladu'r data.

3.27 Yn olaf, fel y nododd rhai rhanddeiliaid, dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio data meintiol o ystyried bod rhanddeiliaid o'r farn bod metrigau o'r fath yn debygol o orsymleiddio cymhlethdodau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a chroestoriadedd.

3.28 O ystyried y materion hyn, bydd y defnydd o ddata meintiol mewn gwerthusiadau yn y dyfodol yn gyfyngedig hyd yn oed pe bai'r broses o gasglu data yn well, fel yr amlinellir yn y Banc Data. Lle defnyddir data meintiol, dylid ei ddefnyddio'n ofalus i sicrhau nad yw'n gorsymleiddio profiadau amrywiol a chroestoriadol pobl LHDTC+.

**Goblygiadau ar gyfer gwerthuso'r broses**

3.29 Mae gwerthusiad proses yn ceisio gwerthuso sut a pham y mae gweithredu rhaglen neu ymyriad yn gweithio neu ddim yn gweithio. Gellir defnyddio hwn i wella ymhellach sut y caiff y rhaglen ei chyflwyno a'r effaith y gall ei chael yn y pen draw. Gallai gwerthusiad proses y Cynllun Gweithredu LHDTC+ gwmpasu'r meysydd canlynol, ond dylai'r cwestiynau ymchwil penodol adlewyrchu'r rhai y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cael fwyaf defnyddiol ar adeg y gwerthusiad:

- **Cyflenwi'r rhaglen**: i ba raddau y cafodd Cynllun Gweithredu LHDTC+ ei roi ar waith fel y bwriadwyd, ac i ba raddau y mae gan randdeiliaid perthnasol y wybodaeth a'r adnoddau angenrheidiol i wneud hynny. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y graddau y mae perchnogion camau gweithredu yn deall y

Cynllun Gweithredu LHDTC+ ac i ba raddau y maent wedi cwblhau eu gweithredoedd. Gall hyn hefyd gynnwys deall i ba raddau y gall perchnogion camau gweithredu wneud hynny, o safbwynt pwerau deddfwriaethol datganoledig ac argaeledd adnoddau.

- **Cynulleidfa**: i ba raddau y mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cyrraedd ei gynulleidfaoedd arfaethedig a sut y gallai fod angen gwella hyn. Gallai gwerthusiad proses ystyried i ba raddau y mae pobl LHDTC+ – gan gynnwys y rhai â hunaniaethau croestoriadol – yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli gan y Cynllun Gweithredu LHDTC+, sut maent yn cael eu cynnwys yn ei waith, a sut maent yn credu ei fod yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Un canfyddiad hanfodol fyddai mwy o wybodaeth ar sut i gryfhau cynrychiolaeth y gymuned LHDTC+ ymhellach wrth lunio polisïau a gwerthuso LHDTC+ yn y dyfodol.
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**: i ba raddau yr oedd rhanddeiliaid wedi gallu ymgysylltu â'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ i roi adborth a mewnbwn. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i fireinio ymyriadau tebyg wrth symud ymlaen. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth feddwl am bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu a chefnogi'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Dylai hyn gynnwys addasrwydd y strwythurau a'r prosesau presennol sydd ar waith i adlewyrchu barn ac awgrymiadau rhanddeiliaid am y Cynllun Gweithredu LHDTC+.
- **Data a monitro**: p'un a oes digon o gasglu data i fonitro'r cynnydd sy'n gysylltiedig â gweithredu, yn ogystal ag allbynnau a chanlyniadau allweddol a all gefnogi gwerthusiad effaith. Bydd hyn yn cynnwys prosesau presennol i fonitro cwblhau'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+, yn ogystal â strwythurau i gasglu, coladu a dysgu o ddata a allai lywio'r gwerthusiad effaith ac unrhyw welliannau i Gynllun Gweithredu LHDTC+ wrth symud ymlaen.
- **Dysgu gwersi**: i ba raddau y ceir proses ar gyfer dysgu gwersi o weithredu'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Un o ganlyniadau pwysig y gwerthusiad proses fyddai argymhellion ar sut y gellir gwella gweithrediad ac effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu LHDTC+.

3.30 Mae gwerthusiadau proses fel arfer yn ddulliau cymysg, sy'n defnyddio data meintiol i fesur cynnydd gweithredu a chasglu gwybodaeth ansoddol o waith maes

i ddeall barn perchnogion camau gweithredu a rhanddeiliaid ar sut y gellir gwella'r gweithredu a pha wersi y gellir eu dysgu. O ystyried bod gweithredu'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn ymwneud â p'un a yw camau gweithredu wedi'u cwblhau ai peidio, argymhellir mai hwn fydd y prif fetrig ar gyfer mesur cyflenwi'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Gellir defnyddio gwaith maes i bennu unrhyw heriau, rhwystrau neu wersi posibl a allai helpu i wella'r broses o gwblhau'r camau gweithredu wrth symud ymlaen. Dylid cynnal cyfweliadau â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid nad ydynt yn rhai Llywodraeth Cymru – gan gynnwys Gwasanaeth Rhywedd Cymru, byrddau iechyd, WHHSC, Estyn, Unique Transgender Network, Stonewall, undebau llafur, ac awdurdodau lleol – i werthuso prosesau a strwythurau presennol sy'n ymwneud ag ymgysylltu rhanddeiliaid a gwneud penderfyniadau.

3.31 Rhoddir amlinelliad o'r dull o werthuso'r broses, gan gynnwys cwestiynau ymchwil ac amseriadau, yn adran 4.

**Asesu'r opsiynau ar gyfer gwerthuso effaith**

3.32 Mae'r adran hon yn trafod yr asesiad o opsiynau gwerthuso effaith a ddefnyddiwyd i bennu'r dull gwerthuso a ffefrir, gan ddefnyddio'r canfyddiadau a gafwyd o weithgareddau ymchwil.

**Rhestr hir o opsiynau gwerthuso**

3.33 Daw'r rhestr hir o opsiynau o'r Llyfr Magenta, yn unol ag arfer gorau. Mae'r rhestr hir yn nodi tri chategori bras o opsiynau gwerthuso – technegau arbrofol, technegau lled-arbrofol, a dulliau seiliedig ar theori (ansoddol). Mae'r categorïau hyn yn helpu i osgoi datganiadau ailadroddus am dechnegau penodol. Yn y rhestr fer, gwneir asesiadau manylach o ddulliau gwerthuso penodol.

3.34 Mae'r tri grŵp gwerthuso ar y rhestr hir fel a ganlyn.

- Technegau arbrofol. Mae'r rhain yn ddyluniadau sy'n cynnwys neilltuo cyfranogwyr ar hap i grwpiau triniaeth a rheoli i asesu effaith achosol ymyriad neu driniaeth, megis hap-dreialon rheoli (RCTs). Ystyrir bod dyluniadau arbrofol yn safon aur ar gyfer sefydlu perthnasoedd achosol oherwydd bod aseiniad ar hap yn helpu i reoli newidynnau dryslyd posibl.

- Technegau lled-arbrofol. Mae technegau lled-arbrofol yn bennaf yn dechnegau meintiol sy'n ceisio amcangyfrif effaith achosol ymyriad neu driniaeth pan nad yw hap-dreial rheoledig (RCT) yn ymarferol nac yn foesegol. Er nad ydynt mor drylwyr â chynlluniau arbrofol gwirioneddol, mae dulliau lled-arbrofol yn ceisio rheoli newidynnau dryslyd a brasamcanu amodau arbrawf i ddod i gasgliadau achosol.
- Dulliau seiliedig ar theori (ansoddol). Mae'r dulliau hyn yn tueddu i ddefnyddio mewnwelediadau ansoddol a dulliau cymysg i ddeall pam a sut mae ymyriad wedi gweithio. Fe'i defnyddir yn nodweddiadol yn absenoldeb digon o dystiolaeth feintiol i gynnal dulliau lled-arbrofol neu arbrofol. Mae dulliau seiliedig ar theori yn ddefnyddiol i ddeall arlliwiau a phrofiadau gwahanol grwpiau o bobl yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, yn gyffredinol ni allant bennu achosiaeth oherwydd absenoldeb haprwydd, ac maent yn dibynnu ar ddatblygu damcaniaethau a thybiaethau ar sut mae canlyniadau'n deillio o'r ymyriad, nad yw bob amser gyda thystiolaeth dda nac yn fesuradwy.

### Asesiad o'r rhestr hir

3.35 Mae'r rhestr isod yn manylu ar y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu addasrwydd opsiynau gwerthuso i'r asesiad gwerthuso hwn. Cynhyrchwyd y set hon o feini prawf ar ddimensiynau allweddol a ystyriwyd yn bwysig ar gyfer y dewis o werthusiad, yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid a chytundeb Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y set hon o feini prawf ar gyfer yr asesiad o'r rhestr hir ac asesiad o'r rhestr fer.

### Cadernid

3.36 Yma, ystyrir i ba raddau y gellir meintioli effeithiau a'u priodoli'n achosol i'r rhaglen. Gall dyluniad y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ei hun gyfyngu ar yr hyn y gellir ei gyflawni (e.e. absenoldeb datganiad gwrthffeithiol). Mae'n debygol y bydd cyfaddawd rhwng cadernid, gofynion adnoddau a'r angen i ddeall cymhlethdodau effeithiau rhaglenni.

### Cwmpas yr effeithiau a'r grwpiau a gasglwyd

3.37 Bydd methodoleg werthuso yn fwy manteisiol os yw'n mesur yr ystod lawn o effeithiau a gynhyrchir gan raglen, gan gynnwys grwpiau poblogaeth penodol sydd o ddiddordeb. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd rhai methodolegau ond yn addas ar gyfer casglu rhai effeithiau yn unig, mewn mwy/llai o fanylder, yn dibynnu ar natur y rhaglen dan sylw.

Roedd y cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau allanol yn pwysleisio pwysigrwydd casglu profiadau byw pobl LHDTC+ yn y gwerthusiad. Ymhellach, ystyriwyd bod dal croestoriad o brofiadau LHDTC+ yn ffactor hollbwysig yn y dewis o werthusiad, sydd â goblygiadau o ran y dewis o fath o wybodaeth a gesglir a sut y penderfynir ar effaith a llwyddiant.

Bydd angen i unrhyw ddull gwerthuso a ddewisir sicrhau bod profiadau croestoriadol yn cael eu cynrychioli, a allai fod yn fwy dichonadwy neu'n llai dichonadwy i rai methodolegau.

**Argaeledd data**

3.38 Bydd gwahanol fethodolegau yn gosod gofynion gwahanol ar ddata, o ran yr hyn sydd eisoes wedi'i gasglu a'r hyn efallai y bydd angen ei gasglu fel rhan o werthusiad yn y dyfodol. Bydd angen cydbwyso'r gofynion hyn gyda'r hyn sydd ar gael ac yn ymarferol mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

Byddai'r pwyslais ar gasglu profiadau byw pobl LHDTC+ a chynrychioli croestoriadedd yn awgrymu mwy o ffocws ar waith maes ansoddol.

**Gofyniad o ran adnoddau**

3.39 Mae hwn yn ystyried dichonoldeb gwahanol ddulliau gwerthuso yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Dylai adnoddau ymrwymedig fod yn gymesur â graddfa'r ymyriad. Bydd hyn yn cael ei benderfynu gan Lywodraeth Cymru.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

3.40 Bydd y maen prawf hwn yn asesu i ba raddau y mae ymgysylltiad a mynediad at randdeiliaid yn debygol o fod yn gyfiawn ac yn ymarferol, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o Gynllun Gweithredu LHDTC+ a blaenoriaethau. Pwysleisiodd rhanddeiliaid pa mor bwysig oedd hi bod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn

ystyried amrywiol safbwyntiau a phrofiadau pobl LHDTC+, a rhoi cyfrif am groestoriadedd, sy'n awgrymu dull hynod gynhwysol a chyfranogol.

### Ystyriaethau moesegol

3.41 Gall cynnwys grwpiau sydd o bosibl yn agored i niwed achosi pryderon moesegol, y dylid eu hystyried wrth ddylunio'r gwerthusiad. Er enghraifft, awgrymodd y cyfweleion ffocws ar ddeall canfyddiadau a phrofiadau croestoriadol pobl LHDTC+, a allai gynnwys trafod pynciau sensitif a fyddai'n gofyn am fesurau diogelu priodol i liniaru niwed i'r cyfwelydd a'r cyfwelai.

3.42 Aseswyd y tri grŵp gwerthuso trwy ddefnyddio'r meini prawf asesu uchod, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r cyfweliadau, yr adolygiad llenyddiaeth a'r ymarfer cwmpasu. Mae dulliau arbrofol a lled-arbrofol yn cael eu diystyru fel opsiynau addas, tra bod dulliau seiliedig ar theori yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer asesiad pellach ar y cam llunio rhestr fer oherwydd:

- Mae pwyslais clir ar ddeall profiadau byw a safbwyntiau pobl LHDTC+, na ellir eu dal trwy ddulliau arbrofol a lled-arbrofol.
- Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn gymhleth iawn. Ni fyddai dulliau meintiol yn unig yn gallu archwilio cymhlethdodau a naws yr effeithiau'n ystyrlon. Mae dulliau sy'n seiliedig ar theori yn caniatáu digon o hyblygrwydd i ystyried cymhlethdodau o'r fath a newidiadau posibl i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ wrth symud ymlaen.
- Mae diffyg data ar gael a fyddai'n caniatáu i ddulliau meintiol pur gael eu defnyddio, heb greu risg o orsymleiddio cymhlethdodau a phrofiadau amrywiol pobl LHDTC+. Mae dulliau sy'n seiliedig ar theori yn hyblyg yn eu defnydd o ddata meintiol ac felly byddent yn fwy priodol.

3.43 Mae sail resymegol bellach ar gyfer yr asesiad fel a ganlyn: Mae dulliau lled-arbrofol yn debyg i ddulliau arbrofol ac yn defnyddio data meintiol i ganfod effaith ymyriad trwy sefydlu grwpiau rheoli artiffisial a/neu greu sefyllfa wrthffeithiol. Ni fyddai creu grŵp rheoli artiffisial neu wrthffeithiol addas yn ymarferol ar gyfer gwerthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ ac ni fyddai defnyddio mesurau meintiol yn unig yn dal profiadau amrywiol a chroestoriadol pobl LHDTC+. Fodd bynnag, mae dulliau sy'n seiliedig ar theori yn defnyddio dulliau meintiol ac ansoddol ('dulliau cymysg'). Oherwydd natur gymhleth Cynllun Gweithredu LHDTC+, nad yw

bob amser yn rhagnodol, argymhellir y dylai gwerthusiad o’r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn y dyfodol ganolbwyntio ar ddulliau sy’n seiliedig ar theori.

**Y rhestr fer o opsiynau ar gyfer y gwerthusiad effaith**

3.44 Yn dilyn yr asesiad rhestr hir, symudwyd detholiad o ddulliau gwerthuso sy’n seiliedig ar theori ymlaen i'r cam llunio rhestr fer ar gyfer asesiad pellach. Y dulliau seiliedig ar theori yn y Llyfr Magenta yw gwerthuso realaidd, olrhain prosesau, dadansoddi cyfraniadau, cynaeafu canlyniadau, y newid mwyaf arwyddocaol, Dadansoddiad Cymharol Ansoddol, olrhain cyfraniadau, a diweddaru Bayesaidd.

3.45 Y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad rhestr fer yw gwerthusiad realaidd, olrhain prosesau, dadansoddi cyfraniadau, cynaeafu canlyniadau, a'r newid mwyaf arwyddocaol.

3.46 Fel y nodwyd uchod, mae'r dulliau gwerthuso canlynol ar sail theori i'w symud ymlaen i'r cam llunio rhestr fer ar gyfer asesiad pellach. Cymerwyd y dulliau hyn sy'n seiliedig ar theori o'r Llyfr Magenta ac fe'u disgrifir yn Atodiad C.

3.47 Nid yw pob dull sy'n seiliedig ar theori yn y Llyfr Magenta yn addas ar gyfer gwerthusiad o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Mae’r dulliau hyn yn tueddu i ddibynnu’n ormodol ar dystiolaeth feintiol ar gyfer y data sydd ar gael i'r prosiect hwn, neu maent yn gofyn am lefelau anaddas o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Darperir disgrifiadau byr o’r dulliau hyn a’u diffyg addasrwydd i’r gwerthusiad hwn yn Atodiad C:

**Asesiad rhestr fer o opsiynau gwerthuso effaith**

Mae’r adran hon yn crynhoi’r asesiad o’r rhestr fer a gyflwynwyd yn yr is-adran flaenorol, gan ddefnyddio’r un meini prawf a ddefnyddiwyd yn y cam asesu rhestr hir. Prif allbwn yr asesiad o’r rhestr fer yw'r opsiwn gwerthuso a argymhellir.

**Olrhain prosesau**

3.48 Mae olrhain prosesau yn darparu asesiad manwl o'r mecanweithiau achosol a ddiffinnir yn y Theori Newid i brofi achosiaeth. Gellir defnyddio'r canlyniadau i ddeall pam bod rhywbeth wedi gweithio ar lefel gronynnog neu beidio. Am y rheswm hwn, gall fod yn ddefnyddiol deall achosiaeth ac effaith yn fanwl, yn ogystal â deall heriau gweithredol posibl ymyriad a all gefnogi gwerthusiad y broses. Fodd bynnag, mae olrhain prosesau yn gofyn am lawer iawn o gyfweliadau manwl i ddilysu’n ansoddol bob cysylltiad yn y Theori Newid. Byddai

defnyddio'r dull hwn ar gyfer y Cynllun Gweithredu LHDTC+ felly yn gofyn am lawer iawn o adnoddau ac yn debygol o fod yn anymarferol. Mae olrhain prosesau yn gofyn am lefel dda o ymgysylltu gan randdeiliaid sydd â gwybodaeth fanwl am effeithiau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Er bod y gwaith maes wedi dangos ymgysylltiad da ar y cyfan gan randdeiliaid, mae hyn yn gosod dibyniaethau ychwanegol ar ddealltwriaeth y rhanddeiliaid o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'u parodrwydd i ymgysylltu, na ellir ei warantu bob amser. Am y rhesymau hyn, mae olrhain prosesau yn cael ei ddiystyru fel opsiwn i werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, ond gallai fod yn arf defnyddiol ar gyfer gwerthuso prosiectau neu ymyriadau unigol.

**Dadansoddi cyfraniadau**

3.49 Bydd dadansoddi cyfraniadau yn rhoi asesiad manwl o fecanweithiau achosol fel y'u diffinnir yn y Theori Newid a bydd yn diystyru esboniadau sy'n ymddangos yn llai credadwy. Mae hefyd yn annog y defnydd o ddulliau cymysg a data meintiol, lle mae'r rhain ar gael, i asesu cyfraniad mecanweithiau achosol tuag at egluro unrhyw ganlyniadau meintiol a arsylwyd. Fodd bynnag, fel olrhain prosesau, mae'r dull hwn yn debygol o fod yn ddwys iawn o ran adnoddau ac nid yw'n ymarferol ar gyfer rhaglen ar raddfa'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. O ystyried y bydd dadansoddi cyfraniadau hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar fesur canlyniadau meintiol a diystyru canlyniadau 'llai credadwy', gallai hyn arwain at orsymleiddio cymhlethdodau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r effaith ar gymunedau ymylol. Am y rhesymau hyn, daethpwyd i'r casgliad na fyddai dadansoddi cyfraniadau yn briodol ar gyfer gwerthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

**Gwerthusiad realaidd**

3.50 Mae gwerthusiadau realaidd yn ddelfrydol ar gyfer gwerthuso ymyriadau cymhleth a gallent fod yn ddefnyddiol i ddeall pam bod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn gwella canlyniadau i rai grwpiau ac nid eraill, ac ym mha gyd-destunau. Nid yw ychwaith yn rhagnodi math penodol o dystiolaeth i'w chasglu, gan ei gwneud yn addas ar gyfer y Cynllun Gweithredu LHDTC+ sy'n debygol o ddibynnu ar ddata dulliau cymysg. Gall dull gwerthuso realaidd ofyn am adnoddau dwys ac ymgysylltiad gan randdeiliaid i ddeall ac asesu'r rhyngweithio rhwng actorion, ymyriadau a chyd-destunau, ond gellid lleihau'r gofynion hyn o ran adnoddau drwy fabwysiadu dull o weithredu ar egwyddorion gwerthuso realaidd ynghyd ag ymagwedd dulliau cymysg. Ymhellach, bydd gwerthusiadau realaidd yn ceisio deall pam bod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cael effaith mewn rhai cyd-

destunau ac nid eraill, gan eu gwneud yn ddelfrydol i ddal effeithiau gwahanol ar draws amrywiaeth profiadau LHDTC+ yng Nghymru, gan gynnwys profiadau croestoriadol.

**Cynaeafu canlyniadau**

3.51 Gall cynaeafu canlyniadau fod yn ddefnyddiol i ganolbwyntio ar ddeall pam bod canlyniadau ac effeithiau a arsylwyd wedi codi, ac nid yw o reidrwydd yn dibynnu ar argaeledd gwybodaeth feintiol. Gall hefyd nodi canlyniadau na chafodd eu rhagweld yn y Theori Newid. Fodd bynnag, mae angen llawer iawn o ymgysylltu ac arbenigedd gan y rhanddeiliaid a fu'n rhan o greu'r canlyniadau, i nodi'r canlyniadau a arsylwyd ac egluro sut a pham y cawsant eu cynhyrchu. Mae hyn yn gwneud cynaeafu canlyniadau yn hynod gyfranogol, ac ni ellir gwarantu'r lefel ofynnol bob amser. Mae risg hefyd na fydd ffocws ar ddeilliannau a arsylwyd y mae rhanddeiliaid yn adrodd arnynt yn amlygu profiadau croestoriadol a manylion allweddol eraill sy'n hanfodol ar gyfer gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

**Y newid mwyaf arwyddocaol**

3.52 Bydd y dull hwn yn helpu i nodi sut mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ wedi cael yr effaith fwyaf, a allai fod yn ddefnyddiol i ddisgrifio'r effeithiau i randdeiliaid allanol. Fodd bynnag, o ystyried ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i randdeiliaid gytuno ar ba adroddiadau o newid yw'r rhai pwysicaf, gallai arwain at orsymleiddio effeithiau ac ni fydd yn adlewyrchu profiadau croestoriadol. Mae perygl hefyd y bydd yn cael ei effeithio gan grwpiau lleisiol a chan duedd, a all ddylanwadu ar y canlyniadau. Mae'n gyfranogol iawn ac yn defnyddio llawer o adnoddau, gan ei fod yn gofyn am ymgysylltiad ailadroddol gan randdeiliaid i benderfynu pa rai sydd fwyaf arwyddocaol – ni ellir gwarantu'r lefel hon o ymgysylltu bob amser. Yn olaf, prif ffocws y newid mwyaf arwyddocaol yw penderfynu pa newid yw'r mwyaf arwyddocaol, ond nid yw o reidrwydd yn ceisio deall sut a pham y mae'r newidiadau hyn yn digwydd. Nid oes rôl glir ychwaith ar gyfer deall profiadau byw, croestoriadol pobl LHDTC+. Am y rhesymau hyn, daethpwyd i'r casgliad nad yw'r dull hwn yn briodol ar gyfer gwerthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

3.53 Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad llunio rhestr fer a'r opsiwn gwerthuso a argymhellir i Lywodraeth Cymru i gael adborth ac adolygiad.

**Y dull a argymhellir ar gyfer y gwerthusiad effaith**

3.54 Argymhellir bod gwerthusiad effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn defnyddio gwerthusiad realaidd dulliau cymysg. Dylid cymhwyso egwyddorion dull gwerthuso realaidd yn hyblyg i liniaru anfanteision posibl dull realaidd pur (trafodir hyn ymhellach ymlaen).

3.55 Mae gwerthusiad realaidd yn ddefnyddiol ar gyfer deall 'beth sy'n gweithio o dan ba amgylchiadau ac i bwy,' gan ei wneud yn ddefnyddiol i werthuso effaith a phroses, yn ogystal â chasglu effeithiau croestoriadol. Nid yw ychwaith yn or-ddibynnol ar ymgysylltu ailadroddol â rhanddeiliaid nac ar ddata meintiol, gan ei wneud yn ddull mwy hyblyg na’r dulliau eraill sy’n seiliedig ar theori.

3.56 Gellir graddio’r dull yn gymharol hawdd i weddu i’r lefel o wybodaeth sydd ei hangen a’r adnoddau sydd ar gael, tra’n dal i gynhyrchu rhai canlyniadau defnyddiol. Mae hyn yn groes i fethodolegau eraill, megis cynaeafu canlyniadau a’r newid mwyaf arwyddocaol, na fyddant yn cynhyrchu unrhyw ganlyniadau defnyddiol hyd nes y bydd y broses gyfan wedi’i chwblhau, gan wneud gofynion adnoddau dulliau o’r fath yn fwy ansicr ac yn anos i osod cyfyngiad arnynt.

3.57 Fodd bynnag, mae nifer o gyfyngiadau gyda'r dull realaidd sy'n awgrymu bod angen agwedd hyblyg yn yr achos hwn. Bydd dull gwerthuso realaidd pur yn ei gwneud yn ofynnol i randdeiliaid nodi, datblygu a phrofi rhestr o ddamcaniaethau cyd-destun-mecanweithiau-canlyniadau (CMO), sydd yn eu hanfod yn rhestru damcaniaethau ynghylch pam a sut y disgwylir i’r ymyriadau weithio i rai pobl ac nid i eraill, a pha newidiadau mewn canlyniadau a ddisgwylir os yw'r ymyriad yn gweithio. Gall y broses hon fod yn ddwys o ran adnoddau ac yn anodd i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, sy'n arbennig o gymhleth ac yn cynnwys llawer o bolisïau ac ymyriadau. Mae hefyd yn rhoi dibyniaeth arbennig ar ddealltwriaeth rhanddeiliaid o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, na ellir ei warantu bob amser. I gydnabod y cyfyngiadau hyn, dylid mabwysiadu cwestiynau allweddol dull realaidd yn y gwaith maes, ond gallai rhestru ac asesu’r CMOs ddefnyddio’r Theori Newid yn Adran 3, gan ofyn i randdeiliaid ystyried tystiolaeth sy’n esbonio, yn cefnogi, neu'n gwrth-ddweud y mecanweithiau achosol a'r canlyniadau sydd ynddo.

**Goblygiadau ar gyfer gwerthusiad economaidd**

3.58 Mae gwerthusiad economaidd yn ceisio pennu p'un a yw rhaglen neu ymyriad yn sicrhau ‘gwerth am arian’ i’r trethdalwr. Mewn geiriau eraill, bydd hyn yn ystyried a yw’r arian cyhoeddus a fuddsoddir yn y rhaglen neu’r ymyriad yn cael ei orbwyso gan y buddion y mae’n eu rhoi i gymdeithas.

3.59 Yn ymarferol, mae asesu gwerth am arian yn golygu cymharu costau’r rhaglen â buddion y rhaglen sy’n cael eu meintioli ac y gosodir gwerth ariannol arnynt, drwy broses a elwir yn ddadansoddiad cost a budd. Mae enghreifftiau o fuddion sy'n nodweddiadol yn cael eu meintioli ac y gosodir gwerth ariannol arnynt yn cynnwys arbedion cost ac effeithlonrwydd i'r sector cyhoeddus o ymyriadau sy'n lleihau'r defnydd o wasanaethau; manteision iechyd a llesiant cysylltiedig i unigolion; buddion cynhyrchiant economaidd (fel gwerth ychwanegol crynswth); a buddion cyflogaeth o ran enillion uwch. Ystyrir bod rhaglen lle mae cyfanswm y buddion meintiol yn gorbwyso’r costau wedi cyflawni ‘gwerth am arian’.

3.60 Fodd bynnag, er mwyn gallu arfarnu costau a buddion yn y modd hwn ar gyfer gwerthusiad economaidd, mae angen cael data ar ganlyniadau sy’n hawdd eu mesur ac i osod gwerth ariannol arnynt. Mewn llawer o achosion, efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl nac yn ymarferol, ac os felly ni fydd y gwerthusiad economaidd yn bosibl.

3.61 Yng ngoleuni canfyddiadau mai dulliau gwerthuso ansoddol a theori sydd fwyaf addas i werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, nid yw arfarniad gwerth am arian yn ymarferol nac yn addas o dan yr amgylchiadau presennol. Mae hyn yn seiliedig ar y rhesymeg ganlynol:

**Posibilrwydd damcaniaethol**

3.62 Dylid ystyried gwerthusiad gwerth am arian os oes sail resymegol ddamcaniaethol i gredu y bydd rhaglen yn cynhyrchu canlyniadau ac effeithiau sy’n debygol o fod yn fesuradwy o ran gwerth ariannol. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu nodi mewn Theori Newid a/neu fodelau rhesymeg yn seiliedig ar y colofnau canlyniadau.

3.63 Mae'n amlwg nad yw llawer o'r Canlyniadau a'r Effeithiau yn y Theori Newid ar gyfer y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn fesuradwy. Er enghraifft, mae llawer yn ymwneud â gwella profiadau byw a bywydau pobl LHDTC+, a fydd yn dibynnu i raddau helaeth ar ddeall canfyddiad pobl trwy waith maes ansoddol a thrafodaeth sy'n ansoddol eu natur.

3.64 Mae’r Banc Data yn rhestru allbynnau allweddol y gellid eu mynegi’n feintiol, ond yn y rhan fwyaf o achosion nid yw’n glir ar unwaith sut y gellid rhoi gwerth ariannol cymharol gadarn ar y metrigau hyn (e.e. o ran canlyniadau iechyd, arbedion costau yn y sector cyhoeddus a chanlyniadau cyflogaeth).

**Argaeledd data a thystiolaeth**

3.65 Mae diffyg data meintiol ar agweddau, profiadau a llesiant pobl LHDTC+. Awgryma canfyddiadau'r asesiad data y dylid defnyddio data meintiol yn ofalus o ystyried ei fod yn gyfyngedig iawn mewn rhai mannau ac efallai nad yw'n cyfleu cymhlethdodau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a phrofiadau pobl LHDTC+.

3.66 O ystyried rôl y Cynllun Gweithredu LHDTC+ o ran gwella llesiant pobl LHDTC+, gallai casglu data a rhoi gwerth ariannol ar effeithiau llesiant fod yn bosibilrwydd. Fodd bynnag, bydd priodoli achos unrhyw newidiadau llesiant i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn anodd, os nad yn amhosibl.

**Amcanion strategol**

3.67 Barn gyson o’r cyfweliadau â Llywodraeth Cymru a sefydliadau allanol oedd na ddylai llwyddiant y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ganolbwyntio ar fesurau meintiol. Cydnabuwyd pwysigrwydd y rhaglen o ran gwella bywydau a phrofiadau byw pobl LHDTC+. Nid yw hyn o reidrwydd yn cael ei gynnwys mewn mesur meintiol, a allai hefyd orsymleiddio profiadau croestoriadol pobl LHDTC+. O ystyried hyn, hyd yn pe byddai data meintiol gwell ar gael, efallai na fyddai’n ddoeth cynnal gwerthusiad economaidd.

# 4. Casgliad ac argymhellion: Dull o ymdrin â'r gwerthusiad

4.1 Mae'r asesiad gwerthusadwyedd hwn yn argymell y dylid cynnal gwerthusiad proses dulliau cymysg a gwerthusiad effaith realaidd sy'n seiliedig ar theori i'r cynllun gweithredu LHDTC+.

4.2 Mae camau eang, allweddol y dull gwerthuso hwn fel a ganlyn. Mae'r asesiad gwerthusadwyedd eisoes wedi dechrau ar y camau cychwynnol, yn benodol y ddau bwynt bwled cyntaf isod, sy'n golygu y dylai'r gwerthusiad atgyfnerthu ac adeiladu ar y gwaith hwn.

- Trwy ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid, nodi diffiniadau a rennir o lwyddiant, y canlyniadau y disgwylir iddynt newid, a'r ffactorau allanol.
- Datblygu Theori Newid sy'n egluro camau gweithredu, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau, y weledigaeth gyffredinol, dolenni adborth, risgiau a thybiaethau.
- Gwerthuso proses:
    - Casglu a choladu tystiolaeth bresennol, gan gynnwys data meintiol a ddisgrifir yn y Banc Data. Diweddaru'r Theori Newid os oes angen.
    - Ystyried pryderon moesegol a chael cymeradwyaeth foesegol.
    - Cynnal gwaith maes - yn ôl pob tebyg, arolwg a chyfweliadau neu grwpiau ffocws gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol, i ateb y cwestiynau ymchwil enghreifftiol yn adran 4.4.
    - Dadansoddi'r data ansoddol a meintiol.
- Gwerthuso effaith:
    - Casglu a choladu tystiolaeth bresennol, gan gynnwys data meintiol a ddisgrifir yn y Banc Data. Diweddaru'r Theori Newid os oes angen.
    - Ystyried pryderon moesegol a chael cymeradwyaeth foesegol.
    - Cynnal gwaith maes - yn ôl pob tebyg, arolwg a chyfweliadau neu grwpiau ffocws gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol, i ateb y cwestiynau ymchwil enghreifftiol yn adran 4.10 a gwerthuso'r mecanweithiau achosol yn y Theori Newid.
    - Dadansoddi'r data ansoddol a meintiol, gan ddefnyddio egwyddorion realaidd.

**Gwerthuso proses**

4.3 Argymhellir gwerthusiad proses dulliau cymysg sy’n ymdrin â’r cwestiynau ymchwil canlynol, gyda gwaith maes ansoddol fel y disgrifir ym mharagraff 4.9:

4.4 Ceir enghreifftiau o gwestiynau ymchwil gwerthuso proses isod:

**Cyflwyno’r Cynllun Gweithredu LHDTC+**

- I ba raddau y mae'r camau gweithredu wedi'u cwblhau?
- A oes gan berchnogion camau gweithredu'r lefel gywir o wybodaeth, adnoddau a chefnogaeth i gwblhau eu gweithredoedd?
- A yw perchnogion camau gweithredu yn credu bod y Cynllun Gweithredu yn bwysig i'w gwaith?
- A oes unrhyw rwystrau neu gyfyngiadau i gyflenwi'r camau gweithredu allweddol?

**Data a monitro**

- Pa brosesau sydd ar waith i fonitro'r cynnydd o ran cwblhau'r camau gweithredu a chefnogi perchnogion camau gweithredu i wneud hynny?
- A yw data'n cael ei gasglu'n ddigonol i fesur effaith Cynllun Gweithredu LHDTC+, megis trwy werthusiad effaith? Gweler yr adran gwerthuso effaith i gael rhagor o fanylion am sut gallai hyn edrych.
- A oes consensws ymhlith rhanddeiliaid ynghylch sut beth yw llwyddiant, a sut y dylid diffinio hyn gyda'r data sydd ar gael?

**Llywodraethu ac ymgysylltu**

- A oes strwythur llywodraethu clir ar waith sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a phenderfyniadau parhaus yn ymwneud â'r Cynllun Gweithredu LHDTC+?
- A oes strwythurau digonol ar waith i gydlynu ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â chyflwyno a gwerthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, gan gynnwys monitro cynnydd, casglu data a chynllunio gwerthuso? A yw cydgysylltu a chyflenwi

mor effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a pherchnogion y camau gweithredu allanol ag y maent o fewn Llywodraeth Cymru?

- A oes proses glir ac agored ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ac ystyried eu barn?

**Dysgu gwersi**

- A oes proses glir yn ei lle i roi unrhyw wersi a ddysgwyd ar waith, o ganlyniad i'r gwerthusiad proses a'r rhai a nodwyd ar sail barhaus?
- A oes unrhyw ddolenni adborth yn eu lle i gofnodi unrhyw broblemau neu adborth a brofwyd gan berchnogion y camau gweithredu a rhanddeiliaid?
- A oes proses gytunedig ar gyfer mireinio a diweddaru'r Cynllun Gweithredu LHDTC+?

4.5 Y prif fetrig ar gyfer mesur cynnydd gweithredu'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ fydd i ba raddau y mae camau gweithredu wedi'u cwblhau. Gellir defnyddio gwaith maes – ceir mwy o fanylion am yr opsiynau gwaith maes isod – i archwilio'n fanwl unrhyw heriau, rhwystrau neu wersi posibl sy'n ymwneud â sut y gall perchnogion camau gweithredu gyflawni eu gweithredoedd. Yn ogystal, dylid cynnal cyfweliadau gyda Llywodraeth Cymru a pherchnogion camau gweithredu allanol – megis Gwasanaeth Rhywedd Cymru, Estyn, a TUC Cymru – i werthuso prosesau a strwythurau presennol sy'n ymwneud â chydweithio a phartneriaeth rhwng perchnogion camau gweithredu mewnol ac allanol.

4.6 Mewn rhai meysydd polisi, gellid cyfuno gwaith maes i werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a gwerthusiadau o gynlluniau cydraddoldeb eraill – megis Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru. Gallai gweithdai rhwng perchnogion camau gweithredu gwahanol gynlluniau mewn meysydd polisi tebyg ddatgelu arferion gorau mewn meysydd polisi penodol, megis mynd i'r afael â throseddau casineb ac anghydraddoldebau iechyd.

4.7 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad gwerthuso hwn, dylid lliniaru sawl her bosibl wrth gynllunio gwerthusiad proses:

- **Cynnal ffocws y cyfweliadau**: Yn ystod y cam gwerthuso proses, dylai cyfweliadau barhau i fod yn dargededig a chyda ffocws; ni ddylent geisio naill ai ailadrodd y gwerthusiad effaith na dod yn sylwebaeth gyffredinol ar ddewis polisi. I liniaru'r risg o hyn, dylid cyfleu pwrpas y cyfweliad yn glir a theilwra'r

canllawiau trafod yn ofalus. Yn ogystal, gallai rhanddeiliaid fod yn ymwybodol o sianeli i gyfleu eu safbwyntiau ehangach.

- **Rhagfarn ddethol wrth recriwtio**: canfu'r recriwtio yn ystod cam gwaith maes yr asesiad gwerthusadwyedd fod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn ymgysylltu'n gadarnhaol â gwaith maes. Os gwelir bod rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â'r gwaith maes hefyd yn gofalu am gamau gweithredu lle bo angen datblygu'r gweithredu ymhellach, yna gallai methiant i ymgysylltu â grwpiau o'r fath ragfarnu canlyniadau gweithredu'r broses. Dylid annog rhanddeiliaid o'r fath i ymgysylltu â'r gwerthusiad er mwyn deall a ydynt yn wynebu unrhyw heriau neu rwystrau posibl, naill ai o safbwynt cwblhau eu camau gweithredu neu ymgysylltu â'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn fwy cyffredinol.
- **Data meintiol**: er bod yr asesiad gwerthusadwyedd hwn wedi nodi cyfleoedd cyfyngedig i ddefnyddio data meintiol presennol, cydnabyddir y gall data meintiol ddal i fod yn ddefnyddiol o ran cefnogi gwaith gwerthuso yn y dyfodol os caiff ei wella. Mae'r Banc Data yn darparu argymhellion ar sut y gellid gwella'r broses o gasglu data. Dylai'r gwerthusiad proses ailedrych ar yr asesiad o argaeledd tystiolaeth feintiol, a pha fylchau pellach y gellir eu llenwi'n hawdd, rhag ofn y gwneir gwelliannau yn dilyn yr asesiad gwerthusadwyedd hwn.

**Gwerthuso effaith**

4.8 Argymhellir bod y gwerthusiad effaith yn defnyddio dull gwerthuso realaidd dulliau cymysg. Mae gwerthusiad realaidd yn ddefnyddiol ar gyfer deall 'beth sy'n gweithio o dan ba amgylchiadau ac i bwy,' gan ei wneud yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gwerthuso effaith, yn ogystal â nodi'r effeithiau ar brofiadau croestoriadol. Fodd bynnag, er mwyn cadw'r galwadau ar amser rhanddeiliaid i'r lleiafswm, dylai egwyddorion gwerthuso realaidd fod yn hyblyg er mwyn lliniaru gofynion mwy dwys y dulliau realaidd pur.

4.9 Dylai'r gwerthusiad effaith ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau o'r gymuned LHDTC+, gan gynnwys aelodau LHDTC+ sydd â phrofiad o groestoriadedd, i ddeall effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar Lywodraeth Cymru ei hun yn y tymor hwy, yn enwedig sut y mae'n ystyried materion LHDTC+ wrth gyflawni polisi a phroses llunio polisi.

Bydd deall barn a phrofiadau byw grwpiau ac unigolion LHDTC+ yn rhoi cipolwg ar sut y gall y Cynllun Gweithredu LHDTC+ gael effaith gadarnhaol ar eu bywydau, ac yn y pen draw, gyflawni amcanion Cynllun Gweithredu LHDTC+ o wneud Cymru'n gyfeillgar i bobl LHDTC+. Gan nodi'r gwahaniaethau hyn mewn dibenion ymgysylltu ar draws gwahanol grwpiau, mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys cwestiynau ymchwil enghreifftiol y dylid eu hystyried ar gyfer pob grŵp o randdeiliaid. Er mwyn recriwtio cyfranogwyr y tu allan i sefydliadau ffurfiol LHDTC+ a grwpiau rhanddeiliaid, dylid ystyried y dull o recriwtio drwy ganolfannau a lleoliadau cymunedol LHDTC+ (Chakraborti a Hardy, 2015).

4.10 Ceir enghreifftiau o gwestiynau ymchwil gwerthuso effaith isod:

**Llywodraeth Cymru**

- Beth fu effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+ o ran cyflawni'r camau gweithredu o dan bob Thema?
- Sut mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ wedi bod o gymorth wrth gyflawni'r Camau Gweithredu hyn?
- Sut mae cwblhau'r camau hyn wedi gwella bywydau pobl LHDTC+ ac yn y pen draw, wedi cyflawni nodau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ i wneud Cymru'n gyfeillgar i bobl LHDTC+?
- Sut y gellid gwella effaith y cynllun gweithredu?

**Pobl, grwpiau a sefydliadau LHDTC+**

- Yn seiliedig ar eich profiad personol, a fyddech chi'n disgrifio Cymru fel lle cyfeillgar i bobl LHDTC+? Pam, neu pam nad yw, yn eich barn chi?
- Sut ydych chi'n meddwl bod cyflawniadau'r Cynllun Gweithredu wedi gwneud Cymru'n lle mwy cyfeillgar i bobl LHDTC+?
- A oes meysydd lle'r oedd bylchau yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+ o ran creu effeithiau cadarnhaol i'r gymuned LHDTC+ neu grwpiau o fewn y gymuned?
- A oes unrhyw gamau gweithredu neu gyflawniadau penodol o'r cynllun gweithredu y credwch sydd wedi bod yn bwysig o ran cyflawni hyn?
- A ydych chi wedi sylwi ar effeithiau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn eich bywyd o ddydd i ddydd?

- Beth arall y gellid ei wneud i wneud Cymru'n fwy cyfeillgar i bobl LHDTC+? Sut y gellid gwella'r Cynllun Gweithredu LHDTC+?

4.11 Wrth gymhwyso egwyddorion gwerthuso realaidd, dylai cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau LHDTC+ sy’n wybodus am themâu a chamau gweithredu penodol hefyd drafod eu barn ar allbwn, canlyniadau ac effaith posibl y camau gweithredu a gwblhawyd, gan gynnwys y mecanweithiau penodol ar gyfer yr effaith hon a p'un a allai fod unrhyw wahaniaethau ar draws grwpiau penodol o bobl (h.y. dilysu’r cadwyni Cyd-destun-Mecanwaith-Canlyniad a ddiffinnir gan y Theori Newid).

**Dull o ymdrin â chasglu gwybodaeth**

4.12 Argymhellir bod y gwerthusiad yn defnyddio'r offer ymchwil canlynol i gasglu gwybodaeth ar gyfer y gwerthusiad:

- **Cyfweliadau:** Yn ôl natur y gwerthusiad, bydd mwyafrif y gweithgareddau casglu gwybodaeth yn ansoddol ac yn cael eu casglu trwy gyfweliad. O ystyried natur sensitif y cyfweliadau, dylid cyfyngu gwaith maes gyda rhanddeiliaid allanol i gyfweliadau un-i-un. Er mwyn cyrraedd pob cymuned, dylid cyflogi cyfieithwyr yn ôl yr angen.
- **Grwpiau ffocws**: Mae grwpiau ffocws yn debygol o fod yn fwy priodol i swyddogion Llywodraeth Cymru wrth drafod eu profiadau o roi'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar waith, gan eu bod yn caniatáu i werthuswyr roi prawf ar bwysau gwahanol safbwyntiau, gan ganfod pa mor gynrychioliadol yw gwahanol farn. Dylid cynhyrchu canllawiau trafod yn sensitif, a dylid gwneud darpariaeth ar gyfer unrhyw swyddogion sy’n dymuno ymgysylltu â’r gwerthusiad mewn cyfweliadau un-i-un.
- **Arolwg o bobl LHDTC+**: gallai arolwg fod yn ddefnyddiol i ymgysylltu â phobl LHDTC+ nad ydynt efallai'n teimlo'n gyfforddus yn ymgysylltu trwy gyfweliad, tra hefyd gynyddu cyrhaeddiad a maint sampl y gwerthusiad. Gallai’r arolwg hefyd gofnodi’n systematig agweddau pobl LHDTC+ ar y graddau y mae Cymru’n gyfeillgar i bobl LHDTC+, a all wella argaeledd gwybodaeth ansoddol a meintiol yn y maes hwn. Gall hefyd ganiatáu cymhariaeth dros amser a thablau o ran nodweddion ychwanegol, gan roi

rhyw syniad o groestoriadedd rolau mewn profiadau LHDTC+. Dylai'r arolwg hwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau recriwtio i gynyddu maint a chyrhaeddiad pobl LHDTC+ ledled Cymru. Os yw'n bosibl, dylid cynnal yr arolwg hwn cyn gynted â phosibl, er mwyn rhoi darlun sylfaenol o'r canfyddiadau presennol, ac yna ei ailadrodd yn ystod y gwerthusiad effaith i ddeall sut mae canfyddiadau wedi newid. Gellid hefyd ailadrodd yr arolwg hwn cyn unrhyw adnewyddu o Gynllun Gweithredu LHDTC+.

- **Arolwg o swyddogion Llywodraeth Cymru**: Fel y trafodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, gallai arolwg o swyddogion Llywodraeth Cymru roi cipolwg ar statws y camau gweithredu, effeithiau canfyddedig, ac i ba raddau y mae swyddogion yn ystyried bod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn dylanwadu ar eu gwaith.
- **Data meintiol presennol:** Argymhellir defnyddio data meintiol presennol fel tystiolaeth ategol i'r gwerthusiad er mwyn pennu newidiadau pwysig mewn allbynnau, canlyniadau ac effeithiau. Dylid defnyddio data meintiol presennol ar y cyd â chanfyddiadau o'r gwaith maes – gan gynnwys unrhyw ddata meintiol newydd a gynhyrchwyd gan arolwg o bobl LHDTC+ – i bennu effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+ mewn ystyr cyfannol.

**Pennu llwyddiant cyffredinol y Cynllun Gweithredu LHDTC+**

4.13 Diffinnir llwyddiant y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar hyn o bryd fel cyflawni ei nod datganedig o “wneud Cymru’r wlad fwyaf cyfeillgar i LHDTC+ yn Ewrop”. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw setiau data sy'n gallu mesur yr amcan hwn, felly nid yw’n addas defnyddio'r nod datganedig hwn fel diffiniad o lwyddiant i’r gwerthusiad effaith. Nid yw cyflawni'r amcan hwn ychwaith o fewn rheolaeth lawn Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, dylid adolygu'r amcan hwn (neu greu amcanion gwahanol) a'i wneud yn GAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, amserol, mesuradwy) os ydynt am gael eu defnyddio i fesur llwyddiant mewn asesiad effaith. Dylai amcanion adlewyrchu pwyslais y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar wella bywydau a phrofiadau pob unigolyn LHDTC+. O ystyried y problemau gyda gorsymleiddio cymhlethdodau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a phrofiadau croestoriadol amrywiol pobl LHDTC+, dylid barnu llwyddiant cyffredinol ar gyfuniad cyfannol o ddata meintiol ac ansoddol yn seiliedig ar brofiadau a chanfyddiadau.

**Heriau posibl i’r gwerthusiad effaith**

- **Cynnal ffocws y gwaith maes**: Fel y trafodwyd, mae'n debygol y bydd diddordeb gan randdeiliaid allanol i ymgysylltu â'r ymchwil. Dylid nodi amcanion a chwestiynau ymchwil y gwaith maes yn glir er mwyn osgoi trafodaeth sydd y tu hwnt i gwmpas y gwaith. Nododd rhanddeiliaid fod risg y byddai gwaith maes y gwerthusiad yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i rai rhanddeiliaid roi barn ar bolisi ac at ddibenion gweithredu.
- **Ymgysylltiad ac arbenigedd rhanddeiliaid.** Bydd y gwerthusiad effaith yn gofyn am ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol i fynegi effaith camau gweithredu penodol y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Er bod rhanddeiliaid wedi'u cynnwys yn ystod yr asesiad, ni ellir bob amser warantu'r un lefelau o ymgysylltu yn y dyfodol ar draws holl feysydd y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Er mwyn lliniaru'r amrywiad posibl hwn, dylid cymhwyso egwyddorion gwerthusiad realaidd yn gymharol hyblyg er mwyn lleihau'r gofynion ar randdeiliaid. Dylid teilwra cwestiynau cyfweliadau ar gyfer rhanddeiliaid penodol mewn meysydd penodol i'w maes, er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd sgyrsiau a chyfuno pynciau trafod mewn cyn lleied â phosibl o gyfweliadau ar wahân.
- **Sicrhau cynrychiolaeth o groestoriadedd**: mae hyn yn cael ei weld fel blaenoriaeth i'r gwerthusiad. Dylai gwerthuswyr ystyried gwahanol ffyrdd y dylid recriwtio pobl LHDTC+ a'u cynnwys yn y gwerthusiad er mwyn sicrhau cynrychiolaeth wirioneddol o brofiadau croestoriadol. Dylent hefyd ystyried sut y caiff y canfyddiadau sy'n ymwneud â chroestoriadedd eu hystyried yng nghanfyddiadau cyffredinol y gwerthusiad er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau'n cael eu trafod mewn modd cryno ond hefyd yn amlygu croestoriadedd drwyddo draw.
- **Parhad cefnogaeth Llywodraeth Cymru**: nododd rhanddeiliaid y gallai natur hirdymor bosibl y Cynllun Gweithredu LHDTC+ olygu y gallai'r gwerthusiad bara'n fwy na swyddogion a strwythurau presennol Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y Cynllun Gweithredu LHDTC+ presennol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun parhad staff digon cadarn yn ei le i sicrhau bod arbenigedd, prosesau a chysylltiadau â rhanddeiliaid yn cael eu trosglwyddo'n briodol. Gan gydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â phobl a allai fod yn gyffredinol yn llai tebygol o gymryd rhan mewn llunio polisïau, mae'n bwysig bod unrhyw newidiadau staff a newid strwythurol yn cael eu gwneud i

gynnal perthnasoedd presennol a sicrhau ymgysylltiad parhaus â grwpiau ymylol.

- **Moeseg a diogelu**: Mae'n bosibl y bydd cyfweliadau gyda phobl LHDTC+ yn cynnwys trafodaethau ar faterion a allai fod yn sensitif. Dylid cynllunio offer gwaith maes i osgoi ymdrin â materion o'r fath yn ddiangen, a dylid rhoi gweithdrefnau moeseg a diogelu priodol yn eu lle i leihau unrhyw effeithiau andwyol, i gyfwelwyr a chyfranogwyr. Cynigir pecyn cymorth i'r Gweithgor Arbenigol ynghylch Gwahardd Arferion Trosi; dylid cynnig pecyn tebyg i bobl sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn.

### Gwerthusiad economaidd

4.14 Nid yw'r gwaith hwn yn addas ar gyfer gwerthusiad economaidd oherwydd diffyg data i feintioli a gosod gwerth ariannol ar ganlyniadau allweddol i werthusiad ‘gwerth am arian’. Byddai casglu data pellach yn annhebygol o wella dichonoldeb gwerthusiad economaidd gan mai prin yw'r canlyniadau a ddisgwylir gan y Cynllun Gweithredu LHDTC+ y disgwylir iddynt fod â gwerth ariannol, o ystyried y ffocws ar wella profiadau bywyd a chanfyddiadau. Hyd yn oed pe bai data meintiol yn dod ar gael, ni fyddai gwerthusiad economaidd yn ddoeth oherwydd gallai orsymleiddio cymhlethdodau'r cynllun gweithredu LHDTC+ a phrofiadau croestoriadol llawn ac amrywiol pobl LHDTC+.

### Nifer o gyfweliadau

4.15 Mae’r tabl isod yn awgrymu tri opsiwn ar gyfer nifer y cyfweliadau i’w cynnal, ar gyfer gwahanol lefelau o ddwysedd adnoddau.

**Tabl 2: Nifer awgrymedig o gyfweliadau**

| Gwerthusiad | Opsiwn adnoddau | Nifer o gyfweliadau, n |
|---|---|---|
| **Gwerthuso proses** | Uchel | 40 |
| | Canolig | 30 |
| | Isel | 20 |
| **Gwerthuso effaith** | Uchel | 100 (n=60 o gyfweliadau gyda phobl LHDTC+) |
| | Canolig | 75 (n=50 o gyfweliadau gyda phobl LHDTC+) |
| | Isel | 50 (n=30 o gyfweliadau gyda phobl LHDTC+) |

4.16 Mae’r gwerthusiad proses yn gymharol ysgafn o ran gwaith maes o’i gymharu â’r gwerthusiad effaith, a bydd yn canolbwyntio ar gyfres gymharol gyfyng o gwestiynau, gyda dim ond swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys. Ni

fydd yn ceisio deall profiadau pobl LHDTC+ mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Byddai'r opsiwn Isel o gynnal 20 cyfweliad yn targedu swyddogion Llywodraeth Cymru yn bennaf i werthuso prosesau a strwythurau mewnol mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Gwneir yr opsiwn hwn yn ymarferol trwy gyfuno rhai cyfweliadau gwerthuso proses a gwerthuso effaith mewn un cyfweliad sy'n cwmpasu'r ddau bwnc. Bydd hyn yn bosibl gyda chyfeirio clir gan gyfwelwyr profiadol. Fodd bynnag, byddai'r dull hwn yn golygu y byddai'r broses a'r gwaith maes gwerthuso effaith yn llai tebygol o archwilio pynciau'n fanwl, na nodi unrhyw arlliwiau perthnasol ym mhrofiadau rhanddeiliaid. Bydd hefyd yn golygu efallai na fydd rhai canfyddiadau sy'n berthnasol i'r gwerthusiad proses ddim yn codi tan y cam gwerthuso effaith, a fydd yn arwain at oedi wrth weithredu unrhyw welliannau i'r broses a allai wella effaith. Felly mae cyfuno'r cyfweliadau ar gyfer y gwerthusiad proses a'r gwerthusiad effaith yn bosibilrwydd, ond byddai'n debygol o arwain at waith maes llai trylwyr nag opsiynau sy'n cynnwys mwy o gyfweliadau ac ymwahaniad cryfach rhwng y gwerthusiad proses a'r gwerthusiad effaith.

4.17 Mae'r gwerthusiad effaith yn gofyn am faint sampl mwy o ystyried ei fod yn anelu at ddeall profiadau grwpiau lluosog o fewn y gymuned LHDTC+ a phrofiadau croestoriadol. Er mwyn cynyddu cyrhaeddiad a maint sampl y gwerthusiad heb fawr o effaith ar adnoddau, dylid cynnal arolwg ar raddfa fawr o bobl LHDTC+ yng Nghymru ar draws yr holl opsiynau yn ogystal â chyfweliadau, fel y disgrifir yn Nhabl 2.

4.18 Mae'r amcangyfrifon samplu yn seiliedig ar (Andrew J.B. Fugard, 2014). Er enghraifft, bydd yr opsiwn samplu Isel o 50 o gyfweliadau yn gallu canfod un enghraifft o farn a fynegwyd sydd â chyffredinolrwydd o 5% yn y boblogaeth. Mewn geiriau eraill, mae'r sampl yn ddigon mawr i ganfod yn gymharol hyderus safbwynt a ganfyddir gan 1 o bob 20 o unigolion[1]. Fodd bynnag, dylid nodi bod y meintiau sampl uchod yn ddangosol yn unig, ac yn adlewyrchu un cylch o werthuso.

4.19 Pe bai'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn dod yn un hirdymor ac yn cael ei fireinio o bryd i'w gilydd, yna byddem yn cynghori bod y gwerthusiadau proses ac effaith yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd hefyd. Gallai hyn hefyd alluogi datblygu arolygon a

[1] Rhagdybiaeth yw paramedr mynychder o 5% i ddangos y gallu i nodi thema sydd â mynychder cymharol isel, fel meincnod. Mae'r dewis o bŵer ystadegol yn seiliedig ar Suresh K, Chandrashekara S.*Sample size estimation and power analysis for clinical research studies*. J Hum Reprod Sci. 2012 Jan;5(1):7-13. doi: 10.4103/0974-1208.97779.

gwaith maes fel eu bod yn galluogi dadansoddiad o newidiadau mewn canfyddiadau a phrofiadau byw dros amser.

**Amseru arfaethedig y gwerthusiadau**

4.20 O ystyried bod Cynllun Gweithredu LHDTC+ wedi’i gyhoeddi a’i fod eisoes ar waith, gellid cynnal gwerthusiad o’r broses unrhyw bryd o Hydref 2024 ymlaen. Dylid cynnal y gwerthusiad effaith yn fuan ar ôl rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith i sicrhau nad yw unrhyw ganfyddiadau defnyddiol sy'n ymwneud â'r Cynllun Gweithredu yn cael eu hanghofio gan randdeiliaid a bod y camau gweithredu sylfaenol yn dal i gael eu hystyried yn berthnasol.

4.21 Dylid cynnal y gwerthusiad effaith ar ôl y gwerthusiad proses, er mwyn galluogi unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion o'r gwerthusiad proses i gael eu gweithredu a gwella effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ymhellach. Byddai cynnal gwerthusiad o’r broses ar ôl y gwerthusiad effaith yn cyfyngu ar y gallu i wella’r Cynllun Gweithredu fel y gall wireddu ei botensial llawn cyn asesu ei effaith.

4.22 Argymhellir bod y gwerthusiad effaith yn cael ei gynnal pan fydd y newidiadau sy'n deillio o’r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn debygol o gael eu cynhyrchu ac effeithio ar fetrigau allweddol. O ystyried y bydd y gwerthusiad effaith yn cael ei yrru’n bennaf gan ganfyddiadau a phrofiadau pobl, sy’n dueddol o newid yn araf dros amser, argymhellir bod y gwerthusiad effaith yn cael ei gynnal sawl blwyddyn ar ôl i’r Cynllun Gweithredu LHDTC+ gael ei roi ar waith ac i'r camau gweithredu gael eu cwblhau. Fodd bynnag, gallai gohirio’r gwerthusiad effaith am gyfnod rhy hir arwain at lai o allu i glymu’r effeithiau a arsylwyd gyda’r Cynllun Gweithredu ei hun, gan y gallai rhanddeiliaid anghofio’r Cynllun Gweithredu ac y gallai’r rhai sy’n ymwneud â’r gweithredu symud ymlaen o’u rolau. Argymhellir felly y dylid cynnal y gwerthusiad effaith o fewn 5 mlynedd i'w weithredu.

4.23 Fodd bynnag, os caiff y Cynllun Gweithredu LHDTC+ newydd ei gynllunio erbyn dyddiad penodol, neu ei adnewyddu, yna'n ddelfrydol dylai'r gwerthusiad effaith gael ei amseru i'w gwblhau cyn dylunio’r Cynllun Gweithredu LHDTC+ newydd neu gynllun wedi'i adnewyddu. Mae hyn er mwyn galluogi'r hyn a ddysgwyd o'r Cynllun Gweithredu cyfredol i gael ei ddefnyddio i lywio'r fersiwn newydd.

4.24 Er y gallai’r gwerthusiad fod sawl blwyddyn i ffwrdd, dylai newidiadau neu welliannau i weithgareddau casglu data ddechrau ar unwaith er mwyn rhoi cyfle i gasglu sawl blwyddyn o ddata. Gallai hyn hefyd gynnwys cynnal arolwg ar raddfa

fawr cyn y gwerthusiad effaith er mwyn datblygu llinell sylfaen, cyn ei ail-redeg ar y cam gwerthuso effaith i arsylwi ar unrhyw newidiadau.

**Argymhellion i wella'r dirwedd ddata a chefnogi gwerthusiad yn y dyfodol**

4.25 Pwysleisiodd y cyfweleion dro ar ôl tro y dylid blaenoriaethu mewnwelediadau ansoddol dros ddata meintiol wrth werthuso Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru – trafodir hyn yn fanylach ym mharagraff 3.12. Serch hynny, bydd gan ddata meintiol rôl i'w chwarae mewn gwerthusiad. Rydym felly wedi casglu'r argymhellion o'r Banc Data (Tabl 1) i Lywodraeth Cymru wella'r data meintiol sydd ar gael i werthuswyr Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru:

1) Dylai Llywodraeth Cymru orsamplu unigolion LHDTC+ o fewn Arolwg Cenedlaethol Cymru i wella ansawdd a defnyddioldeb data yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gael i werthuswyr ar gyfer mwy o gwestiynau yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. Dylai gwerthuswyr ddefnyddio'r data hwn yn ofalus, oherwydd pryderon ynghylch meintiau sampl bach.
2) Dylai Llywodraeth Cymru ychwanegu cwestiynau perthnasol at Arolwg Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys cwestiwn i fesur ymwybyddiaeth ymatebwyr o droseddau casineb gwrth-LHDTC+ a'r opsiynau sydd ar gael i adrodd am droseddau casineb.
3) Dylai gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y GIG, ystyried casglu data'n amlach ar hunaniaeth rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol defnyddwyr gwasanaethau er mwyn nodi unrhyw anghydraddoldebau o ran darparu gwasanaethau. Dylid safoni a chasglu data yn gyson.
4) Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â gwasanaethau cymorth a/neu wasanaethau cyhoeddus i archwilio argaeledd data ar arferion trosi. Os nad yw'r data hwn ar gael, dylai swyddogion Llywodraeth Cymru weld a oes data ar arferion trosi ar gael gan Galop a Chymorth i Ddioddefwyr yng Nghymru.
5) Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru goladu rhestr o'r fforymau cydraddoldeb a ddisgrifir yn Thema A Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Gellid defnyddio hwn i werthuso gweithrediad y cam gweithredu canlynol: Cryfhau cynrychiolaeth LHDTC+ ar fforymau cydraddoldeb.
6) Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am ddata gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ar y nifer y bobl sy'n gwneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd yng Nghymru.

7) Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio mwy ar faterion cydraddoldeb yn adroddiadau'r Rhwydwaith Tramor er mwyn llywio'r gwerthusiad o'r broses. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys pennod wedi'i neilltuo ar gyfer materion cydraddoldeb.

8) Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am ddata monitro ar droseddau casineb yn ôl nodweddion gwarchodedig a ddarperir gan y Swyddfa Gartref ar heddluoedd Cymru ac, os oes angen, ei goladu er mwyn hysbysu'r gwerthusiad.

9) Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am ddata monitro gan Ganolfan Cymorth Casineb Cymru. Dylai'r cais am ddata gynnwys: data monitro ar nifer yr atgyfeiriadau LHDTC+, data ar eu hymgysylltiad â phobl LHDTC+, a data sy'n mesur effaith eu gwasanaethau i unigolion LHDTC+.

10) Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am ddata gan heddluoedd Cymru ynghylch cynrychiolaeth LHDTC+ ymhlith PCSOs a swyddogion heddlu.

11) Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am ddadansoddiadau rhanbarthol yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd o gymharu â'r rhyw a gofnodwyd adeg geni o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr. Bydd dilysu ansawdd y data hwn hefyd yn hollbwysig, gan fod disgwyl meintiau sampl isel.

12) Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad yr adolygiad o ddangosyddion VAWDASV (trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol) a cheisio sicrhau y bydd dangosyddion ar gael yn unol â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd.

13) Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cwestiwn o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn arolwg boddhad Gwasanaeth Noddfa Cymru. Bydd angen cael y data a'i ddilysu. Gall hyn fod yn gymhleth o ystyried nad yw lloches yn faes polisi datganoledig.

14) Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau data cwynion iechyd ar nifer y cwynion gan bobl sy'n nodi eu bod yn LHDTC+. Os nad yw hyn yn bosibl, dylent geisio nifer y cwynion sy'n cyfeirio at wahaniaethu gwrth-LHDTC+ mewn gofal iechyd.

15) Nid yw'n glir a yw Arolwg Staff GIG Cymru yn gofyn i ymatebwyr rannu eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth rhywedd. Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru ymchwilio i hyn. Y nod yw sicrhau y gellir dadansoddi canlyniadau'r arolwg yn ôl cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, a p'un a yw rhywedd unigolyn yn cyd-fynd â'r rhyw a ddisgrifiwyd adeg ei eni.

16) Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru ofyn am ddata monitro gan Wasanaeth Rhywedd Cymru – yn enwedig ynghylch mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMs), mesurau profiad a adroddir gan gleifion (PREMs), ac adborth dienw o gyfarfodydd rhwng WGS a chynrychiolwyr trawsryweddol – a gwneud y data hwn ar gael i'r gwerthuswyr.

17) Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru gysylltu â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion i sicrhau bod Arolygon Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yn y dyfodol yn gofyn cwestiynau i ddisgyblion ysgolion uwchradd am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd a sicrhau bod y data hwn ar gael i werthuswyr Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r arolwg yn gofyn am rywedd a rhyw'r ymatebydd adeg geni ond nid yw'n casglu data ynghylch p'un a yw pobl yn nodi eu bod yn LHDTC+ nac unrhyw grŵp o fewn y gymuned.

18) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data dadansoddi gwefannau ar gael i werthuswyr ar gyfer tudalennau gwefan "Magu Plant: Rhowch Amser iddo". Er mwyn gwella defnyddioldeb y data hwn ar gyfer y gwerthusiad, dylai Llywodraeth Cymru ystyried gofyn i'r rhai sy'n ymweld â'r dudalen we am adborth ar eu profiad o ddefnyddio'r rhain.

19) Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol drwy ofyn a yw hunaniaeth rhywedd pobl yr un fath â'r rhyw a ddisgrifiwyd adeg eu geni. Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru geisio cynyddu'r gyfradd ymateb i'r arolwg hwn.

20) Dylai Llywodraeth Cymru gasglu data ar faint o Gyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol yng Nghymru sydd â pholisïau traws-gynhwysol drwy adolygu polisïau sampl o gyrff chwaraeon. Dylid ailadrodd yr ymarfer hwn cyn i'r gwerthusiad ddechrau. Bydd hyn yn caniatáu casglu llinell sylfaen y gall gwerthuswyr ei defnyddio i bennu newidiadau mewn traws-gynhwysedd mewn chwaraeon yng Nghymru a rhoi'r camau gweithredu canlynol ar waith: Gwella mynediad a chyfranogiad pobl drawsryweddol mewn chwaraeon.

21) Dylai Llywodraeth Cymru geisio data monitro gan sefydliadau diwylliannol a ariennir gan Lywodraeth Cymru (Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a Chwaraeon Cymru) i bennu eu rôl mewn hyrwyddo cynhwysiant LHDTC+ ac unrhyw effeithiau mesuradwy.

## Rhestr Termau

**Gwerthusiad economaidd**

Asesu p'un a yw polisi yn sicrhau gwerth am arian, o ran p'un a yw'r buddion i gymdeithas a gynhyrchir gan y polisi yn fwy na'i gostau.

**Gwaith maes**

Gwaith ymarferol a wneir gan ymchwilwyr yn y byd go iawn. Gallai hyn gynnwys cynnal cyfweliadau, grwpiau ffocws ac ymchwil ethnograffig. Mae gwaith maes yn cynnwys casglu data newydd i'w ddefnyddio mewn ymchwil.

**Gwerthusiad effaith**

Asesu p'un a yw ymyriad neu raglen wedi llwyddo i gyflawni ei nodau bwriadedig.

**Croestoriadedd**

Mae hyn yn ymwneud â'r ffordd y mae gwahanol fathau o wahaniaethu (h.y. triniaeth annheg oherwydd nodweddion gwarchodedig person) yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn effeithio ar ei gilydd. Gwahaniaethu croestoriadol yw pan wahaniaethir yn erbyn person oherwydd cyfuniad penodol o ddwy neu fwy o nodweddion gwarchodedig.

**LHDTC+**

Yn cyfeirio at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, cwiar neu rai sy'n cwestiynu. Gellir ychwanegu llythrennau eraill at yr acronym i gynnwys grwpiau, cyfeiriadedd a hunaniaethau eraill, megis I (rhyngryw) ac A (anrhywiol/anrhamantus). Mae'r + (plws) yn yr acronym yn cael ei ddefnyddio fel llaw-fer i gynnwys a chydnabod termau amrywiol eraill y mae pobl yn uniaethu â nhw ac yn eu defnyddio i ddisgrifio eu hunaniaeth a'u cyfeiriadedd, gan gynnwys rhyngryw, anrhywiol ac anrhamantus.

**Dulliau cymysg**

Dulliau dadansoddol sy'n cyfuno dulliau meintiol ac ansoddol.

**Gwerthusiad proses**

Asesu sut a pham y mae polisi wedi cael ei weithredu fel y mae.

**Data ansoddol**

Mae data ansoddol yn canolbwyntio ar brofiad, a'r hyn y gellir arsylwi arno. Mae'n anrhifol ei natur ac yn aml yn fanwl.

**Data meintiol**

Gellir ffurfio data rhifiadol o unrhyw wybodaeth y gellir ei meintioli, gan gynnwys ystadegau.

# 5. Atodiad A: Adolygiad llenyddiaeth

5.1 Fel rhan o asesiad gwerthusadwyedd Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, cynhaliwyd adolygiad o strategaethau ac ymyriadau tebyg, tystiolaeth academaidd, a llenyddiaeth lwyd. Bydd canfyddiadau o'r llenyddiaeth hon yn bwydo'n uniongyrchol i'r Theori Newid ac yn sicrhau bod y fframweithiau gwerthuso a ddatblygir wedi'u seilio ar arfer gorau a'u llywio gan ymdrechion blaenorol i werthuso strategaethau ac ymyriadau LHDTC+. Rhennir yr adolygiad llenyddiaeth yn dri chategori: mae'r cyntaf yn asesu'r llenyddiaeth ar werthusiadau cymhleth a'u cymhwysedd i Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru; mae'r ail yn adolygu gwerthusiadau o gynlluniau aml-faes a strategaethau system gyfan i wella bywydau pobl LHDTC+; ac mae'r trydydd yn ystyried gwerthusiadau o ymyriadau penodol o fewn Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.

5.2 I grynhoi, roedd y llenyddiaeth ar werthusiadau cymhleth yn darparu mewnwelediadau a fydd yn llywio'r Theori Newid a'r Asesiad Gwerthusadwyedd a ddeilliodd o hynny. Datgelodd y gwaith o chwilio am werthusiadau o strategaethau tebyg enghreifftiau defnyddiol o Norwy a Sweden, lle defnyddiodd gwerthuswyr gyfweliadau, arolygon, a monitro confensiynol o gamau gweithredu i werthuso eu cynlluniau gweithredu LHDTC+ a phwysleisiodd bwysigrwydd Theori Newid ar gyfer gwerthusiad o’r fath. Yn olaf, rhoddodd y chwiliad am werthusiadau o ymyriadau tebyg i'r rhai yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru fewnwelediadau gwerthfawr o ran y ffordd orau o werthuso'r camau gweithredu o fewn y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Bydd y gwersi hyn yn llywio'r Banc Data a'r opsiynau gwerthuso arfaethedig.

5.3 Sylwer, er bod Cynllun Gweithredu LHDTC+ a’r asesiad gwerthuso hwn yn defnyddio’r term LHDTC+, mae rhywfaint o’r llenyddiaeth yn defnyddio termau eraill – fel LHDT, LHDTC, LHDTI, a LHDT+. Wrth gyfeirio at lenyddiaeth ac ystadegau, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r acronymau a ddefnyddir yn y ffynhonnell. Mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, defnyddir LHDTC+ yn unig.

### Theori gwerthusiadau cymhleth

5.4 Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yn cynnwys pedwar deg chwech o gamau gweithredu, ar draws naw thema. Mae llawer o’r gweithredoedd hyn yn gysylltiedig â’i gilydd, gan arwain at gysylltiadau achosol hir, ac maent yn ymdrin â thirwedd gyfnewidiol hawliau pobl LHDTC+, ansawdd bywyd, a chanlyniadau.

Felly, gellir ei chategoreiddio fel system gymhleth sydd angen gwerthusiad sy'n sensitif i gymhlethdod.

5.5 Mae systemau cymhleth yn cyfeirio at gysyniadau systemau cymdeithasol fel rhai sydd ag actorion lluosog, llinynnau achosol, a chanlyniadau, a hefyd maent yn systemau cynhenid ddeinamig (Rogers, 2008). Mae systemau cymhleth yn newid yn gyson, gyda rhai newidiadau yn ymddangos yn annisgwyl, yn aflinol, neu'n anghymesur (Glouberman a Zimmerman, 2002). Mewn rhai achosion, gall systemau cymhleth gael eu "nythu" o fewn ei gilydd, sy'n golygu y gall systemau cymhleth fodoli o fewn systemau cymhleth mwy (Byrne a Callaghan, 2014). Gellir ystyried y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn system "nythu" o fewn system ehangach o gynlluniau cyfiawnder cymdeithasol croestoriadol Llywodraeth Cymru – yn enwedig y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Llywodraeth Cymru, 2020).

5.6 Mae gwerthusiadau cymhleth yn ystyried ymyriadau o fewn systemau cymdeithasol cymhleth. Mae gweddill yr adran hon yn trafod cymhlethdod mewn gwerthusiadau. Mae'r ymyriadau hyn yn aml yn aml-ochrog ac amrywiol, gan geisio sicrhau newid mewn gwahanol rannau o system gymdeithasol ddeinamig.

5.7 Mae'r llenyddiaeth academaidd ar gymhlethdod mewn gwerthusiadau yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio Theori Newid wrth gysyniadu a gwerthuso ymyriadau polisi aml-faes o fewn systemau cymhleth (Dyson a Todd, 2010). Yn greiddiol iddo, mae Theori Newid yn egluro'r llwybr achosol sylfaenol rhwng ymyriad polisi a'i ganlyniad cymdeithasol dymunol, tra hefyd yn tynnu sylw at dybiaethau ar hyd y llwybr hwn y gellir eu profi wedyn trwy werthusiad (Chapman et al., 2023).

5.8 Dylai Theorïau Newid sy'n cynnwys ymyriadau cymhleth, megis Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, gydnabod rôl dylanwadau allanol wrth greu newid (Abercrombie *et al*., 2018; Mowles, 2014). Fel y mae Valters (2014) yn nodi, gall Theori Newid sefydliad gael ei thanseilio os yw'n awgrymu "bod newid mewn cymdeithas yn troi o'u cwmpas nhw a'u rhaglen, yn hytrach nag o amgylch ystod o ffactorau cyd-destunol rhyng-gysylltiedig, y mae eu rhaglen yn rhan ohonynt". Yng nghyd-destun y Cynllun Gweithredu LHDTC+, mae'r llenyddiaeth felly'n awgrymu y dylai ffactorau sy'n effeithio ar bobl LHDTC+ Cymru ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+, neu sydd fel arall yn cael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, gael eu cynrychioli'n glir yn y Theori Newid a'r testun cysylltiedig.

5.9 Mae'r potensial ar gyfer newidiadau nas rhagwelwyd a pharhaus o fewn system yn elfen hanfodol o systemau cymhleth (Ling, 2012). Gellir cynrychioli hyn drwy bwysleisio'r ansicrwydd sy'n gynhenid mewn gwerthusiadau cymhleth, yn y testun cysylltiedig, mewn diagram Theori Newid, neu drwy fap system (Wilkinson et al., 2021). Yn ôl eu natur, ni all newidiadau nas rhagwelwyd bob amser gael eu cynrychioli'n gywir mewn Theori Newid – gan greu Theorïau Newid sydd wedi dyddio, ac sydd felly angen eu diweddaru. Gall Theorïau Newid annog llunio polisïau sydd wedi dyddio os na chânt eu diweddaru pan fydd amgylchiadau ehangach yn newid yn ddramatig (Abercrombie et al., 2018). Yn y pen draw, wrth werthuso systemau cymhleth, efallai y bydd angen diweddaru'r Theori Newid rhwng yr ymyriad a'r gwerthusiad, rhwng asesiad gwerthusadwyedd a gwerthusiad, neu hyd yn oed yn ystod y gwerthusiad ei hun. Fel y dadleua Mason (2007: 159), "anaml y mae theorïau newid yn amlwg o ddechrau gwerthusiad, ac felly mae angen ailedrych arnynt".

5.10 Yn fwy ymarferol, mae'r llenyddiaeth academaidd ar werthusiadau sy'n seiliedig ar gymhlethdod yn awgrymu mai methodolegau cymysg – cyfuniad o dechnegau meintiol ac ansoddol – yw'r "ymateb rhesymegol" i ymyriadau cynyddol gymhleth a gofynion gwerthuso (Sanderson, 2000; Sanderson, 2003; Bristow et al., 2009). Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr asesiad gwerthusadwyedd hwn.

5.11 Gan symud y tu hwnt i theori academaidd, y canllaw awdurdodol ar gymhlethdod i ymarferwyr gwerthuso yw canllaw atodol Trysorlys EF i'r Llyfr Magenta, *Ymdrin â Chymhlethdod wrth Werthuso Polisi*. Mae'r canllaw yn nodi un ar ddeg o briodweddau systemau cymhleth: addasu, ymddangosiad a hunan-drefnu, effeithiau anuniongyrchol annisgwyl, adborth, liferi a hybiau anghymesur, aflinolrwydd, parthau sefydlogrwydd, pwyntiau tyngedfennol, dibyniaeth ar lwybrau, bod yn agored, ac y bydd systemau'n newid dros amser, waeth beth fo'r ymyriadau. Bydd yr asesiad gwerthusadwyedd yn ystyried holl briodweddau systemau cymhleth, ond bydd yr adolygiad hwn o lenyddiaeth yn amlygu pedair nodwedd arbennig o berthnasol a'u goblygiadau ar gyfer gwerthuso Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Y pedair nodwedd yw bod yn agored (neu systemau agored), adborth, effeithiau anuniongyrchol annisgwyl, a phwyntiau tyngedfennol.

- Mae **systemau agored** yn systemau gyda dolenni a chysylltiadau â'r amgylchedd ehangach, sy'n golygu y gall newidiadau allanol gael effeithiau pwerus o fewn y system. Mae system Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yn cael ei dylanwadu'n gryf gan ffactorau allanol, megis cynrychiolaeth

materion LHDTC+ mewn diwylliant ehangach a pholisïau Llywodraeth y DU mewn materion a gadwyd yn ôl. Dylai gwerthusiad o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru gydnabod hyn. Bydd yr asesiad gwerthuso hwn yn cydnabod bod yn agored trwy ei Theori Newid, gan nodi lle bydd dylanwadau allanol yn cael effaith arbennig o gryf. Mae'r canllaw atodol yn argymell mapio systemau fel dull o adnabod dylanwadau allanol wrth gynnal gwerthusiad.

- Mae **dolenni adborth** yn nodweddion nodedig eraill mewn systemau cymhleth. Mae'r rhain yn digwydd pan fydd canlyniadau un rhan o ymyriad aml-faes yn effeithio ar weithredu ymyriadau. Gallant wella effeithiolrwydd gweithredu ymyriad, ond gallant hefyd fod yn rhwystrau i roi ymyriadau ar waith yn effeithiol. Er enghraifft, yng nghyd-destun hawliau LHDTC+, gall ymyriad i gynyddu ymwybyddiaeth o bryderon LHDTC+ mewn gofal iechyd ragflaenu cwrs hyfforddi. Pe bai'r codi ymwybyddiaeth yn llwyddiannus, gallai'r cwrs hyfforddi fod yn fwy effeithiol gan fod cyfranogwyr eisoes yn gweld ei werth. Fodd bynnag, pe bai'r codi ymwybyddiaeth yn achosi adlach, gallai'r cwrs hyfforddi dilynol fod yn llai effeithiol oherwydd diffyg ewyllys da. Mae canllawiau Trysorlys EF yn argymell y dylid caniatáu digon o amser i ymyriadau gael eu rhoi ar waith ac i ddolenni adborth ddatblygu cyn dechrau gwerthuso effaith. Un ffordd o amlygu dolen adborth ddisgwyliedig i werthuswyr a gweithredwyr polisi yw mynegi dolenni adborth disgwyliedig ar ffurf diagram o fewn y Theori Newid (Davies, 2018; Desta Research, 2022).
- Caiff **effeithiau annisgwyl ac anuniongyrchol** eu hachosi gan gadwyni achosol hir o fewn systemau, sy’n golygu y gall ymyriad mewn un rhan o system gael effeithiau mewn mannau eraill. Yn ôl eu natur, mae'r rhain yn anodd eu rhagweld. Er enghraifft, mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yn cynnwys camau gweithredu sydd â’r nod o gynyddu cyfranogiad a derbyniad LHDTC+ mewn chwaraeon, a allai gynyddu hunanhyder cyfranogwyr LHDTC+, a chynyddu’r tebygolrwydd y bydd pobl LHDTC+ yn mynnu eu hawliau dynol. Mae hyn yn golygu y bydd ymyriad yn Thema G (Cyfranogiad ym mywyd Cymru: diwylliant a chwaraeon) yn effeithio ar y canlyniadau o fewn Thema A (Hawliau dynol a chydnabyddiaeth) y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae'r canllaw yn argymell mapio systemau i nodi effeithiau anuniongyrchol mewn systemau cymhleth.

- Mae **pwyntiau tyngedfennol** yn cyfeirio at systemau sy'n mynd trwy newid cyflym ar ôl cyfnod hirach o newid graddol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â dolenni adborth ac effeithiau anuniongyrchol anesboniadwy, oherwydd gall y prosesau annisgwyl hyn gynyddu cyflymder y newid yn sydyn. Er enghraifft, mewn perthynas â Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, gellid gweld hyn pan fo disgyblion LHDTC+ yn cael eu derbyn mewn ysgolion – lle cyrhaeddir pwynt tyngedfennol, pan fo labelau fel homoffobig, deuffobig, neu drawsffobig gydag arwyddocâd cymdeithasol mor negyddol fel nad yw disgyblion yn mynegi nac yn atgyfnerthu'r ymddygiad hyn. Mae'r canllaw yn awgrymu y gellir defnyddio modelau cyfrifiannol a rhagfynegol i ragfynegi ac adnabod effeithiau'r pwyntiau tyngedfennol. Pan nad yw hyn yn bosibl – efallai oherwydd diffyg data a chyfyngiadau cyllidebol – mae'r canllaw atodol yn nodi y gall dulliau hyblyg ac addasol o werthuso nodi pwyntiau tyngedfennol.

5.12 Tra'n canolbwyntio ar gyd-destunau gofal iechyd, gall canllawiau Cyngor Ymchwil Feddygol y DU (MRC) (2015) ar gyfer gwerthuso prosesau ymyriadau cymhleth lywio gwerthusiadau prosesau cymhleth yn ehangach. Cyn cynnal gwerthusiad proses, mae'r MRC yn argymell y dylai ymyriadau gael eu diffinio'n glir a thybiaethau achosol gael eu hegluro, megis drwy Theori Newid. Mae canllawiau'r Cyngor Ymchwil Feddygol hefyd yn awgrymu y dylai gwerthuswyr nodi gwerthusiadau proses blaenorol o ymyriadau tebyg ac ystyried a yw'n briodol ailadrodd agweddau arnynt ac adeiladu ar eu canfyddiadau. Mae adran ganlynol yr adroddiad hwn yn ystyried sut y gwerthuswyd strategaethau LHDTC+ aml-faes ac a ellir dysgu unrhyw wersi ohonynt.

**Gwerthusiadau o strategaethau LHDTC+ aml-faes**

5.13 Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth o werthusiadau o gynlluniau gweithredu LHDTC+ aml-faes tebyg mewn gwledydd eraill. Y rhesymeg dros y chwiliad hwn oedd darganfod mewnwelediadau ar arferion gorau yn y maes polisi ac addasrwydd gwahanol ddulliau methodolegol o werthuso cynlluniau gweithredu LHDTC+.

5.14 Dechreuwyd gyda chwiliad am werthusiadau o gynlluniau gweithredu LHDTC+ mewn gwledydd Saesneg eu hiaith, ond ni chanfuwyd unrhyw werthusiadau ffurfiol. Yna chwiliwyd yn systematig am werthusiadau o gynlluniau gweithredu LHDTC+ mewn amrywiaeth o ieithoedd Ewropeaidd, cyn cyfieithu cynlluniau gweithredu a'u gwerthusiadau i'r Saesneg a gwirio synnwyr y cyfieithiadau gyda

siaradwyr brodorol. Dim ond yn Norwy y cafwyd gwerthusiadau ffurfiol sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae dwy brif risg o ran defnyddio'r dull hwn. Y cyntaf yw y gallai adroddiadau gael eu cam-gyfieithu. Cafodd hyn ei liniaru gan y ffaith bod y cyfieithiadau o werthusiadau yn cael eu gwirio gan siaradwyr rhugl. Yr ail risg yw na ddatgelodd termau chwilio a gyfieithwyd yr holl werthusiadau LHDTC+ oedd ar gael ym mhob iaith; mae hyn oherwydd y gall gwledydd eraill ddefnyddio termau anghyfarwydd neu gyfieithu'n wael i'r Saesneg. Cafodd hyn ei liniaru cymaint â phosibl gan strategaeth chwilio a oedd yn cynnwys amrywiaeth o eiriau allweddol, ond ni ellir gwarantu lliniaru llawn.

5.15 Gwelir yr enghreifftiau mwyaf perthnasol o werthusiadau cynllun gweithredu LHDTC+ yn Norwy. Mae Llywodraeth Norwy (2008) yn nodi mai ei chynllun gweithredu ar gyfer 2009-12, *Gwella ansawdd bywyd ymhlith lesbiaid, hoywon, pobl ddeurywiol a phobl drawsryweddol*, oedd y cynllun gweithredu LHDT cyntaf yn y byd (Norwegian Directorate for Children, Youth and Family Affairs, 2013). Prif amcanion datganedig cynllun 2009-12 oedd rhoi terfyn ar wahaniaethu yn erbyn y gymuned LHDT a gwella ansawdd bywyd LHDT yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid oedd yn darparu meini prawf penodol, mesuradwy, nac amser penodol i fesur llwyddiant. Y mecanwaith craidd i fynd i'r afael â gwahaniaethu LHDT a gynigiwyd yn y cynllun gweithredu oedd prif ffrydio safbwyntiau LHDT ledled llywodraeth Norwy. Roedd y cynllun hefyd yn cynnig newidiadau polisi mwy penodol a chanolfan ymchwil LHDT (LHBT-senteret), a sefydlwyd o fewn Cyfarwyddiaeth Norwy ar gyfer Materion Plant, Ieuenctid a Theuluoedd. Y gyfarwyddiaeth hon a gynhaliodd y gwerthusiad mewnol o'r cynllun gweithredu (Norwegian Directorate for Children, Youth and Family Affairs, 2013).

5.16 Gwerthusiad proses yn bennaf yw gwerthusiad cynllun gweithredu 2009-12, ond mae hefyd yn gosod nod o asesu effeithiolrwydd mesurau yn y cynllun lle bo modd. Mae’r gwerthusiad yn dadlau nad oedd prif amcan y cynllun o roi terfyn ar wahaniaethu LHDT yn Norwy “yn realistig” o fewn y ffrâm amser o bedair blynedd a’i fod yn “ymddangos yn debycach i weledigaeth i anelu ati, na nod y mae modd ei gyrraedd.” Oherwydd hyn, mae'r gwerthusiad yn bennaf yn gwerthuso gweithrediad yr uchelgais i brif ffrydio safbwyntiau LHDT o fewn Llywodraeth Norwy. Roedd y Gyfarwyddiaeth yn monitro cynnydd camau gweithredu penodol o fewn y cynllun yn uniongyrchol trwy ddiweddariadau statws ac ymchwil desg, gan ganfod yn gyffredinol bod ymyriadau penodol yn cael eu rhoi ar waith yn dda ond

nad oedd addewidion a chamau gweithredu mwy amwys yn cael eu rhoi ar waith mor aml.

5.17 Conglfaen y gwerthusiad hwn oedd arolwg o gyflogeion yng ngweinidogaethau Llywodraeth Norwy. Dim ond deunaw o ymatebion a gafodd yr arolwg, pob un gan weinidogaethau a oedd eisoes yn ymwneud yn weithredol â materion LHDT. Gan amlygu llwyddiant cyfyngedig prif ffrydio safbwyntiau a materion LHDT ledled y llywodraeth, nid oedd hyd yn oed yr holl weinidogaethau hyn wedi prif ffrydio safbwyntiau LHDT yn eu gwaith. Dywedodd pedair o'r deunaw gweinidogaeth nad oedd y cynllun yn berthnasol i'w gweinidogaethau ac roedd naw o'r farn nad oedd y cynllun yn berthnasol i asiantaethau bwrdeistrefol a sirol. Mae hyn yn gwrth-ddweud y weledigaeth o roi ystyriaeth i safbwyntiau LHDT ar draws y llywodraeth ac ar bob lefel. Llywiwyd y gwerthusiad hefyd gan un drafodaeth bord gron a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau LHDTC+.

5.18 Er bod cwmpas a gwaith maes y gwerthusiad yn gymharol gyfyngedig, prif ganfyddiadau'r gwerthusiad oedd bod gwelliannau wedi digwydd, yn fwyaf nodedig yn ymateb yr heddlu i droseddau casineb yn erbyn LHDT, ond nad oedd prif amcan prif ffrydio LHDT wedi llwyddo'n llawn. Roedd hefyd yn dadlau bod diffyg casglu data ystadegol ac adrodd i sefydliad monitro wedi tanseilio'r broses o roi'r cynllun gweithredu ar waith, a'r broses o'i werthuso. Galwodd am gynllun gweithredu newydd i barhau â'r gwaith o gydraddoldeb LHDT.

5.19 Roedd ail gynllun gweithredu LHDT Llywodraeth Norwy yn weithredol rhwng 2017 a 2020 (Norwegian Government, 2016). Roedd gan yr ail gynllun gweithredu nodau mwy targededig na'i ragflaenydd, yn arbennig heb gynnwys yr ymrwymiad eang amwys – a feirniadwyd yng ngwerthusiad 2013 – i ddod â rhagfarn gwrth-LHDT i ben yn gyfan gwbl o fewn oes y cynllun gweithredu.

5.20 Gwerthuswyd ail gynllun gweithredu LHDT Norwy gan Proba Samfunnanalyse trwy ddau adroddiad. Roedd yr adroddiad cyntaf, gwerthusiad proses a gyhoeddwyd yn 2020, yn seiliedig ar gyfweliadau ag wyth cynrychiolydd o weinidogaethau, wyth cynrychiolydd o gyfarwyddiaethau, pedwar cynrychiolydd cymdeithas sifil, a chyfweliad ag Ombwdsmon Cydraddoldeb a Gwahaniaethu yn Norwy (Proba Samfunnanalyse, 2021). Nid oedd tystiolaeth o ddadansoddiad systematig o'r cyfweliadau hyn. Roedd ail adroddiad Proba Samfunnanalyse (2021a), a gyhoeddwyd yn 2021, yn defnyddio'n bennaf ymchwil a chyfweliadau a gwblhawyd yn flaenorol. Nid oedd yn cynnwys Theori Newid, nac yn egluro tybiaethau achosol, gan awgrymu yn lle hynny y dylid cynnwys un fel rhan o

gynllun gweithredu nesaf LHDTC+ Norwy. Datgelodd y gwerthusiad fod diffyg targedau mesuradwy, amser-benodol wedi tanseilio cynllun gweithredu Norwy ar gyfer 2016-2020. Ymhellach, dadleuodd llawer o'r cyfweleion mai ymrwymiadau aml-adrannol oedd methiant mwyaf y cynllun gweithredu, oherwydd bod diffyg perchnogion camau gweithredu penodol wedi arwain at “chwalu cyfrifoldeb yn chwilfriw”. Mae cynllun gweithredu LHDTC+ Norwyaidd newydd mewn grym ar hyn o bryd, gyda gweinidogaethau penodol wedi'u henwi fel rhai sy'n gyfrifol am bob ymyriad, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o Theori Newid.

5.21 Y tu hwnt i Norwy, mae gwerthusiadau o gynlluniau gweithredu LHDTC+ yn fwy cyfyngedig. Er enghraifft, nid yw Llywodraeth y DU (2019), Llywodraeth Iwerddon (2019), Llywodraeth Malta (2023), Senedd Gwlad yr Iâ (2022), a Llywodraeth Gwlad Groeg (2022) ond yn gwneud diweddariadau monitro cyhoeddus neu adroddiadau cynnydd ar weithredu eu cynlluniau gweithredu, heb unrhyw dystiolaeth o werthusiadau ffurfiol na Theorïau Newid ar gyfer eu cynlluniau gweithredu LHDTC+. Mewn rhai achosion, yn enwedig Rhaglen Weithredu Gwlad yr Iâ 2022-2025, dibynnir ar fap Enfys ILGA-Ewrop i fonitro llwyddiant ac effaith cynlluniau gweithredu LHDTC+.

5.22 Mae asiantaeth gorfforaeth datblygu rhyngwladol Llywodraeth Sweden – Sida – wedi gwerthuso gweithrediad ei chynllun gweithredu LHDT 2007-09 ei hun (Sida, 2006; 2010). Mae'r cynllun hwn yn pwysleisio'n bennaf ddefnyddio cymorth a diplomyddiaeth i hyrwyddo hawliau LHDTC+ dramor. Yn yr un modd â gwerthusiadau Norwy, defnyddiodd gwerthusiad Sida hefyd gyfweliadau â staff allweddol o fewn Sida, gan gynnwys pedwar o bob chwe rheolwr. Bu hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp a chyfweliadau gyda gweithgor allanol o gynrychiolwyr sefydliadau LHDTC+. Yn olaf, anfonodd Sida holiadur at staff mewn gwledydd tramor, a chafwyd ymateb gan 87% o wledydd partner Sida. Yn gyffredinol, defnyddiodd y gwerthusiad hwn ddulliau tebyg i enghreifftiau Norwy, ond mae'n llai uniongyrchol berthnasol oherwydd cwmpas culach Sida o'i gymharu â llywodraeth genedlaethol.

5.23 Prif ganfyddiad yr adran hon yw mai prin yw tystiolaeth o werthusiadau cyfannol a chynhwysfawr o strategaethau perthnasol. Er bod cynlluniau gweithredu LHDTC+ yn gymharol gyffredin ledled Ewrop, nid oes gan y mwyafrif helaeth werthusiadau ffurfiol sydd ar gael i'r cyhoedd. Wedi dweud hyn, mae gwersi i'w dysgu o'r gwerthusiadau Norwyaidd a Sweden a drafodwyd uchod.

5.24 I gloi’r adolygiad hwn o werthusiadau o gynlluniau gweithredu LHDTC+ aml-faes, nid yw mwyafrif helaeth y cynlluniau gweithredu LHDTC+ rhyngwladol yn destun gwerthusiadau ffurfiol sydd ar gael i’r cyhoedd. Os na chaiff cynlluniau eu gwerthuso'n ffurfiol, maent yn dueddol o gael eu harfarnu drwy gyfeirio at weithredu camau gweithredu a map Enfys ILGA-Ewrop, sy'n rhestru statws cyfreithiol a pholisi pobl LHDTC+ mewn gwledydd Ewropeaidd. Fodd bynnag, er bod trafodaethau'n parhau, nid yw Cymru wedi'i chynnwys ar hyn o bryd ar Fap Enfys ILGA-Ewrop. Yn ogystal, mae'r gwerthusiadau a drafodwyd uchod yn canolbwyntio'n bennaf ar farn swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi. Arweiniodd hyn at y canfyddiad pwysig yng ngwerthusiad Cyfarwyddiaeth Norwy ar gyfer Materion Plant, Ieuenctid a Theuluoedd o Gynllun Gweithredu LHDT Norwy 2009-2013 (2013) fod lleiafrif cryf o weinidogaethau Llywodraeth Norwy yn credu nad oedd y cynllun yn berthnasol i’w gweinidogaethau. Mae hyn er gwaethaf ymgais y cynllun i “brif ffrydio” materion LHDT ar draws Norwy ac ar draws y llywodraeth gyfan. Gwnaethpwyd y canfyddiad hwn drwy arolwg o weinidogaethau, a oedd yn awgrymu y gellid defnyddio arolygon o uwch swyddogion yn adrannau Llywodraeth Cymru i ganfod i ba raddau y mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cael ei flaenoriaethu a’i weld yn berthnasol o fewn Llywodraeth Cymru. Yn unol â chanllawiau'r Llyfr Magenta (Tasglu a Gwerthuso Trysorlys EF, 2020, t. 17), ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â chymunedau, credwn hefyd y dylai gwerthusiad Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru ymgysylltu’n eang â’r gymuned LHDTC+ i adlewyrchu'r profiadau yn wirioneddol a phennu effeithiau'r cynllun.

**Gwerthusiadau o ymyriadau yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru**

5.25 Gan gydnabod y nifer cymharol gyfyngedig o werthusiadau o gynlluniau gweithredu LHDTC+ aml-faes, mae'n werth ystyried sut mae'r ymyriadau penodol yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru wedi'u gwerthuso mewn mannau eraill. Mae'r is-adran hon felly yn ystyried gwerthusiadau presennol o ymyriadau tebyg i'r rhai a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Nid yw'n ceisio darparu trosolwg o “beth sy'n gweithio” mewn perthynas â pholisïau LHDTC+. Pan nodir gwerthusiadau, mae'r adolygiad hwn yn adrodd yn bennaf ar eu dulliau methodolegol. Lle nad oes gwerthusiadau ar gael, bydd canllawiau ar arfer gorau yn cael eu hystyried. Mae'r is-adran wedi'i strwythuro yn unol â strwythur thematig Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.

### Hawliau dynol a chydnabyddiaeth

5.26 Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnig rhannu adnoddau a phecynnau cymorth i gynyddu dealltwriaeth o hawliau dynol LHDTC+ ymhlith y cyhoedd yng Nghymru a phoblogaeth LHDTC+ Cymru. Er nad oedd unrhyw werthusiadau o’r ymyriad penodol hwn o ran hawliau LHDTC+ ar gael, mae Swyddfa Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Hawliau Dynol (2020) wedi cyhoeddi canllawiau ar ddatblygu dangosyddion i werthuso effaith addysg hawliau dynol. Mae'n galw ar i werthusiadau ystyried canlyniadau uniongyrchol, canolraddol a rhai sydd yn y pen draw yn deillio o raglenni hyfforddi. Mae hefyd yn dadlau y dylai datganiadau canlyniadau fod mor GAMPUS â phosibl (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Penodol, Synhwyrol, Uchelgeisiol).

5.27 Nid oes unrhyw werthusiadau ar gael o ymgyrchoedd i amlygu niwed therapi trosi neu fesurau i'w wahardd. Canfu asesiad tystiolaeth a gomisiynwyd gan Swyddfa Cydraddoldebau Llywodraeth y DU fod bwlch yn y dystiolaeth ynghylch effaith mesurau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol i atal arferion trosi (Jowett et al., 2021). Fodd bynnag, mae'n nodi mai gan ddinas Edmonton yng Nghanada a rhanbarthau Sbaen, sef Andalusia, Aragon, Madrid a Valencia, y mae'r gwaharddiadau mwyaf hollgynhwysol a chynhwysfawr ar adeg cyhoeddi, a fesurwyd yn ôl y cosbau am dorri'r cyfreithiau hyn. Mae hyn yn awgrymu y gellir cymharu gwaharddiadau therapi trosi trwy gymharu eu cosbau a'u sancsiynau. Gellid defnyddio'r dull hwn mewn gwerthusiad o’r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

5.28 Mae'r Cynllun Gweithredu yn galw ar i Gymru weithio gyda chenhedloedd neu sefydliadau rhynglywodraethol eraill i wella bywydau pobl LHDTC+ ar draws y byd. Mae dau werthusiad mawr o ymgyrchoedd penodol i wella hawliau LHDTC+ yn rhyngwladol. Y cyntaf i’w drafod yw ymgyrch ‘Rhydd a Chyfartal’ y Cenhedloedd Unedig, sy’n anelu at wella hawliau LHDTC+ a derbyniad mewn gwledydd lle mae cyfleoedd newydd yn dod i’r amlwg i hyrwyddo hawliau pobl LHDTC+. Roedd gwerthusiad yr ymgyrch hon yn cynnwys 89 o gyfweliadau, yn bennaf yn y pum gwlad astudiaeth achos, sef Brasil, Cabo Verde, Mongolia, a Serbia (Barcia a Kagumire, 2021). Defnyddiodd hefyd arolwg o staff o fewn yr ONHCR ac un arall ym mhob gwlad yr ymyrrodd yr ymgyrch ynddi. Roedd yr amrywiaeth o dechnegau ymgyrchu a nodau penodol yn y gwledydd a dargedwyd, heb unrhyw set o dargedau ar y cyd, yn gwneud gwerthuso yn heriol. Serch hynny, pwysleisiodd y gwerthusiad “bŵer cynnull” y Cenhedloedd Unedig i hyrwyddo cydweithredu rhwng sefydliadau LHDTC + a gallu'r Cenhedloedd Unedig i gyfreithloni sefydliadau

LHDTC + wrth ddarparu cefnogaeth foesol i weithredwyr dan warchae mewn amgylcheddau heriol.

5.29 Mae’r ail werthusiad mawr o ymgyrchoedd i hyrwyddo hawliau LHDTC+ dramor i’w weld yng ngwerthusiad Asiantaeth Cydweithrediad Datblygu Rhyngwladol Sweden (Sida) o ddau brosiect i gefnogi lleisiau ac actifiaeth LHDT yn y De a’r Dwyrain Byd-eang (Sida, 2010). Diffiniwyd llwyddiant fel hyfforddi ‘Arweinwyr Enfys’ i allu arwain a chynnal sefydliadau sy’n ymgyrchu dros eiriolaeth LHDT lleol a rhyngwladol a bod gan y sefydliadau hyn yr adnoddau a’r gallu i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd hawliau dynol hirdymor llwyddiannus. Defnyddiodd gwerthusiad annibynnol y dull arolwg gyda 30 o’r 120 o unigolion a ymgymerodd â hyfforddiant ‘Arweinwyr Enfys’, a chyfweliadau â deg o ‘Arweinwyr Enfys’ a 25 o unigolion mewn asiantaethau datblygu tramor a rhyngwladol. Mae'r gwerthusiad hefyd yn cydnabod y risg bod y rhai nad ymatebodd ymhlith y mwyaf anfodlon. Nododd hefyd fod llawer o ‘Arweinwyr Enfys’ wedi cael hyfforddiant ac ymyriadau eraill ochr yn ochr â’r ymyriad a ariannwyd gan Sida, a allai effeithio ar y canlyniadau. Ar y cyfan, roedd canlyniadau’r arolwg yn hynod gadarnhaol, a barnwyd bod y rhaglen yn llwyddiant – ond unwaith eto, amlygir anawsterau gwerthuso rhaglenni rhyngwladol i hyrwyddo hawliau LHDTC+.

**Diogelwch a rhyddid rhag gwahaniaethu**

5.30 Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn galw am gasglu tystiolaeth ynghylch adrodd am droseddau casineb. Astudiodd Chakraborti a Hardy (2015) y rhwystrau a wynebir gan bobl LHDT wrth adrodd am droseddau casineb yn Swydd Gaerlŷr, gan ganfod mai normaleiddio wynebu troseddau casineb a diffyg ffydd yn ymatebion yr heddlu oedd y prif rwystrau i adrodd am droseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Mae'r atebion a gynigir yn amrywiol ond yn cynnwys hyfforddiant i swyddogion heddlu, gwell defnydd o ganolfannau adrodd trydydd parti, ac ymgysylltiad yr heddlu â'r gymuned LHDT. Roedd y fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth hon yn ansoddol ei natur, yn canolbwyntio ar 50 o gyfweliadau gyda phobl LHDT yn Swydd Gaerhirfryn, wedi'u recriwtio drwy ddefnyddio sefydliadau ac yn fwy uniongyrchol trwy gaffis, bariau, a grwpiau cymunedol. Roedd hyn yn lleihau’r tebygolrwydd o recriwtio cyfranogwyr a oedd eisoes mewn swyddi o fewn sefydliadau LHDTC+ yn unig, a gellir dadlau ei fod yn arwydd o symud i ffwrdd o gyfweld cynrychiolwyr ac arweinwyr ffigurau’r gymuned LHDTC+ i gynrychiolaeth fwy cytbwys o bobl LHDTC+.

5.31 Wrth ystyried mesurau i fynd i'r afael â throseddau casineb, mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn galw am lansio fersiwn ddiwygiedig o ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru. Mae'r ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus hon yn cynnwys clipiau cyfryngau cymdeithasol, erthyglau papur newydd, ac yn y blaen – y cyfan gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei ddosbarthu fel trosedd casineb, pwysigrwydd adrodd am droseddau casineb, a beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am droseddau casineb. Mae'r ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus hon yn cynnwys postiadau cyfryngau cymdeithasol, erthyglau papur newydd, a hysbysebion fideo. Nid yw gwerthusiad neu fonitro'r ymgyrch hon ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae Cais Rhyddid Gwybodaeth cyhoeddedig yn datgelu, ar ôl ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru 2021/22, bod canran y bobl yng Nghymru a fyddai'n "debygol" o adrodd am drosedd casineb yr oeddent wedi ei gweld yn digwydd wedi cynyddu 2%, o 76% (2021) i 78% (2022) mewn polau piniwn (Llywodraeth Cymru, 2023). Yn ogystal, ac er nad yw hyn o reidrwydd yn golygu mai'r gyfradd adrodd uwch o gynnydd mewn troseddau casineb sydd wrth wraidd hyn, cynyddodd cyfanswm nifer y galwadau i Gymorth i Ddioddefwyr yn ystod cyfnod yr ymgyrch +242%, o 173 o alwadau (2021) i 591 (2022). Gwerthuswyd ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus debyg iawn gan Lywodraeth yr Alban yn ffurfiol yn 2019, gyda phôl piniwn yn canfod bod 54% o ymatebwyr yr Alban yn ymwybodol o'r ymgyrch ar ôl cael eu hannog, a chynyddodd y gyfran o bobl a gytunodd "ei bod yn bwysig adrodd am droseddau casineb er mwyn lleihau'r hyn sy'n digwydd" o 80% i 83% (Llywodraeth yr Alban, 2019). Yn gyffredinol, ceir tystiolaeth y gall ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus wneud gwahaniaeth cymedrol o ran codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chynyddu'r tebygolrwydd o adrodd amdanynt. Gellir eu gwerthuso trwy fonitro'r defnydd o wasanaethau adrodd am droseddau casineb neu drwy arolygon barn y cyhoedd, er oherwydd anawsterau samplu nifer ddigonol o'r gymuned LHDTC+, nid yw arolygon o'r fath fel arfer yn gallu rhoi dadansoddiad yn ôl cyfeiriadedd rhywiol na hunaniaeth rhywedd.

5.32 Mae gwella perthynas cymunedau LHDTC+ â Phlismona yng Nghymru yn gam gweithredu arall a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Nid oes unrhyw werthusiadau o weithgareddau cysylltiedig a ddisgrifir yn y cynllun, ond mae'r llenyddiaeth ar hyfforddiant yr heddlu ar faterion LHDTC+ yn berthnasol. Gan ddefnyddio arolwg hunanasesu cyn ac ar ôl sesiwn hyfforddi pum awr LHDTC+ yn UDA, cafodd swyddogion heddlu sgôr a oedd yn dangos eu bod ychydig yn fwy

ymwybodol a thosturiol tuag at bobl LHDTC+ (Israel et al., 2014). Ar raddfa 1-7, yn cyfuno cwestiynau fel "Byddwn yn trin arestai LHDTC yn barchus" a "Byddwn yn ymyrryd pe bawn yn clywed personél gorfodi'r gyfraith yn gwneud sylw gwrth-LHDTC", cynyddodd y sgôr gymedrig o 5.09 i 5.26. Defnyddiodd yr astudiaeth hon holiadur hunanasesu, nad yw efallai'n adlewyrchu'n gywir brofiadau pobl LHDTC+ sy'n ymgysylltu â'r heddlu a fynychodd y sesiwn hyfforddi. Yn ogystal, roedd gan yr arolwg gyfraddau gadael uchel rhwng asesiadau cyn-ymyriad ac ôl-ymyriad. Mae hyn yn awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i fesurau lliniaru wrth ddefnyddio arolygon ac offer hunanasesu fel rhan o ddulliau 'cyn ac ar ôl'. Yn y pen draw, canfu'r adolygiad llenyddiaeth ddiffyg tystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriadau i wella'r berthynas rhwng yr heddlu a chymuned LHDTC+.

5.33 Mae'r cynllun yn galw am weithredu yn erbyn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ymhlith cymunedau LHDTC+. Yn 2014, comisiynwyd astudiaeth gan Lywodraeth Cymru o'r rhwystrau y mae pobl LHDT yn eu hwynebu o ran cael mynediad at Wasanaethau Cam-drin Domestig, Stelcio, Aflonyddu a Thrais Rhywiol yng Nghymru (Ymchwil Cymdeithasol NatCen, 2014). Roedd y fethodoleg yn cynnwys adolygiad tystiolaeth pen desg, deunaw o gyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol, ac arolwg gydag ymatebion gan 34 o bobl LHDT sy'n byw yng Nghymru. Canfuwyd bod gwasanaethau "yn bennaf yn canolbwyntio ar fenywod cis heterorywiol, ac felly yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel rhai nad ydynt yn ymateb i anghenion penodol pobl LHDT." Roedd yr adroddiad yn galw am werthusiadau yn y dyfodol i ystyried lefel yr atgyfeiriadau LHDT i linell gymorth Trais Domestig a Rhywiol Cymru Gyfan fel mesur o newid o ran mynediad pobl LHDT at wasanaethau priodol. Galwodd hefyd am fonitro profiadau traws a'r defnydd o linellau cymorth.

5.34 Mae'r Cynllun Gweithredu yn ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd yn cynnwys anghenion penodol pobl LHDTC+. Yn benodol, mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r llenyddiaeth ehangach yn cydnabod bod digartrefedd ieuenctid LHDTC+ yn her yng Nghymru (Llamau, 2019). Un arloesiad mawr yn y maes polisi hwn fu sefydlu Tŷ Pride - cynllun tai â chymorth 24 awr ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed sy'n nodi eu bod yn LHDTC+ ac sy'n profi, neu mewn perygl o brofi, digartrefedd. Mewn adroddiad ar y cynllun, llwyddiant mwyaf y cynllun oedd bod pob un o'r deg person ifanc a gafodd gymorth yn Nhŷ Pride naill ai wedi mynd symud ymlaen i fyw'n annibynnol neu wedi mynd yn ôl i fyw gyda'u teuluoedd yn llwyddiannus (End Youth Homelessness Cymru, 2022). Gallai'r adroddiad hwn – a

gwaith monitro a gwerthuso sydd ar y gweill o Dŷ Pride ac unrhyw gynlluniau tebyg a allai godi – lywio’r gwerthusiad o’r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

5.35 Mae'r dystiolaeth bod gwasanaethau digartrefedd yn gallu ymyrryd yn effeithiol i wella iechyd meddwl a chyflyrau pobl ifanc LHDTC+ yn gymharol gadarn. Defnyddiodd Grafsky et al. (2011) hap-dreial rheoledig i werthuso effaith darparu 12 sesiwn therapi i bobl ifanc ddigartref yn Albuquerque, UDA rhwng 2001 a 2005. Nododd 52 o gyfranogwyr eu bod yn hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol (HLD) a 205 yn heterorywiol. Roedd ieuenctid HLD cyn-ymyriad yn fwy tebygol o ddioddef o iselder a chamddefnyddio sylweddau nag ieuenctid nad oeddent yn HLD, ond roedd effaith therapi yn llawer mwy i ieuenctid HLD nag ieuenctid nad oeddent yn HLD. Fodd bynnag, mae'r awduron yn nodi bod maint sampl ieuenctid LHDTC+ yn llawer llai na'u cymheiriaid heterorywiol, ac maent yn cydnabod bod hyn yn cyfyngu ar y gwerthusiad. Mae gwerthusiad arall o ymyriad i gynorthwyo pobl ifanc ddigartref LHDTC+ a chynghreiriaid yn UDA yn berthnasol (Powell et al., 2016). Nod yr ymyriad “iTEAM” hwn yn Arizona oedd gwella iechyd meddwl, mynediad at dai, cyrhaeddiad addysgol, cyflogaeth, ac atal a thrin HIV. Roedd yn cynnwys canolfan galw heibio i bobl ifanc LHDTCA, a oedd yn darparu cwnsela a lleoliad cymunedol anffurfiol, dau ddarparwr tai yn y gymuned, a gwasanaeth profi ac addysg AIDS ar wahân. Cafodd 210 o bobl ifanc LHDTCA eu cyfweld cyn ac ar ôl i’r gwasanaethau “iTEAM” ddod ar gael. Canfuwyd gwelliannau ystadegol arwyddocaol mewn iechyd meddwl a gostyngiadau mewn digartrefedd a straen tai, gyda’r olaf yn gostwng o 52.5% o gyfranogwyr a oedd yn profi straen tai cyn yr ymyriad i 31.8% ar ôl yr ymyriad. Fodd bynnag, mae'r awduron yn cydnabod bod diffyg grŵp rheoli yn gyfyngiad ar y gwerthusiad hwn. Maent hefyd yn nodi bod y ddibyniaeth ar ddata hunan-gofnodedig yn cyfyngu ar ddilysrwydd y gwerthusiad. Felly, mae’r achosion hyn yn awgrymu y gall gwerthusiadau o ddigartrefedd ieuenctid LHDTC+ gael eu hatgyfnerthu trwy wneud defnydd cyson o grwpiau rheoli, defnyddio amrywiaeth gynyddol o ddulliau adrodd data, a meintiau sampl mwy o bobl ifanc LHDTC+ sy'n ddigartref.

**Cenedl noddfa i geiswyr lloches a ffoaduriaid**

5.36 Nid oedd unrhyw werthusiadau ar gael o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau penodol yn y thema hon o’r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae astudiaethau'n tueddu i ganolbwyntio ar werthuso ymyriadau sydd wedi'u targedu at geiswyr lloches a ffoaduriaid yn eu cyfanrwydd.

### Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant

5.37 Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys llawer o fesurau i wella profiadau gweithwyr LHDTC+ a defnyddwyr gwasanaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Gall fod yn heriol gwerthuso effaith yr ymyriadau hyn. Er bod Arolwg Staff GIG Cymru 2018 yn cynnwys cwestiynau ar hunaniaeth LHDTC+ a chwestiynau eang ynghylch boddhad swydd, profiadau, a bwlio ac aflonyddu, nid yw'r adroddiad sydd ar gael i'r cyhoedd yn dadansoddi canlyniadau yn ôl cyfeiriadedd rhywiol na hunaniaeth rhywedd (GIG Cymru, 2018). Gellir edrych ar Arolwg Staff GIG Lloegr (2022) yn ôl cyfeiriadedd rhywiol. Maent hefyd yn gofyn p'un a brofodd staff wahaniaethu yn ystod y 12 mis blaenorol ac a ydynt yn credu bod hyn oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.

5.38 Mae adolygiad systematig o dystiolaeth o ddeunyddiau addysgol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn materion LHDTC+ yn awgrymu bod ymyriadau yn effeithiol i fynd i'r afael ag agweddau ac ymddygiad negyddol tuag at bobl LHDTC+ os ydynt yn cynnwys rhyngweithio uniongyrchol rhwng staff heterorywiol a chyfoed neu ddarlithydd LHDTC+ y maent eisoes yn ei adnabod, ac nad yw llawer o'r ymyriadau cwbl addysgol heb ryngweithio personol yn effeithiol (Hunt et al., 2019). Mae hyn yn awgrymu y gellid defnyddio mesur lefel y personoli mewn hyfforddiant LHDTC+ mewn gwerthusiad o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.

5.39 Mae diffyg tystiolaeth ynghylch gwerthuso ymyriadau i wella profiad staff a defnyddwyr gwasanaethau LHDTC+ ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae ymchwil yn pwysleisio deall profiad pobl LHDTC+ mewn gofal cymdeithasol yn hytrach nag effeithiolrwydd ymyriadau i wella'r profiadau hyn. Fodd bynnag, bydd tîm ymchwil a arweinir gan Brifysgol Birmingham (d.d.) yn dechrau cyhoeddi allbynnau ymchwil yn fuan o'r Asesiad Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn LHDTC+. Bydd yn gwerthuso sut mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr yn ymgysylltu â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd trwy gynnal arolwg a chyfweld gweithwyr ac oedolion hŷn LHDTC+ sydd â phrofiad o ofal cymdeithasol, gan archwilio deunyddiau hyfforddi, ac ystyried tystiolaeth feintiol.

### Addysg gynhwysol

5.40 Mae’r llenyddiaeth ar gynwysoldeb LHDTC+ mewn addysg yn tueddu i ganolbwyntio ar atal bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig (HD&T). Roedd gwerthusiad o wyth ymyriad i atal bwlio HD&T mewn ysgolion yn Lloegr gan Mitchell et al. (2016) yn cynnwys arolygon ansoddol cyn ac ar ôl ymyriadau. Cynhaliwyd rhai o'r arolygon dilynol yn syth ar ôl hyfforddiant, tra bod eraill wedi eu cynnal wythnosau neu fisoedd ar ôl yr ymyriad. At ei gilydd, arolygwyd 850 o staff ysgol a 2,407 o ddisgyblion ar y llinell sylfaen, ac ar ôl yr ymyriadau. Roedd arolygon o ddisgyblion bob amser yn cael eu cynnal yn bersonol ac ar bapur, tra bod arolygon o athrawon yn amrywio, ond ar-lein yn bennaf. Gwnaed yr holl arolygon dilynol o athrawon ar-lein. Nododd y gwerthusiad nifer o gyfyngiadau, yn fwyaf nodedig bod y gwahaniaethau rhwng arolygon cyn-ymyriad ac ôl-ymyriad yn golygu na ellid mesur effaith. Awgrymir bod unffurfiaeth arolygon cyn ac ar ôl ymyriadau, yn ogystal â cheisio sicrhau bod yr un cyfranogwyr yn cymryd y ddau arolwg, yn ffordd ymlaen. Yn y pen draw, canfyddiad allweddol y gwerthusiad oedd ei bod yn ymddangos bod hyfforddi athrawon mewn sesiynau undydd pwrpasol yn effeithiol iawn o ran cynyddu hyder i herio bwlio HD&T, ond bod newid agweddau disgyblion yn fwy heriol.

5.41 Er bod llenyddiaeth ar arferion gorau wrth gefnogi myfyrwyr LHDTC+ mewn prifysgolion (Smithies a Byrom, 2018), ni chanfuwyd unrhyw werthusiadau ffurfiol sydd ar gael yn gyhoeddus o ymyriadau perthnasol yn y sector addysg uwch

### Cymunedau, bywyd preifat a bywyd teuluol

5.42 Mae'r Cynllun Gweithredu yn galw ar y llywodraeth i gefnogi bywydau teuluol pobl LHDTC+ ac yn awgrymu prif ffrydio cynrychiolaeth LHDTC+ mewn adnoddau sydd ar gael i deuluoedd a phlant. Mae llenyddiaeth theoretaidd yn awgrymu bod cynrychiolaeth LHDTC+ mewn llyfrau plant yn cynyddu derbyniad a hunan-dderbyn LHDTC+ ymhlith pobl ifanc (Tschida et al., 2014). Mae’n aml yn galw am i gymeriadau LHDTC+ fod yn amrywiol ar draws categorïau croestoriadol ac i’w cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd beidio â bod yr unig ffaith ddiffiniol o'r cymeriadau LHDTC+ (Leung ac Adams-Whittaker, 2022). Fodd bynnag, er na chyflwynir unrhyw dystiolaeth i’r gwrthwyneb, ni ellid dod o hyd i gadarnhad o’r honiadau hyn trwy werthusiadau ffurfiol nac ymyriadau.

5.43 Mae hyrwyddo cynrychiolaeth LHDTC+ mewn swyddi etholedig yn flaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Canfu arolwg o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol Cymru 2022, gyda chyfradd ymateb o 15% i ymgeiswyr sirol ac 11% i ymgeiswyr cymunedol, fod 6% o gynghorwyr a etholwyd yn nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (Randall et al., 2022 ). Dim ond rhyw ddeuaidd a gofnodwyd, heb unrhyw ddata ar hunaniaeth rhywedd ar gael. Mae hyn yn awgrymu bod lle i wella o ran casglu cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd ar lefel llywodraeth leol. Ar lefel y Senedd, mae tri Aelod o'r Senedd allan fel pobl hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol – ond nid oes yr un allan fel trawsryweddol.

**Cymryd rhan ym Mywyd Cymru: Diwylliant a Chwaraeon**

5.44 Mae gwella cynrychiolaeth, cynhwysiant a chyfranogiad pobl LHDTC+ mewn chwaraeon yn un o nodau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae'n bosibl y gwelir y gwerthusiad mwyaf cynhwysfawr o gynhwysiant a chyfranogiad LHDTC+ mewn chwaraeon yn Awstralia. Ystyriodd Storr et al. (2021) astudiaethau ar dderbyn a chynnwys LHDTC+ ar draws y sector chwaraeon - gan gynnwys sefydliadau chwaraeon a ariennir gan y wladwriaeth, criced a thenis Awstralia, pobl ifanc mewn chwaraeon, a grwpiau cefnogwyr. Gyda'i gilydd, roedd yr astudiaethau hyn yn cynnwys 336 o ymatebwyr i'r arolwg, 123 o gyfweliadau unigol, 5 grŵp ffocws (cyfanswm o 25 o gyfranogwyr) a 50 o oriau arsylwi cyfranogwyr. Dadansoddwyd y data ansoddol hwn yn anwythol drwy ddefnyddio NVivo, gan nodi themâu ac is-themâu. Mae'r erthygl yn pwysleisio bod gwahaniaeth rhwng derbyn pobl LHDTC+ a chynhwysiant llawn, sy'n golygu bod data meintiol, megis arolygu cyfran aelodau LHDTC+ mewn timau a chymdeithasau chwaraeon, yn aml yn annigonol. At hynny, mae'r awduron yn cydnabod bod data meintiol yn gyfyngedig oherwydd ei fod yn aml yn gofyn am ystyried pobl LHDTC+ fel un categori, gan y gall hyn dangynrychioli profiad pobl lesbiaidd, trawsrywiol, rhyw-amrywiol, a phobl nad ydynt yn cydymffurfio â rhywedd. Mae'r erthygl felly'n pwysleisio pwysigrwydd data ansoddol wrth ystyried cyfranogiad LHDTC+ mewn chwaraeon, gan y gall data ansoddol adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn y gymuned LHDTC+ a lefel cynhwysiant a derbyniad cyfranogwyr chwaraeon LHDTC+. Bydd y canfyddiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr asesiad gwerthusadwyedd.

5.45 Nid oes unrhyw werthusiadau ar gael i'r cyhoedd o ymyriadau ynghylch cynrychiolaeth LHDTC+ a'r iaith Gymraeg.

### Gweithleoedd cynhwysol

5.46 Mewn erthygl yn archwilio moeseg cynnal ymchwil ar unigolion LHDTC+ yn y gweithle, mae Hodson *et al*. (2018) yn tynnu sylw at bryderon moesegol ymchwilio i gynhwysiant LHDTC+ yn y gwaith, gan ddadlau bod cyflawni samplau ar hap a samplau cynrychioliadol yn heriol pan na fydd rhai gweithwyr LHDTC+ efallai'n dymuno bod “allan” yn y gwaith. Nid ydynt yn cynnig “canllawiau moesegol sefydlog” (2018: 293), ond mae eu gwaith yn codi cwestiynau ynghylch samplu moesegol a defnyddio dulliau meintiol i werthuso profiadau LHDTC+ yn y gwaith heb ddatgelu i gydweithwyr a rheolwyr fod y gweithiwr “allan”. Gellir gweld datrysiad yn *Adroddiad LHDT yng Nghymru -* Stonewall Cymru (2018), a ddefnyddiodd arolwg YouGov o 1,272 o bobl LHDT yng Nghymru a gafodd eu recriwtio trwy banel YouGov a recriwtio agored trwy ystod eang o sefydliadau, grwpiau cymunedol ac unigolion. Eto i gyd, mae recriwtio agored yn golygu nad yw hwn yn sampl ar hap o bobl LHDTC+ yng Nghymru. Yn y pen draw, mae'r llenyddiaeth hon yn awgrymu y dylid ystyried arolygon ar y cyd â dulliau ansoddol, lle mae gan werthuswyr lefelau uchel o dosturi a dealltwriaeth o weithwyr LHDTC+ - p'un a ydynt yn agored am eu rhywioldeb yn y gwaith ai peidio.

### Effaith Covid-19

5.47 Mae’r Cynllun Gweithredu yn galw am adolygiad cyflym o’r dystiolaeth ynghylch effaith COVID-19 ar bobl LHDTC+. Dylid asesu p’un a yw REA wedi'i gynnal ai peidio drwy'r fframweithiau monitro arferol.

## 6. Atodiad B: Canfyddiadau o’r cyfweliadau â rhanddeiliaid

6.1 Hysbyswyd yr asesiad gwerthusadwyedd hwn drwy ymgysylltu eang â rhanddeiliaid, a chynhaliwyd 36 o gyfweliadau ar draws 50 o gyfweleion. O’r rhain, cynhaliwyd 12 cyfweliad gyda chynrychiolwyr sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru – megis Stonewall Cymru, TransVision Cymru, a Gwasanaeth Rhywedd Cymru. Er mwyn caniatáu i sefydliadau siarad yn rhydd, priodolir yr atebion hyn i “gyfweleion allanol” yn hytrach na’r sefydliadau eu hunain. Cynhaliwyd y 24 cyfweliad arall, gyda 38 o gyfweleion, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio ar draws yr holl feysydd polisi perthnasol. Er mwyn caniatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru, gweithwyr proffesiynol mewn cyrff hyd braich, a gweithwyr proffesiynol mewn rheoleiddwyr annibynnol siarad yn rhydd, priodolir eu hatebion i

“gyfweleion mewnol” yn hytrach nag i unigolion, adrannau neu’r sefydliadau a enwir. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn er mwyn dyfnhau dealltwriaeth o’r hyn y mae llwyddiant yn ei olygu yng nghyd-destun Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, y risgiau a’r tybiaethau yn y cynllun, a sut y gellid gwerthuso Cynllun Gweithredu LHDTC+.

**Sylwadau ar nodau ac uchelgeisiau’r cynllun**

6.2 Roedd y cyfweleion yn gwerthfawrogi nod Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru o wneud Cymru’r wlad fwyaf cyfeillgar i LHDTC+ yn Ewrop. Fodd bynnag, nodwyd yn aml y byddai hyn yn anodd ei fesur ac y byddai angen dangosyddion llwyddiant eraill felly i werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Awgrymodd y cyfweleion y byddai cydnabyddiaeth ehangach bod Cymru’n wlad gynhwysol LHDTC+ yn ddangosydd pwysig o lwyddiant y cynllun, o fewn Cymru a’r cyfryngau rhyngwladol. Awgrymodd cyfweleion nad yw’r cyfryngau a’r gymuned ryngwladol yn cydnabod bod gan Gymru lwybr ar wahân ar y mater hwn o'i gymharu â Llywodraeth y DU, ac y byddai’r newid hwn yn arwydd o lwyddiant y cynllun.

6.3 Nododd cyfweleion allanol y bydd rhai o effeithiau’r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cymryd blynyddoedd lawer i'w hamlygu. Barn gyffredin ymhlith cyfweleion allanol oedd er y dylai’r gweithgareddau yn y cynllun gael eu rhoi ar waith erbyn diwedd tymor y Senedd hon, byddai’r canlyniadau – yn enwedig y rhai sy’n dibynnu ar newid ymddygiad – yn cymryd mwy o amser i’w gwireddu. O’r canlyniadau tymor hwy hyn, pwysleisiodd cyfweleion mewnol ac allanol y byddai’r meini prawf canlynol yn dangos bod Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru wedi bod yn llwyddiannus:

- mwy o ymwybyddiaeth o'r gymuned LHDTC+ a'i hawliau ymhlith y cyhoedd a llunwyr polisi, mwy o adrodd am droseddau casineb LHDTC+ ac ymwybyddiaeth o'r ffyrdd o wneud hynny, perthynas gryfach rhwng yr heddlu a chymunedau LHDTC+, y cwricwlwm newydd sy’n LHDTC+ gynhwysol yn cael ei weithredu ac yn arwain at fwy o ysgolion LHDTC+ gynhwysol gyda gostyngiad mewn bwlio gwrth-LHDTC+,
- arferion iechyd cynhwysol yn arwain at fwy o hyder ymhlith pobl LHDTC+ wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd cyffredinol, gwasanaethau ffrwythlondeb, gwasanaethau mamolaeth, a gwasanaethau rhywedd.
- Dywedodd llawer o gyfweleion allanol y byddai creu Gwasanaeth Rhywedd i bobl ifanc yng Nghymru yn ganlyniad hanfodol o Gynllun Gweithredu

LHDTC+ Cymru. Yn ogystal, amlygwyd diwygio’r Ddeddf Cydnabod Rhywedd a gwahardd therapi trosi yn allweddol i sicrhau bod hawliau dynol pobl LHDTC+ yn cael eu parchu yng Nghymru. Adlewyrchir y canfyddiadau hyn yn Adran 3 a'i Theori Newid.

**Sylwadau ar fonitro a gwerthuso’r cynllun**

6.4 Datgelodd y cyfweliadau arolygon a gwerthusiadau a fydd yn llywio'r Banc Data. Fodd bynnag, amlygodd hefyd nad oedd digon o arolygon a data monitro presennol i werthuso'r cynllun yn ddigonol. Mae hyn yn golygu y bydd angen rhagor o waith maes i werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

6.5 Pwysleisiodd llawer o gyfweleion na ddylai gwerthusiad ddibynnu ar ddefnyddio data meintiol i fesur llwyddiant oherwydd ei fod yn annhebygol o adlewyrchu amrywiaeth y profiadau o fewn y gymuned LHDTC+, yn enwedig profiadau croestoriadol. Yn lle hynny, roedd cyfweleion yn frwdfrydig ynghylch dull mwy ansoddol o werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, gyda data meintiol yn chwarae rhan ategol. Pwysleisiwyd y dylai gwaith maes ansoddol bwysleisio'r amrywiaeth o brofiadau byw a chanfyddiadau pobl LHDTC+ er mwyn mesur effaith Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.

6.6 Dywedodd y cyfweleion fod rhaid i waith maes ansoddol ymgysylltu â phobl LHDTC+ yn uniongyrchol, nid â chyrff cynrychioliadol y gymuned LHDTC+ yn unig. Mae hyn yn golygu y dylai’r gwerthusiad roi pwyslais arbennig ar ymgysylltu â phobl na fyddent fel arfer yn cwblhau arolygon neu ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Roedd y cyfweleion yn hynod frwdfrydig ynghylch y gwerthusiad yn gweithio gyda grwpiau a digwyddiadau sefydledig i gynnal gwaith maes personol. Awgrymwyd y dylai'r gwerthusiad ymweld â chanolfannau a grwpiau LHDTC+ oherwydd byddai siarad â phobl yn eu hamgylchedd eu hunain a lle maent yn teimlo'n ddiogel yn cynyddu'r nifer sy'n ymgysylltu â'r broses a natur agored eu hymatebion. Yn ogystal, gall gwaith maes personol ledled Cymru helpu i sicrhau bod amrywiaeth rhanbarthol ac ieithyddol Cymru yn cael ei fodloni gan y gwerthusiad, gan fynd i’r afael â phryderon ymhlith rhai rhanddeiliaid y gallai’r gwerthusiad or-bwysleisio profiadau pobl sy’n byw yng Nghaerdydd.

6.7 Mae’r adrannau canlynol yn trafod safbwyntiau sy’n ymwneud â phob un o themâu a chamau gweithredu’r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

### Thema A: Hawliau dynol a chydnabyddiaeth (Camau Gweithredu 1 – 8)

#### Camau Gweithredu 1-2: Cryfhau dealltwriaeth o hawliau dynol pobl LHDTC+; Gwella dealltwriaeth pobl LHDTC+ o sut i fynnu eu hawliau dynol

6.8 Ystyriwyd bod cryfhau dealltwriaeth o hawliau dynol pobl LHDTC+ yn hollbwysig i lwyddiant Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn pwysleisio pa mor ganolog yw hawliau dynol i ganlyniadau dymunol eraill y cynllun – megis gostyngiad mewn troseddau casineb gwrth-LHDTC+ a bwlio mewn ysgolion. Mae hyn yn wir o ran gwella dealltwriaeth o hawliau LHDTC+ yn y gymuned LHDTC+ a'r boblogaeth gyffredinol ehangach. Amlygodd cyfweleion fod ystod o fesurau eisoes ar waith i gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau pobl LHDTC+ yng Nghymru, gan gynnwys prosiect gydag Age Cymru i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn LHDTC+, a gallai'r rhain lywio gwerthusiad.

6.9 Er bod cyfweleion yn cydnabod y gellid gwerthuso canlyniadau'r ymdrechion hyn drwy fonitro'n uniongyrchol effaith y rhaglenni ymwybyddiaeth priodol neu arolygu ymwybyddiaeth y boblogaeth gyffredinol o hawliau LHDTC+, awgrymwyd yn aml y byddai asesu llwyddiant y camau hyn drwy allbynnau mwy dangosol (megis mwy o foddhad defnyddwyr gwasanaeth ymhlith pobl LHDTC+) yn fwy effeithiol na cheisio mesur effaith sesiynau hyfforddi yn uniongyrchol. Roedd llawer o randdeiliaid yn ystyried bod monitro p'un a yw gwasanaethau cyhoeddus a'r boblogaeth ehangach yn ymwybodol o'r adegau pan fydd hawliau dynol LHDTC+ yn cael eu torri, a sut i weithredu i ddatrys y toriadau hyn, yn bwysig. Enghraifft o hyn yn ymarferol fyddai p'un a yw ysgolion ac ysbytai yn ymwybodol o arferion trosi a'r llwybrau sydd ar gael i ddiogelu goroeswyr. Awgrymodd nifer o gyfweleion y byddai tystiolaeth bod hawliau dynol yn cael eu parchu ymhlith y boblogaeth ehangach yn cynnwys: y cyhoedd yn gwybod pam bod angen adrodd am droseddau casineb a sut i wneud hynny, gyda hyn yn cael ei fesur yn ôl nifer y bobl a welodd ddigwyddiad yn adrodd i'r heddlu am drosedd casineb gwrth-LHDTC+. Awgrymodd cyfweleion hefyd y gellid monitro canlyniadau'r cam hwn gan gyfeirio at adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a Chomisiynwyr eraill Cymru.

#### Cam Gweithredu 3: gwahardd pob agwedd ar Arferion Trosi LHDTC+

6.10 Roedd y cyfweleion yn cydnabod bod gweithredu Cam Gweithredu 3 yn llawn yn dibynnu ar Lywodraeth y DU naill ai'n datganoli'r pwerau i wahardd arferion trosi i Senedd Cymru neu'n gwahardd arferion trosi ei hun. Dywedodd y cyfweleion y

byddai'n well ganddynt weld Senedd Cymru yn cael y pwerau i wahardd therapi trosi, oherwydd y canfyddiad y byddai'r gwaharddiad hwn yn fwy cynhwysfawr ac yn fwy gwleidyddol ddiogel na gwaharddiad gan Senedd y DU. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd y gallai gwaharddiad DU-gyfan fod yn fwy effeithiol a chael ei orfodi'n gyson gan lywodraeth sydd â mwy o ysgogiadau polisi, gan gynnwys cyfrifoldeb am blismona a'r system gyfiawnder.

6.11 Er gwaethaf rôl Llywodraeth y DU o ran gwahardd arferion trosi, dywedodd rhanddeiliaid y gall Cymru wneud cynnydd, waeth beth wnaiff Llywodraeth y DU. Roedd y cyfweleion yn cydnabod bod codi ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau cyhoeddus o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i oroeswyr yn bwysig, gyda chynnydd mewn atgyfeiriadau at y gwasanaethau hyn yn cael ei gydnabod fel rhan bwysig o werthusiad y Cynllun Gweithredu LHDTC+.

**Camau Gweithredu 4-5: Cryfhau cynrychiolaeth LHDTC+ ar fforymau cydraddoldeb; Cynnwys cymunedau LHDTC+ wrth ddylunio gwasanaethau cyhoeddus**

6.12 Ystyriwyd bod y camau gweithredu hyn yn cael effeithiau hirdymor na fyddai'n hawdd eu priodoli i'r fforymau cydraddoldeb neu ddyluniad fforymau cyhoeddus. Yn benodol, ystyriwyd bod gan y camau hyn gysylltiadau achosol hir a chymhleth iawn rhwng y gweithgareddau a'r canlyniadau a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon y gallai cynnwys LHDTC+ mewn fforymau gael ei danamcangyfrif gan werthuswyr, oherwydd efallai na fydd rhai aelodau o fforymau yn datgelu eu bod yn LHDTC+. Serch hynny, roedd rhanddeiliaid yn hyderus y gellid mesur cynnwys sefydliadau cynrychioliadol LHDTC+ mewn fforymau cynhwysiant er mwyn llywio'r gwerthusiad o'r Cam Gweithredu hwn.

**Cam Gweithredu 6: Darparu cydnabyddiaeth o bobl anneuaidd a rhyngryw**

6.13 Pwysleisiodd y rhanddeiliaid y byddai sicrhau bod y gweithgaredd o adolygu iaith polisïau a chanllawiau yn sensitif i iaith yn ôl rhywedd a marcwyr rhywedd yn helpu i ddangos bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pobl anneuaidd yng Nghymru. Fodd bynnag, credai cyfweleion na ddylai'r gwerthusiad roi blaenoriaeth i werthuso p'un a wnaed newidiadau i ganllawiau a pholisïau gan y byddai hyn yn gofyn am lawer o adnoddau. Cynigiwyd felly mai gwerthuso canlyniadau'r cam hwn ar sail profiad – yn benodol bod anghenion pobl anneuaidd a rhyngryw yn cael eu nodi a'u diwallu o fewn gwasanaethau cyhoeddus – drwy

waith maes ansoddol fyddai'r ffordd fwyaf craff a phriodol o ran adnoddau i werthuso'r gweithgaredd hwn.

6.14 Cymerwyd safbwynt gwahanol ar yr ail weithgaredd yn y cam hwn, sef cychwyn sgyrsiau gyda Llywodraeth y DU i gydnabod pobl anneuaidd ar basbortau a thrwyddedau gyrru. Ystyriwyd y byddai gwerthuso p'un a yw'r sgyrsiau hyn wedi digwydd o ganlyniad i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn ffordd ddefnyddiol o fonitro gweithrediad y gweithgaredd hwn. Gellid trafod effaith unrhyw newid polisi yn y gwaith maes ansoddol a gynigir uchod.

**Cam Gweithredu 7: Ceisio cael datganoli pwerau mewn perthynas â Chydnabod Rhywedd**

6.15 Dadleuodd rhanddeiliaid yn gyson bod datganoli a diwygio cydnabod rhywedd yn bwysig i bennu llwyddiant cyffredinol y cynllun. Roedd mwyafrif o randdeiliaid allanol yn dadlau na allai Cymru gyflawni prif uchelgais y Cynllun Gweithredu LHDTC+ – i Gymru ddod y wlad fwyaf cyfeillgar i LHDTC+ yn Ewrop – os na chaiff y Ddeddf Cydnabod Rhywedd ei diwygio i gynnwys hunan-adnabod. Y prif reswm am hyn yw bod cydnabod rhywedd yn sylfaenol i hunaniaeth pobl ac mae'n effeithio bob dydd ar sut maent yn cael gwasanaethau ac yn cael eu trin gan gymdeithas.

6.16 Fodd bynnag, cydnabuwyd yn eang bod yr adolygiad barnwrol o'r Bil Cydnabod Rhywedd (yr Alban) yn berthnasol i roi'r cam hwn ar waith. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar gyfer y gwaith hwn rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2023, felly ni chawsant eu hysbysu gan y Llys Sesiwn a gadarnhaodd orchymyn Adran 35 Llywodraeth y DU i rwystro pasio Bil Diwygio Cydnabod Rhywedd (yr Alban) ym mis Rhagfyr 2023. Cytunodd y rhanddeiliaid y gellid monitro gweithrediad y cam hwn yn gymharol syml drwy archwilio a fu diwygiadau blaengar i'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd.

**Cam Gweithredu 8: Mae ymgysylltu rhyngwladol yn arddangos ein gwerthoedd LHDTC+ a chefnogaeth yng Nghymru ac yn fyd-eang**

6.17 Dadleuodd rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru fod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn rhan allweddol o strategaeth a negeseuon diplomyddol Llywodraeth Cymru, gan ddadlau ei fod yn symbol o'r hyn y mae Cymru'n ei gredu fel gwlad. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu gweithgareddau rhyngwladol pedwar partner strategol – yr Urdd, Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Celfyddydau Cymru, a'r Academi Heddwch – ac yn monitro eu gweithgareddau i hyrwyddo

gwerthoedd LHDTC+ dramor. Er eu bod yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol drwy adroddiad y Rhwydwaith Tramor sy'n trafod gwaith a wnaed i hyrwyddo gwerthoedd Cymreig, gan gynnwys cydraddoldeb LHDTC+, cydnabu rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru ei bod yn anodd mesur effeithiau hyrwyddo materion LHDTC+ dramor (Llywodraeth Cymru, 2023).

6.18 Mae camau gweithredu perthnasol eraill yn hyrwyddo ymagwedd gynhwysol at gaffael ac yn cynnig targedau i gynyddu amrywiaeth cadwyni cyflenwi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr heriau o fonitro amrywiaeth LHDTC+ yn ei gadwyn gyflenwi. Er enghraifft, nid yw cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd y perchnogion busnes a'r gweithluoedd sy'n gwneud cais am gontractau yn cael eu monitro gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru y gallai gwaith maes ansoddol helpu i wella mewnwelediad yn y maes hwn, megis drwy grwpiau ffocws o fusnesau bach a chanolig sy'n eiddo i LHDTC+ a chyfweliadau â chyrff cynrychioliadol megis Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, Siambrau Masnach ledled Cymru, a'r Sefydliad Siartredig. Sefydliad Caffael a Chyflenwi.

**Thema B: Diogelwch a rhyddid rhag gwahaniaethu (Camau Gweithredu 9 – 14)**

**Cam Gweithredu 9: Dileu rhwystrau i bobl LHDTC+ adrodd am droseddau casineb**

6.19 Pwysleisiodd cyfweleion mewnol nad oes gan Lywodraeth Cymru bwerau statudol i bennu cyfeiriad plismona yng Nghymru oherwydd bod plismona yn faes polisi nad yw wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, gellir rhannu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru â heddluoedd yng Nghymru a sefydliadau partner eraill drwy amrywiaeth o gyrff – yn arbennig y Bwrdd Casineb a Thensiwn Cymunedol, sy'n cyfarfod bob chwarter.

6.20 Dywedodd rhanddeiliaid mewnol nad yw data ar foddhad dioddefwyr troseddau casineb LHDTC+ ag ymatebion yr heddlu yn cael ei gasglu'n systematig a'i gronni ar lefel Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae rhai heddluoedd yn casglu data ar foddhad holl ddioddefwyr troseddau casineb gyda'r broses adrodd. Awgrymodd cyfwelai y gallai gwerthuswyr Cynllun Gweithredu LHDTC+ ofyn am ddata gan y pedwar llu heddlu yng Nghymru ar foddhad dioddefwyr troseddau casineb LHDTC+ gydag ymateb yr heddlu. Yn ogystal, pwysleisiodd rhanddeiliaid mewnol y gellir monitro'r amser y mae'n ei gymryd i achos trosedd casineb fynd drwy'r system heddlu a chyfiawnder, ac y gallai hyn ddangos profiad a boddhad

dioddefwyr. Awgrymwyd y gallai'r data hwn gael ei gasglu yn y Dangosfwrdd Data Cyflenwi System Cyfiawnder Troseddol i Gymru a Lloegr (Llywodraeth y DU, d.d.) erbyn i werthusiad gael ei gynnal – fodd bynnag, nid yw'r dangosfwrdd hwn eto'n caniatáu i adroddiadau troseddau casineb gael eu gwahanu oddi wrth fathau eraill o droseddau. Dim ond os bydd y sefyllfa hon yn newid y bydd y Dangosfwrdd yn gallu llywio gwerthusiad y Cynllun Gweithredu LHDTC+.

6.21 Roedd rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn cydnabod yn eang yr heriau o ddefnyddio data adrodd am droseddau casineb mewn gwerthusiad, oherwydd gellir dehongli ymdrechion llwyddiannus i gynyddu'r gyfradd o droseddau casineb sy'n cael eu hadrodd fel awgrym bod mwy o droseddau casineb yn digwydd yng Nghymru. Dadleuodd llawer o randdeiliaid allanol, pe bai'r cynllun yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus, y byddai cyfanswm y troseddau casineb yr adroddir amdanynt i'r heddlu yn cynyddu yn y tymor byr wrth i rwystrau i adrodd am droseddau casineb gael eu dileu ac i gyfraddau adrodd gynyddu. Awgrymodd rhanddeiliaid allanol mai dim ond yn y tymor canolig i'r tymor hwy wrth i fesurau ataliol ddod i rym y byddai adroddiadau am droseddau casineb yn gostwng. Yn lle hynny, awgrymwyd bod Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn chwarae rhan bwysig i helpu dioddefwyr adrodd am droseddau casineb ac y gallai eu data monitro fod yn ddefnyddiol o ran gwerthuso cyrhaeddiad ac ymgysylltiad gwasanaethau cymorth. Credai cyfweleion mewnol fod y *Ganolfan Gymorth* yn cofnodi cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

6.22 Ymhellach, awgrymodd cyfweleion mewnol y gellid monitro lefel cynrychiolaeth LHDTC+ ymhlith yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol (PCSOs) a swyddogion yr heddlu, a'u hymgysylltiad â'r gymuned LHDTC+. Gan fod Llywodraeth Cymru yn ariannu PCSOs, awgrymwyd y gallai hwyluso mynediad at ddata amrywiaeth PCSOs i werthuso Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Fodd bynnag, nododd efallai na fydd y data hwn yn cael ei gasglu mewn ffordd safonol ledled Cymru. Yn ogystal, pwysleisiodd cyfweleion y bydd mesurau ansoddol – ac astudiaethau achos o brosesau adrodd – yn hanfodol i werthuso p'un a ddilëwyd rhwystrau i bobl LHDTC+ adrodd am droseddau casineb.

6.23 Nododd rhanddeiliaid allanol hefyd efallai fod gan bobl o leiafrifoedd ethnig a thraws yn y gymuned LHDTC+ wahanol ganfyddiadau a phrofiadau o'r heddlu ac y dylai gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ gydnabod yr heriau penodol a wynebir gan y grwpiau hyn wrth adrodd am droseddau casineb i'r heddlu.

Roeddent yn cydnabod y byddai profiadau gwahanol y grwpiau hyn yn anodd eu mesur yn feintiol, ac felly byddai dulliau ansoddol yn well.

**Camau Gweithredu 10-11: Parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni atal troseddau casineb ledled Cymru; Gwrthwynebu agweddau gwrth-LHDTC+ ar-lein a throseddau casineb**

6.24 Fel rhan o Thema B, roedd cyfweleion a oedd yn cynrychioli grwpiau rhanddeiliaid allanol yn fwy tebygol o bwysleisio pwysigrwydd Cam Gweithredu 9 (yn ymwneud â mwy o adrodd am droseddau casineb) na Chamau Gweithredu 10 ac 11. Serch hynny, roedd cydnabyddiaeth bod ataliad yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â throseddau casineb. Ymhlith cyfweleion allanol, ystyriwyd bod y system addysg, ac yn arbennig diwygiadau cwricwlwm Llywodraeth Cymru, yn allweddol i atal rhagfarn a throseddau casineb yn erbyn pobl LHDTC+ dros y tymor hir. Bydd hyn yn llywio'r Theori Newid.

6.25 Pwysleisiodd cyfweleion mewnol fod Casineb yn Brifo Cymru yn chwarae rhan bwysig yn strategaeth Llywodraeth Cymru i atal troseddau casineb yng Nghymru. Caiff ei werthuso'n fewnol, yn bennaf drwy'r data monitro ac ymgysylltu a ddarperir gan y contractwr allanol sy'n rhedeg y rhaglen.

**Cam Gweithredu 12: Gwella perthynas cymunedau LHDTC+ â Phlismona yng Nghymru**

6.26 Cyflwynodd y cyfweleion allanol eu sylwadau ar wella'r berthynas rhwng pobl LHDTC+ a'r heddlu yng Nghymru drwy eu sylwadau ar droseddau casineb. Roedd y cyfweleion yn obeithiol y byddai fforwm rhwng cymunedau LHDTC+ a'r heddlu yng Nghymru yn gwella'r berthynas rhwng y grwpiau hyn. Pwysleisiodd rhai cyfweleion mai dim ond os yw'n wirioneddol gynrychioliadol o boblogaeth LHDTC+ Cymru, gyda chynrychiolaeth groestoriadol a lleisiau LHDTC+ ar lawr gwlad, y bydd y fforwm yn effeithiol wrth drafod materion LHDTC+ gyda'r heddlu. Nododd un cyfwelai, er mwyn i'r fforwm lwyddo, ei bod yn hynod bwysig sicrhau bod grwpiau sy'n tueddu i beidio ag ymgysylltu â'r heddlu yn gallu cymryd rhan. Pwysleisiodd un cyfwelai allanol hefyd y gallai fod gan y pedwar llu heddlu yng Nghymru wahanol berthnasoedd â chymunedau LHDTC+, ac y dylai unrhyw werthusiad gydnabod y gwahaniaethau hyn rhwng rhanbarthau plismona.

**Cam Gweithredu 13: Targedu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ymhlith cymunedau LHDTC+**

6.27 Dim ond cyfweleion sy'n gweithio o fewn Llywodraeth Cymru a roddodd sylwadau ar y pwnc hwn. Nodwyd bod strategaeth VAWDASV Llywodraeth Cymru yn pwysleisio ymyriadau ataliol a chyfnod cynnar, tra bod cyfeiriadau Cynllun Gweithredu LHDTC+ at VAWDASV yn pwysleisio ymyriadau cam diweddarach. Serch hynny, roedd cyfweleion mewnol yn obeithiol bod Cam Gweithredu 13 yn cael ei roi ar waith yn drylwyr, gyda ffocws ar ystyried croestoriad ym mhob cam, ac y bydd yn arwain at gyflawni’r canlyniadau. Pwysleisiodd y cyfweleion fod gan bobl LHDTC+ wahanol rwystrau o safbwynt adrodd am VAWDASV a bod eu hymagwedd yn cael ei llywio gan Banel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr. Pan ofynnwyd a allai'r panel hwn chwarae rhan yn y gwerthusiad, awgrymwyd y byddai hyn y tu allan i gylch gorchwyl y panel. Yn ogystal, nododd cyfweleion nad yw llinell gymorth Byw Heb Ofn a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn gofyn yn systematig i alwyr am eu cyfeiriadedd rhywiol na'u hunaniaeth rhywedd. Yn y pen draw, awgrymodd cyfweleion y byddai’n her gwerthuso profiadau pobl LHDTC+ sy’n adrodd am VAWDASV, ond bod y dangosyddion cenedlaethol ar VAWDASV yn cael eu hadolygu. Awgrymodd cyfweleion Llywodraeth Cymru y gallai hyn olygu y bydd mwy o ddata ar gael ar adeg y gwerthusiad.

**Cam Gweithredu 14: Mae gwasanaethau digartrefedd yn cynnwys anghenion penodol pobl LHDTC+**

6.28 Dadleuodd cyfweleion Llywodraeth Cymru, er y gellir gweithredu’r gweithgareddau yn y Cynllun, y gallent gymryd amser hir i ddod i rym. Er enghraifft, nodwyd bod gan weithgareddau ar bolisïau a deddfwriaeth newydd ar ddigartrefedd ac arloesi ar draws prosiectau digartrefedd gadwyni achosol hir i'r canlyniadau. Dywedwyd na fyddai llawer o'r gweithgareddau ar y cam gweithredu hwn yn cael effaith ar wasanaethau cymorth erbyn adeg y gwerthusiad. Yn ogystal, roedd y gweithgaredd o weithio gydag Awdurdodau Lleol a darparwyr cartrefi gofal i ddarparu hyfforddiant wedi creu dryswch ymhlith cyfweleion mewnol, a oedd yn ansicr pwy oedd yn gyfrifol am weithredu'r gweithgaredd hwn. Fodd bynnag, mae gweithgaredd gwerthuso Tŷ Pride - fel rhan o werthusiad mwy o brosiectau digartrefedd - yn mynd rhagddo a disgwylir ei gyhoeddi yn 2024. Pwysleisiodd cyfweleion mewnol y dylid osgoi cynnal gormod o waith maes gyda phobl ddigartref LHDTC+ oherwydd maent eisoes yn cyfrannu at lawer o brosiectau ymchwil. Yn ogystal, maent yn tueddu i ymgysylltu â gwasanaethau ar adegau o

anhawster pan nad yw casglu data yn flaenoriaeth. Yn y pen draw, credai cyfweleion y dylai gwerthusiad proses ragflaenu gwerthusiad effaith oherwydd efallai na fydd effeithiau yn y maes polisi hwn yn cael eu gwireddu am rai blynyddoedd. O’r cyfweleion allanol a drafododd y polisi digartrefedd, roedd y ffocws ar Dŷ Pride. Roedd ei barhad a'i ddyblygiad mewn rhannau eraill o Gymru yn cael ei ystyried yn fetrig llwyddiant allweddol.

**Thema C: Cenedl noddfa i geiswyr lloches a ffoaduriaid (Camau Gweithredu 15-17)**

**Cam Gweithredu 15-17: Nodi, diogelu a chyfeirio pobl LHDTC+ at sut i hawlio lloches; Annog datblygiad eiddo lloches LHDTC+ yn unig yng Nghymru; Sicrhau bod Cymru, Cenedl Noddfa, yn parhau i gynnwys pobl LHDTC+**

6.29 Cydnabu’r cyfweleion fod y rhan fwyaf o’r pwerau yn y maes hwn wedi’u neilltuo i Lywodraeth y DU.

6.30 Yn achos Cam Gweithredu 15, dywedodd y cyfweleion nad oedd trafodaethau wedi dechrau gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio Ffurflenni ASF1. Nodwyd yr anhawster y byddai rhai ceiswyr lloches yn amharod i roi gwybod i awdurdodau am eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd, gan eu bod yn ofni y gallai effeithio’n negyddol ar eu cais neu eu rhoi mewn perygl. Awgrymodd cyfweleion mai rhan o hyn yw nad yw llawer o geiswyr lloches yn ymwybodol o’r gwahaniaethau rhwng ymagweddau Llywodraeth Cymru a’r DU at loches, a bod hyn yn golygu y gallent fod yn gyndyn o hysbysu swyddogion Cymru os ydynt yn LHDTC+. Mae hyn yn tanseilio gallu gwasanaethau Cymru i nodi a chefnogi ceiswyr lloches LHDTC+, ond mae hefyd yn tanseilio ansawdd y data sydd ar gael ar gyfer monitro a gwerthuso.

6.31 Yn achos Cam Gweithredu 16, pwysleisiodd y cyfweleion fod dylanwad Llywodraeth Cymru ar y Swyddfa Gartref a’i darparwyr llety yn gyfyngedig. Er bod tai a digartrefedd yn faterion datganoledig, nid felly’r mater o letya ceiswyr lloches. Mae hyn yn golygu y gall Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol gefnogi’n uniongyrchol unigolion y rhoddwyd statws ffoadur iddynt, ond nid y rhai sy’n ceisio lloches. Mae hyn yn golygu bod y cysylltiadau rhwng gweithgareddau a chanlyniadau Cam Gweithredu 16 yn rhagdybio y bydd y Swyddfa Gartref yn ymgysylltu ac yn cydweithredu. Wedi dweud hyn, mae gan Lywodraeth Cymru a’i phartneriaid – megis Gwasanaeth Noddfa Cymru – ran i’w chwarae wrth ddyrchafu’r pryderon am dai i’r Swyddfa Gartref, a dywedodd cyfweleion y gellid gwerthuso effeithiolrwydd y broses hon.

6.32 Yn achos Cam Gweithredu 17, pwysleisiodd y cyfweleion bwysigrwydd Gwasanaeth Noddfa Cymru a sefydliadau eraill. Mae'r rhain yn hysbysu ceiswyr lloches o’u hawliau, a'r gwasanaethau y gallant gael mynediad atynt heb effeithio ar eu cais. Awgrymodd y cyfweleion y dylai’r Gwasanaeth Noddfa fonitro boddhad ceiswyr lloches â’u gwasanaethau a’u profiadau ehangach ond nad yw hyn yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd. Wrth ystyried hyfforddiant ar gyfer staff awdurdodau lleol ac eraill sy’n gweithio gyda cheiswyr lloches, pwysleisiodd cyfweleion fod trosiant a chylchdroi staff yn uchel yn y sector hwn – sy’n golygu bod darparu gwybodaeth sylfaenol yn hynod bwysig.

6.33 Ar y cyfan, pwysleisiodd y cyfweleion mewnol y bydd gwerthuso effaith y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar geiswyr lloches LHDTC+ yng Nghymru yn heriol, gyda rhwystrau ieithyddol a phryderon ynghylch ceisiadau o bosibl yn cyfyngu ar yr ymgysylltiad â gwerthuswyr. Awgrymodd y cyfweleion allanol y dylai’r gwerthusiad ymgysylltu â sefydliadau sy’n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTC+ – yn arbennig y grŵp cymorth Hoops & Loops i geiswyr lloches LHDTC+ yng Nghaerdydd. Yn ogystal, awgrymodd y cyfweleion allanol y dylai gwerthusiad ystyried ymateb Cymru i fygythiadau rhyngwladol i hawliau LHDTC+, megis y biliau gwrth-hoyw yn Uganda a mannau eraill.

### Thema D: Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant (Camau Gweithredu 18-25)

#### Cam Gweithredu 18: Deall a gwella profiad pobl LHDTC+ yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol

6.34 Yn adran 18.1, pwysleisiodd y cyfweleion mewnol sy’n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol y dylid cynllunio a darparu hyfforddiant ar gynhwysiant LHDTC+ fel rhan o becyn ehangach o hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, gyda chydweithrediad rhwng y Cynlluniau Gweithredu ar gydraddoldeb. Roedd y cyfweleion o'r farn bod hyfforddiant sy'n pwysleisio pob math o gynhwysiant a chydraddoldeb yn well oherwydd anghenion croestoriadol unigolion sy'n cael gofal ac oherwydd y pwysau amser dwys yn y sectorau hyn. Roedd cyfweleion mewnol hefyd yn cydnabod y cadwyni achosol hir rhwng adolygu profiadau LHDTC+ o iechyd a gwella hyfforddiant a chanlyniadau pobl LHDTC+ yn teimlo’n fwy diogel ac yn cael eu deall yn well mewn lleoliadau iechyd a gofal. Tybiaeth berthnasol oedd bod hyfforddiant yn effeithiol, a bod cleifion LHDTC+, defnyddwyr gwasanaeth a staff yn cael profiadau gwell oherwydd yr hyfforddiant hwn.

Pwysleisiodd cyfweleion allanol bwyntiau tebyg, gyda mwy o bwyslais ar hyfforddiant ar lefel gofal sylfaenol. Nodwyd y gall meddygon teulu cynhwysol gael effaith gadarnhaol gref ar brofiadau gofal LHDTC+, gan fod gan feddygon teulu rôl allweddol mewn atgyfeirio ymlaen at ofal sy'n cadarnhau rhywedd, a mwy. Awgrymwyd mai un ffordd o hysbysu pobl LHDTC+ bod meddygon teulu wedi cael hyfforddiant cynhwysiant LHDTC+ ac wedi dysgu ohono, fyddai i feddygfeydd gael eu hachredu fel meddygfeydd "Ymwybodol o LHDTC+".

6.35 Yn adran 18.2, bu'r cyfweleion mewnol yn trafod sut y mae arolygiadau iechyd a gofal wedi'u diwygio'n ddiweddar o ganlyniad i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ i ganolbwyntio mwy ar gynwysoldeb LHDTC+. Fodd bynnag, rhybuddiwyd na ellir defnyddio arolygiadau i fonitro cynhwysiant LHDTC+ ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan na fydd holl allbynnau arolygiadau yn cyfeirio at gynhwysedd LHDTC+. Hefyd, mae arolygwyr dan bwysau oherwydd galwadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn ystod eu hymweliadau. Dywedodd cyfweleion sy'n gweithio ym maes iechyd y gallai Arolygiaeth Iechyd Cymru gynnwys cynwysoldeb LHDTC+ yn ei hadroddiad blynyddol os oes data cadarn. Roeddent hefyd yn awgrymu bod Arolygiaeth Iechyd Cymru yn ystyried cynnal adolygiad o anghydraddoldebau iechyd ar gyfer pobl draws, a gallai hyn fod yn rhan o werthusiad.

6.36 Yn adran 18.3, roedd llawer o gyfweleion allanol yn obeithiol y gellid defnyddio nifer y bobl LHDTC+ sy'n gwneud cwynion i fyrddau iechyd mewn gwerthusiad. Er bod hyn yn addawol, ni fu'n bosibl i ni siarad ag unigolion o fewn Llywodraeth Cymru a allai gadarnhau p'un a yw'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ai peidio.

6.37 Yn adran 18.4, dywedodd y cyfweleion mewnol y dylai'r adolygiadau tystiolaeth yng Ngham Gweithredu 18.4 amlygu p'un a yw pobl LHDTC+ yn wynebu gwahaniaethu mewn gofal iechyd ac a yw hyn yn effeithio ar y gofal a gânt. Yn benodol, teimlai'r cyfweleion y dylai'r adolygiadau tystiolaeth ganolbwyntio ar p'un a yw rhai cyflyrau yn effeithio'n fwy difrifol ar bobl LHDTC+ na phobl nad ydynt yn LHDTC+. Os canfyddir anghydraddoldebau iechyd – gyda chyfweleion yn rhoi'r enghraifft o bobl drawsryweddol yn cael eu heffeithio'n fwy gan gyflyrau'r galon – yna gallai hyn arwain at ddiwygiadau mewn sgrinio, ymwybyddiaeth, a hyfforddiant staff. Dywedodd y cyfweleion nad yw defnyddwyr gwasanaeth bob amser yn cael eu holi am eu cyfeiriadedd rhywiol na'u hunaniaeth rhywedd wrth dderbyn gofal iechyd neu gymdeithasol, sy'n golygu bod y data sydd ar gael o ansawdd gwaelach. Mae hyn yn golygu efallai na fydd yr adolygiadau tystiolaeth mor

ddiymwad ag y gallant fod i grwpiau ymylol eraill sydd â data a gesglir yn fwy cyson.

6.38 Yn gyffredinol, awgrymodd y cyfweleion mewnol ac allanol y byddai angen gwaith maes ansoddol, ac roedd grwpiau ffocws yn awgrym poblogaidd, er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau LHDTC+ mewn gofal iechyd yng Nghymru. Mae canlyniadau Cam Gweithredu 18 yn canolbwyntio'n llwyr ar ganfyddiadau cleifion LHDTC+, a fyddai'n anodd neu'n amhosibl eu dehongli trwy ddata AGIC, AGC, a data monitro arall - sy'n golygu bod angen gwaith maes ansoddol. Fodd bynnag, awgrymodd rhai cyfweleion y gallai *Llais – Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* chwarae rhan yn y gwerthusiad, gyda rhai'n awgrymu y gallai eu hadroddiadau ar brofiad cleifion lywio gwerthusiad Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru (Llais, d.d.). Nid yw'n glir a yw *Llais* yn bwriadu adrodd ar brofiadau LHDTC+ o iechyd a gofal cymdeithasol.

**Cam Gweithredu 19: Sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a ffrwythlondeb yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio i bobl LHDTC+**

6.39 Roedd cyfweleion mewnol ac allanol yn cydnabod nad yw'r iaith am fynediad "amserol" at storfa gametau a chael mynediad "cyfartal" at driniaeth ffrwythlondeb yn ddigon penodol. Gallai llunwyr polisi unioni hyn cyn y gwerthusiad. Yn ogystal, rhybuddiodd cyfweleion mewnol yn erbyn ceisio mesur profiadau cleifion yn y maes polisi hwn. Mae hyn oherwydd na all pobl gymharu eu profiadau â grwpiau eraill – fel LHDTC+ a theuluoedd heterorywiol yn cymharu eu mynediad eu hunain at wasanaethau – ac ni allant ychwaith fesur y newid i unigolyn dros amser oherwydd bod ymyriadau fel arfer yn fyr. Wrth ystyried mamolaeth, roedd cyfweleion mewnol yn cydnabod nad oes unrhyw ganlyniadau yn cyfeirio atynt yn uniongyrchol – ac awgrymwyd y byddai canlyniad sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod lleisiau LHDTC+ yn cael eu clywed wrth ddatblygu polisi mamolaeth, a bod canlyniadau a phrofiadau yn fwy cyfartal, yn cael ei groesawu. Fodd bynnag, dywedodd cyfweleion mewnol nad yw data mamolaeth LHDTC+ yn cael ei gasglu ar hyn o bryd, er bod cynnydd yn cael ei wneud yma.

**Cam Gweithredu 20: Sicrhau bod datblygiad y strategaeth iechyd meddwl newydd yn ystyried pobl LHDTC+**

6.40 Roedd cyfweleion allanol yn aml yn codi pwnc iechyd meddwl ymhlith pobl LHDTC+ yng Nghymru, gan ei gysylltu'n aml â bwlio mewn ysgolion, rhestrau aros am wasanaethau rhywedd, a phrofiadau o droseddau casineb. Roedd cyfweleion mewnol hefyd yn cydnabod natur bellgyrhaeddol a thrawsadrannol polisi iechyd

meddwl yng Nghymru. Awgrymodd cyfweleion mewnol fod y gweithgareddau eisoes yn cael eu rhoi ar waith yn ystod datblygiad y strategaeth iechyd meddwl newydd i Gymru. Roedd cyfweleion mewnol yn hyderus y bydd y strategaeth hon yn cael ei gwerthuso'n ffurfiol, ac y byddai hyn yn ystyried materion LHDTC+. Os na chaiff y strategaeth ei chyhoeddi cyn y gwerthusiad o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, gallai'r adroddiadau monitro a chynnydd chwarterol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth iechyd meddwl ddal i lywio gwerthusiad y Cynllun Gweithredu LHDTC+.

**Cam Gweithredu 21-22: Cyhoeddi a gweithredu ar Gynllun Gweithredu HIV newydd; Goresgyn rhwystrau i bobl LHDTC+ rhag cael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol**

6.41 Croesawodd cyfweleion mewnol ac allanol y Cynllun Gweithredu HIV. Roeddent hefyd yn croesawu'r defnydd eang o brofion drwy'r post ledled Cymru, oherwydd eu heffeithiolrwydd a'u defnyddioldeb i fonitro nodweddion y rhai sy'n cymryd y prawf. Gall cofrestru ar-lein ofyn yn effeithlon i bobl beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, a data perthnasol arall. Roedd cyfweleion mewnol yn hyderus y bydd y cynllun yn cael ei werthuso'n ffurfiol ar ôl ei gwblhau yn 2026, ac y gallai hyn hysbysu'r gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Yn y cyfamser, caiff ei weithrediad ei olrhain yn fewnol - trwy ddogfen o'r enw *diweddariad cynnydd gweithredu'r Cynllun Gweithredu HIV*. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnal arolwg o lesiant pobl sy'n byw gyda HIV yng Nghymru. Dywedodd y cyfweleion y bydd yn cael ei weinyddu yn gynnar yn 2024 a'i ailadrodd yn flynyddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gyda'i ganlyniadau o bosibl yn hysbysu'r gwerthusiadau o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r Cynllun Gweithredu HIV.

**Cam Gweithredu 23: Adolygu'r llwybr Datblygu Hunaniaeth Rhywedd ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru**

6.42 Mynegodd rhanddeiliaid allanol bryder bod y gweithgareddau ar y cam gweithredu hwn wedi'u geirio'n amwys ac na fyddant yn cyflawni canlyniadau'r cam gweithredu, sef bod pobl ifanc draws yn gallu cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar angen a thystiolaeth glinigol. Yn benodol, dywedodd cyfweleion allanol y gellid ystyried ac yna diystyru gwasanaeth rhywedd ar gyfer pobl ifanc drawsryweddol yng Nghymru, ac na fyddai hyn yn cynyddu mynediad pobl ifanc draws at ofal iechyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth glinigol ac angen. Roedd yr holl gyfweleion allanol a siaradodd ar y pwnc hwn yn pryderu bod plant

traws o Gymru yn cael eu hatgyfeirio i GIG Lloegr – gyda chanfyddiad eang nad oedd gwasanaethau GIG Lloegr wedi'u gwreiddio mewn arfer clinigol gorau – ac mai dim ond trwy ganlyniadau'r cynllun y credant y gellid sefydlu Gwasanaeth Rhywedd ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

6.43 Nodwyd mai'r Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) oedd y corff gwneud penderfyniadau allweddol ar y mater hwn. Fodd bynnag, ni chawsant eu cyfweld ar gyfer yr asesiad gwerthusadwyedd hwn. Awgrymodd y cyfweleion y dylai rhesymeg WHSSC dros ei bolisi ar Wasanaeth Rhywedd Cymru i bobl ifanc yng Nghymru lywio'r gwerthusiad.

**Cam Gweithredu 24: Parhau i ddatblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru (WGS)**

6.44 Roedd cyfweleion yn hyderus y gellid gwerthuso gwelliannau i Wasanaeth Rhywedd Cymru (WGS) fel rhan o werthusiad y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Dywedodd y cyfweleion y gallai data o'r WGS fod ar gael i werthuswyr ar amseroedd aros, mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMs), a mesurau profiad a adroddir gan gleifion (PREMs). Dywedodd cyfweleion allanol fod profiadau o'r WGS yn hynod gadarnhaol ac yn gwella, yn rhannol oherwydd y cyfarfodydd misol a gynhelir rhwng y WGS a chynrychiolwyr trawsryweddol. Awgrymwyd y gallai adborth dienw o'r cyfarfodydd hyn a grwpiau ffocws gyda phobl draws sydd â phrofiad o'r WGS lywio gwerthusiad y Cynllun Gweithredu LHDTC+

**Cam Gweithredu 25: Gwella'r prosesau cofnodi data a newid ar gyfer cynnal cofnodion meddygol pobl drawsryweddol, anneuaidd a rhyngryw.**

6.45 Nid oedd y cam gweithredu hwn yn destun trafodaeth fanwl yn y cyfweliadau; fodd bynnag, dywedodd un cyfwelai fod y gweithgaredd hwn yn dibynnu ar ddiwygiadau ehangach ac uwchraddio seilwaith TG GIG Cymru.

**Thema E: Addysg gynhwysol (Camau Gweithredu 26-29)**

**Cam Gweithredu 26: Darparu canllawiau traws cenedlaethol i ysgolion ac awdurdodau lleol**

6.46 Pwysleisiodd cyfweleion mewnol mai nod y Canllawiau Trawsryweddol i Ysgolion yw sicrhau bod pobl drawsryweddol yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cael eu cynnwys mewn lleoliadau addysg. Mae hyn yn golygu fod y Canllawiau'n canolbwyntio ar bobl draws yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, eu bod yn cael eu cefnogi, eu deall, a'u bod yn rhan o wneud penderfyniadau – yn

hytrach na chanolbwyntio ar fwlio trawsffobig yn unig. Yn ogystal, dywedodd cyfweleion mewnol y bydd y Canllawiau Trawsryweddol i Ysgolion yn cael eu gwerthuso – yn debygol gyda pheilot ac ymchwil gynradd. Fel arall, nodwyd bod gan set ddata SHRN y potensial i helpu i lywio'r gwerthusiad drwy nodi profiadau disgyblion traws ac anneuaidd mewn ysgolion.

**Cam Gweithredu 27: Cefnogi pobl ifanc LHDTC+ a thaclo bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig**

6.47 Roedd y cyfweleion yn cytuno'n eang bod cyfraddau adrodd yn effeithio'n fawr ar ddata meintiol ar fwlio. Yn ogystal, awgrymodd cyfweleion nad yw data ar achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn cael ei goladu gan Lywodraeth Cymru na'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol. Felly argymhellodd y cyfweleion gynnal arolygon, cyfweliadau, a grwpiau ffocws gyda disgyblion LHDTC+ er mwyn deall faint o hyder sydd ganddynt wrth adrodd am fwlio, a hynny'n ei dro yn arwain at newid cadarnhaol. Mynegodd rhai cyfweleion allanol bryder ynghylch canlyniad "mae pobl ifanc LHDTC+ yn hyderus i herio bwlio a gwahaniaethu", gan awgrymu y gallai gael canlyniadau anfwriadol a rhoi pobl ifanc LHDTC+ mewn perygl o wahaniaethu pellach.

**Cam Gweithredu 28: Dylunio a gweithredu ymagwedd ysgol gyfan sy'n gwbl gynhwysol o LHDTC+**

6.48 Roedd cyfweleion mewnol ac allanol yn cytuno'n eang y byddai sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau angenrheidiol i weithredu canllawiau sy'n LHDTC+ gynhwysol, gan gynnwys y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) a'r canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, yn her fawr y dylid ei hystyried wrth werthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Yn ogystal, nodwyd hefyd bod sicrhau bod yr adnoddau hyn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg – mewn partneriaeth ag Adnodd, y corff hyd braich a sefydlwyd i oruchwylio adnoddau addysg yng Nghymru – yn rhan bwysig o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Cydnabuwyd yr her o fesur p'un a yw athrawon yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi wrth weithredu dull ysgol gyfan sy'n gwbl gynhwysol o bobl LHDTC+, gyda rhai cyfweleion yn nodi y gallai prosiect ymchwil parhaus helpu i ateb y cwestiynau hyn.

6.49 Mynegodd cyfweleion mewnol ac allanol rwystredigaeth am y diffyg tystiolaeth gref ynghylch profiadau LHDTC+ mewn ysgolion. I unioni hyn, awgrymwyd y gallai set ddata SHRN – ymhlith rhai grwpiau oedran – ofyn cwestiynau mwy manwl

ynghylch cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. Awgrymodd un cyfwelai mewnol y gallai gwerthuswyr y Cynllun Gweithredu LHDTC+ gysylltu â'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru i drefnu cyfweliadau gyda hyfforddwyr ac athrawon. Dull arall a awgrymwyd gan rai cyfweleion oedd cysylltu ag undebau llafur yn uniongyrchol i rannu arolygon a gwahoddiadau cyfweld ag athrawon, gyda'r nod o werthuso hyder athrawon ac adnoddau ar faterion LHDTC+.

**Cam Gweithredu 29: Sicrhau bod pob coleg a phrifysgol yng Nghymru yn amgylcheddau LHDTC+ gynhwysol ar gyfer dysgwyr, myfyrwyr a staff**

6.50 Dywedodd cyfweleion fod prifysgolion yn tueddu i fod â rhwydweithiau LHDTC+ sefydledig. Awgrymwyd y gallai'r rhwydweithiau hyn – megis grwpiau LHDTC+ Undeb y Myfyrwyr – hysbysu'r gwerthusiad.

### Thema F: Cymunedau, bywyd preifat a bywyd teuluol (Camau Gweithredu 30-37)

**Cam Gweithredu 30: Cefnogi bywydau teuluol pobl LHDTC+**

6.51 Dywedodd y cyfweleion fod yr ymgyrch 'Magu Plant: Rhowch Amser iddo' wedi'i diweddaru'n ddiweddar i gynnwys tudalennau newydd sy'n darparu gwybodaeth i deuluoedd LHDTC+. Mae nifer yr ymweliadau â thudalennau'n cael ei fonitro a gellid ei ddefnyddio mewn gwerthusiad. Fodd bynnag, nid yw'r tudalennau'n gofyn i ymwelwyr a oeddent yn teimlo bod y cynnwys yn ddefnyddiol, ac ni ddefnyddiwyd unrhyw ffordd arall o fesur effaith a boddhad ychwaith. Awgrymodd cyfweleion fod hyrwyddo a chyfeirio'r dudalen we gan randdeiliaid yn allweddol i'w llwyddiant.

**Cam Gweithredu 31: Cefnogi sector gwaith ieuenctid LHDTC+**

6.52 Pwysleisiodd cyfweleion a oedd yn ymwneud â gwaith ieuenctid ei bwysigrwydd ar gyfer magu hyder, deall eu hawliau, cyfrannu at ddatblygiad addysgol a phersonol, a chefnogi pobl ifanc. Nododd un cyfwelai allanol y gall clybiau ieuenctid LHDTC+ fod yr unig dro i berson ifanc LHDTC+ gael y teimlad o beidio â bod yn y lleiafrif mewn ystafell – a bod y profiad hwn yn adeiladu cymunedau a hunanhyder.

6.53 Dim ond ychydig o ganolfannau gwaith ieuenctid sy'n benodol i LHDTC+ ac nid yw'r rhan fwyaf o weithwyr ieuenctid yn monitro'n ffurfiol gyfeiriadedd rhywiol y rhai sy'n mynychu. Mae hyn yn golygu na all data monitro roi darlun llawn o effaith gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, roedd cyfweleion yn frwdfrydig ynghylch recriwtio pobl ifanc LHDTC+ ar gyfer grwpiau ffocws trwy leoliadau gwaith ieuenctid - a defnyddio'r rhain i fesur effaith gwaith ieuenctid a gwasanaethau eraill. Fodd

bynnag, rhybuddiodd cyfweleion mewnol y gall fod yn anodd profi effeithiau achosol gwaith ieuenctid, gan eu bod yn aml yn cymryd amser hir i'w gwireddu.

**Cam Gweithredu 32: Cefnogi deialog agored rhwng grwpiau ffydd a phobl LHDTC+**

6.54 Ni fu'r cam hwn yn destun trafodaeth fanwl yn y cyfweliadau.

**Cam Gweithredu 33: Sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg LHDTC+ fynediad at wasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg**

6.55 Dywedodd y cyfweleion fod y cam hwn yn adlewyrchu gofynion a pholisïau deddfwriaethol presennol, yn arbennig Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd cyfweleion mewnol yn croesawu'r cam hwn ond nid oeddent yn meddwl y dylai chwarae rhan ganolog yng ngwerthusiad y cynllun o safbwynt y Gymraeg. Yn hytrach, pwysleisiwyd effaith ymyriadau mewn addysg, diwylliant a meysydd polisi eraill ar yr iaith.

**Cam Gweithredu 34: Darparu cefnogaeth i bobl LHDTC+ gymryd rhan mewn democratiaeth, gan gynnwys sefyll am swyddi etholedig**

6.56 Dywedodd cyfweleion mewnol y byddai cynyddu nifer y cynrychiolwyr LHDTC+ mewn swyddi etholedig yn golygu bod mwy o leisiau LHDTC+ yn cael eu cynrychioli wrth wneud penderfyniadau a'r canlyniadau, a bod hyn yn golygu y bydd polisïau felly'n fwy tebygol o gynrychioli anghenion yr holl nodweddion gwarchodedig. Dywedodd y cyfweleion fod y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig – a allai gael ei hailenwi erbyn adeg y gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ – a rhaglenni Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal yn cael eu diwygio a'u hehangu i roi gwell cefnogaeth i bobl LHDTC+ gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Rhan bwysig o hyn yw sicrhau nad yw pobl LHDTC+ yn wynebu triniaeth wenwynig a chael eu cam-drin - yn bersonol nac ar-lein - wrth gymryd rhan mewn democratiaeth. Rhybuddiodd cyfweleion fod y gyfradd ymateb ar gyfer 'Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol' yn isel. Mae ymdrechion parhaus yn cael eu gwneud i gynyddu ymgysylltiad. Yn ogystal, nid oes unrhyw allu ar hyn o bryd i wahanu ymatebion ymgeiswyr llwydiannus ac aflwyddiannus. Mae hyn yn golygu y dylai gwerthuswyr ddefnyddio'r arolwg yn ofalus.

**Cam Gweithredu 35-36: Cefnogi sefydliadau Balchder ledled Cymru; Defnyddio digwyddiadau ymwybyddiaeth LHDTC+ i chwyddo lleisiau LHDTC+**

6.57 Dywedodd cyfweleion mewnol fod cymorth i sefydliadau Balchder ledled Cymru yn cynnwys grantiau rhwng £1,200 a £5,000 fesul ymgeisydd. Mae'r grantiau bach yn golygu bod arolygon llafurus a monitro dwys o'r digwyddiadau hyn yn heriol. Awgrymodd un cyfwelai mewnol y gellid targedu cyllid digwyddiadau Balchder mewn ardaloedd Cymraeg, er mwyn sicrhau cefnogaeth i bobl LHDTC+ sy’n siarad Cymraeg ac sy'n cael eu tanwasanaethu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn helpu i gefnogi canlyniadau Cam Gweithredu 40, a gallai gwerthuswyr ystyried hyn.

**Cam Gweithredu 37: Cefnogi Cyn-filwyr LHDTC+ y Lluoedd Arfog**

6.58 Dywedodd cyfweleion mewnol ac allanol fod y gweithgareddau yn y Cam Gweithredu hwn eisoes wedi'u cwblhau. Yn ogystal, gyda chyfnod ymgynghori Adolygiad Annibynnol LHDTC+ yn cau – a Chyn-filwyr Cymreig yn cael eu cynrychioli’n dda iawn yn yr ymgynghoriad – dywedodd cyfweleion fod y Canlyniad sy’n canolbwyntio ar yr Adolygiad Annibynnol wedi’i gyflawni.

6.59 Awgrymodd cyfweleion mewnol y dylai’r gwerthusiad ystyried a yw’r grŵp cymorth ar gyfer cyn-filwyr LHDTC+ yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ac ardal Cwm Taf yn parhau i gyfarfod – yn ogystal â p’un a oes grwpiau cymorth tebyg wedi’u sefydlu mewn rhannau eraill o Gymru. Cynigiwyd mai ffocws presennol Llywodraeth Cymru a Fighting with Pride yw gweithio ar ffyrdd newydd o gefnogi Cyn-filwyr LHDTC+ yng Nghymru, gan gynnwys drwy sicrhau bod cyn-filwyr LHDT a wasanaethodd rhwng 1967 a 2000 yn ymwybodol o’r cyfnod o ddwy flynedd i wneud cais am adferiad.

6.60 Awgrymodd un cyfwelai allanol y byddai ymuno â sefydliadau a chanolfannau cyn-filwyr i safon ‘Pride In Veterans Standard’ (PIVS), sy’n eu cefnogi ac yn eu hardystio am fod yn ymwybodol o LHDTC+, yn ffordd dda o fonitro canlyniadau. Fodd bynnag, nid yw hwn yn gam gweithredu yn y cynllun ac felly penderfyniad i lunwyr polisi yw.

## Thema G: Cymryd rhan ym Mywyd Cymru: Diwylliant a Chwaraeon (Camau Gweithredu 38-41)

### Camau Gweithredu 38-39: Gwella cynrychiolaeth, cynhwysiant a chyfranogiad pobl LHDTC+ mewn chwaraeon; Gwella mynediad a chyfranogiad pobl drawsryweddol mewn chwaraeon

6.61 Pwysleisiodd y cyfweleion mai ychydig iawn o ddata sydd ar gael am bresenoldeb aelodau byrddau LHDTC+, y gweithlu, a gwirfoddolwyr yn y sector chwaraeon. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd mesur y canlyniad o ran cynrychiolaeth LHDTC+ mewn chwaraeon. Yn ogystal, pwysleisiodd cyfweleion allanol ei bod yn bwysig mesur nid yn unig faint o bobl LHDTC+ sydd yn y sector chwaraeon, ond hefyd os ydynt “allan” neu ba mor weladwy maent yn teimlo y gallent fod. Mae hyn yn gofyn am waith maes ansoddol, megis cyfweliadau gyda phobl LHDTC+ sy'n gweithio a gwirfoddoli mewn chwaraeon.

6.62 O ran cynhwysiant trawsryweddol mewn chwaraeon, awgrymodd y cyfweleion y gallai adolygu nifer y Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol sydd â pholisïau trawsryweddol cynhwysol ac unigryw lywio’r gwerthusiad. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod gweithredu polisïau traws-gynhwysol yr un mor bwysig – nododd un cyfwelai fod gan bêl-droed Cymru bolisi traws-gynhwysol ar gyfer pêl-droedwyr ifanc nad yw rhai clybiau’n ymwybodol ohono. Gall hyn arwain at ymddygiad gwaharddol, hyd yn oed gyda pholisïau cynhwysol. Awgrymodd cyfweleion y gellid defnyddio grwpiau ffocws o bobl drawsryweddol i ategu data monitro.

### Cam Gweithredu 40-41: Dathlu a gwella cynrychiolaeth cymunedau LHDTC+ yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru; Cynyddu cyfranogiad pobl a sefydliadau LHDTC+ wrth gynllunio digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol

6.63 Tynnodd y cyfweleion mewnol sylw at y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru i hyrwyddo cynrychiolaeth pobl LHDTC+ mewn diwylliant a threftadaeth, gan ddarparu enghreifftiau o Amgueddfa Pêl-droed Cymru yn Wrecsam i arddangosfeydd Balchder yn Sain Ffagan i fyrdd o ddigwyddiadau diwylliannol ar lawr gwlad. Fodd bynnag, pwysleisiwyd ganddynt fod diffyg cyllid yn dal y sector yn ôl. Yn ogystal, mae gallu Llywodraeth Cymru i lunio a gofyn am ddata o arddangosfeydd yn symlach mewn sefydliadau diwylliannol a ariennir gan Lywodraeth Cymru: Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hynafol a Hanesyddol Cymru a Chwaraeon Cymru. Dylai data monitro manwl gan y sefydliadau hyn fod

ar gael i werthuswyr Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru – gan gynnwys nifer yr eitemau LHDTC+ a arddangosir, arddangosfeydd, a digwyddiadau – ac efallai rhywfaint o ddata ar nifer y bobl sy'n ymweld ag arddangosfeydd LHDTC+. Y tu hwnt i'r sefydliadau hyn a ariennir, tynnodd cyfweleion mewnol sylw at yr Arolwg Sbotolau Amgueddfeydd fel rhywbeth defnyddiol i werthuswyr, gan ei fod yn darparu data ynghylch canran yr amgueddfeydd sydd wedi rhaglennu gweithgareddau neu arddangosfeydd yn ymwneud â phob nodwedd warchodedig. I gael mwy o fanylion, roedd cyfweleion mewnol yn frwd o blaid y syniad o astudiaethau achos o sefydliadau diwylliannol, i ddysgu o'u profiadau o hyrwyddo diwylliant LHDTC+.

6.64 Nododd cyfweleion allanol y ddolen adborth a allai ddigwydd pan fydd eitemau a roddir i sefydliadau diwylliannol yn cael eu trin yn sensitif a chyda pharch. Mae hyn yn annog mwy o bobl LHDTC+ i ymddiried yn y sefydliad diwylliannol a chyfrannu eu gwrthrychau diwylliannol LHDTC+ eu hunain. Roeddent yn dadlau y bydd cynrychiolaeth ddiwylliannol LHDTC+ yn hyrwyddo hunan-rymuso pobl LHDTC+ ac yn cynyddu goddefgarwch tuag at bobl LHDTC+ ymhlith mynychwyr. Rhybuddiodd cyfweleion yn erbyn gwerthuso hyrwyddiad diwylliant LHDTC+ trwy gyfrif nifer yr arddangosfeydd ac eitemau LHDTC+. Mae perygl i hyn guddio profiadau grwpiau o fewn y gymuned LHDTC+, megis dynion traws du a lesbiaid Cymraeg eu hiaith. Yn ogystal, gyda niferoedd cymharol fach, gallai rhodd sylweddol o lawer o eitemau bach gynyddu'n fawr nifer yr eitemau LHDTC+ heb gynyddu ansawdd y casgliad cyffredinol yn ddramatig. Felly, roedd cyfweleion allanol hefyd yn ffafrio dulliau gwerthuso ansoddol, er mwyn cyfleu'r cynrychioliad croestoriadol o brofiadau LHDTC+ yn niwylliant Cymru yn y modd gorau.

### Thema H: Gweithleoedd cynhwysol (Camau Gweithredu 42-44)

#### Cam Gweithredu 42: Dileu adnabyddiaeth bersonol ddiangen o arferion recriwtio

6.65 Roedd y cyfweleion mewnol yn hyderus bod y broses o dynnu adnabyddiaeth bersonol ddiangen o brosesau recriwtio yn cael ei weithredu. Roedd hyder na fyddai'n ofynnol i bobl anneuaidd a rhyngryw ddewis rhyw/rhywedd nad yw'n berthnasol iddynt mewn arferion recriwtio Llywodraeth Cymru ar adeg y gwerthusiad. Wrth ystyried hyder ymgeiswyr LHDTC+ yn y broses recriwtio, awgrymodd cyfweleion mewnol y gellid defnyddio arolwg o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus i benderfynu a oedd ymgeiswyr yn gweld bod LHDTC+ wedi effeithio ar eu profiad recriwtio.

**Cam Gweithredu 43: Darparu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n cynnwys anghenion pobl LHDTC+ i bob sefydliad sector cyhoeddus**

6.66 Nid oedd y cam hwn yn destun trafodaeth fanwl yn y cyfweliadau. Trafodwyd hyfforddiant yng nghyd-destun themâu eraill, yn arbennig iechyd, plismona ac addysg.

**Cam Gweithredu 44: Annog cyflogwyr y sector preifat i fod yn LHDTC+ gynhwysol**

6.67 Nododd cyfweleion mewnol fod amodau gwaith yn y sector preifat yng Nghymru yn faes nad yw wedi'i ddatganoli. Mae hyn yn golygu bod yr is-adran Gwaith Teg o fewn Llywodraeth Cymru yn cydweithio â sefydliadau cynrychioliadol cyflogwyr i hyrwyddo gweithleoedd mwy cynhwysol a theg. Ni allant fandadu mwy o fonitro cynwysoldeb LHDTC+, na mandadu newidiadau polisi. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio dull anneddfwriaethol o rannu arferion gorau a hyrwyddo busnesau i rannu arfer da â'i gilydd. Gallai'r maes polisi hwn newid yn sylweddol, ym marn cyfweleion mewnol, pe bai Llywodraeth y DU yn newid cyfreithiau cyflogaeth.

6.68 Croesawyd rôl undebau llafur Cymru wrth hyrwyddo a monitro cynhwysiant LHDTC+ gan gyfweleion mewnol ac allanol. Awgrymwyd y gallai'r gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ gynnwys y llu o rwydweithiau cydraddoldeb ar draws rhwydwaith yr undebau i gasglu gwybodaeth ansoddol am brofiadau LHDTC+ yn y gwaith.

6.69 Roedd cyfweleion allanol hefyd yn cydnabod yr anawsterau o werthuso cynwysoldeb LHDTC+ yn y sector preifat. Nodwyd hefyd, er bod Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yn chwarae rhan bwysig mewn gwella safonau, golyga ei natur hunanddewisol na ddylid dibynnu arno mewn gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

**Thema I: Effaith Covid-19 (Camau Gweithredu 45-46)**

**Cam Gweithredu 45-46: Wrth gynllunio a gweithredu ymateb adferiad i COVID-19, ystyried profiadau pobl LHDTC+, yn enwedig ar iechyd meddwl; Cynnal ymchwiliad trylwyr i sut mae'r pandemig Coronafeirws wedi effeithio ar bobl LHDTC+, yn enwedig pobl ifanc LHDTC+ a phobl anabl LHDTC+, yng Nghymru**

6.70 Ni wnaeth unrhyw gyfwelai ddewis trafod y thema hon.

## 7. Atodiad C: Diffiniadau o ddulliau sy'n seiliedig ar Theori

7.1 Isod ceir diffiniadau dull seiliedig ar theori fel y'u nodir yn y Llyfr Magenta ar gyfer yr opsiynau gwerthuso hynny y gellid eu hystyried ar gyfer y cynllun gweithredu LHDTC+.

7.2 **Gwerthusiad realaidd**

Mae gwerthusiad realaidd yn ddull gwerthuso sy'n ceisio deall nid yn unig a yw rhaglen neu ymyriad yn gweithio, ond hefyd sut, pam, ac o dan ba amgylchiadau y mae'n gweithio. Mae'n defnyddio ymagwedd dulliau cymysg i ymchwilio i ganfod patrymau mewn canlyniadau ar draws is-grwpiau gwahanol o randdeiliaid. Yna bydd yn ymchwilio i'r mecanweithiau theoretaidd sy'n cysylltu'r ymyriadau â'r canlyniadau ac yn deall y cyd-destunau pam y gwnaeth rhai mecanweithiau weithio, neu pam na wnaethant weithio, fel y bwriadwyd. Yn y pen draw, bydd yn nodi pa gyfluniadau 'cyd-destun-mecanwaith-canlyniadau' sy'n cynnig yr esboniad mwyaf cadarn a chredadwy o'r patrymau canlyniadau a welwyd.

**Olrhain prosesau**

Mae hyn yn defnyddio llawer iawn o ymgysylltu i roi tystiolaeth ansoddol o bob mecanwaith achosol a ddiffinnir yn y Theori Newid, i nodi a yw ymyriad wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd. Mae'n darparu dull ansoddol ar gyfer profi theoriau ar y llwybr achosol, yn enwedig lle nad oes dealltwriaeth dda ohonynt, eu bod yn dangos gwahanol bwyslais, a lle ceir gwahanol esboniadau o effaith sy'n groes i'w gilydd.

**Dadansoddi cyfraniad**

Yn yr un modd ag olrhain prosesau, mae dadansoddiad cyfraniad yn chwilio am dystiolaeth ar fecanweithiau achosol y Theori Newid i ddeall a yw'r rhaglen yn achosi'r canlyniadau a fwriedir. Yn wahanol i olrhain prosesau, mae hyn yn annog y defnydd o dechnegau cymysg yn hytrach na rhai ansoddol yn unig. Yn ogystal, bydd yn ceisio deall hygrededd pob esboniad, gan ddiystyru yn y pen draw'r rhai sy'n ymddangos yn llai credadwy.

**Cynaeafu Canlyniadau**

Mae Cynaeafu Canlyniadau yn casglu tystiolaeth ("cynhaeaf") o'r hyn sydd wedi newid ("canlyniadau") ac yna, gan weithio tuag at yn ôl, yn penderfynu a yw ymyriad wedi cyfrannu at y newidiadau hyn, a sut. Nid oes Theori Newid neu fframwaith effaith theoretaidd wedi cael eu diffinio ymlaen llaw. Mae Cynaeafu Canlyniadau yn ddefnyddiol mewn sefyllfaoedd cymhleth pan nad yw'n bosibl diffinio'n bendant y rhan fwyaf o'r hyn y mae ymyriad yn ceisio ei gyflawni, neu hyd yn oed pa gamau penodol a gymerir dros gyfnod o sawl blwyddyn.

**Y newid mwyaf arwyddocaol**

Mae hyn yn cynnwys datblygu straeon ynghylch adroddiadau personol o newid, a phenderfynu pa rai o'r adroddiadau hyn sydd bwysicaf a pham i egluro'r effaith. Gwneir hyn drwy ymgysylltu'n ailadroddol â rhanddeiliaid. Mae'n ddefnyddiol ar gyfer adeiladu consensws ar effeithiau rhaglenni lle mae hyn yn gymhleth, yn ogystal â nodi pa agweddau o'r rhaglen nad ydynt yn gweithio'n dda.

7.3 Isod ceir diffiniadau o ddulliau seiliedig ar Theori na fu modd eu hystyried ar gyfer y cynllun gweithredu LHDTC+:

**Dadansoddiad Cymharol Ansoddol**

Mae'r dull hwn yn cynnwys rhywfaint o risg. Er enghraifft, gall y dull hwn fod angen llawer iawn o wybodaeth am astudiaethau achos a mewnbwn gan randdeiliaid; fodd bynnag, efallai na fydd y gofynion adnoddau cyffredinol yn dod yn glir nes bydd y prosiect wedi dechrau. Nid yw'n glir ychwaith ar hyn o bryd a fyddai digon o astudiaethau achos yn bodoli i'r dull hwn fod yn ymarferol. Ymhellach, ni ellir defnyddio'r dull os oes data ar unrhyw ffactorau esboniadol pwysig ar goll.

**Olrhain cyfraniadau**

Mae hyn yn gofyn am nodi tystiolaeth i brofi'n empirig p'un a yw honiad arfaethedig yn bodoli. O ystyried bod y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn debygol o gael ei ddylanwadu gan lawer o ffactorau cymhleth, mae nodi tystiolaeth sy'n cwrdd â'r trothwy gofynnol yn debygol o fod yn her. Mae hefyd yn gofyn am lefel uchel o gyfranogiad ailadroddol gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol i nodi ac asesu'r dystiolaeth hon, na ellir ei warantu.

**Diweddaru Bayesaidd**

Mae Diweddaru Bayesaidd yn amcangyfrif y tebygolrwydd y bydd hawliadau cyfraniad yn wir trwy ddata meintiol a thebygolrwydd goddrychol - mae angen llawer iawn o dystiolaeth i danategu'r amcangyfrif o debygolrwydd ar gyfer pob cam o'r mecanwaith achosol. Mae'n gymhleth iawn, yn gofyn i randdeiliaid fod yn wybodus am y dechneg, a gall arwain at ganfyddiadau afloyw – sy'n anodd i ystod eang o randdeiliaid eu deall.

# 8. Atodiad D: Canllawiau trafod ar gyfer cyfweliadau

## 8.1 Canllawiau trafod ar gyfer cyfweliadau cwmpasu mewnol

**Cwestiynau cychwynnol**

1) Yn gyntaf, a fyddech cystal ag egluro'n gryno eich rôl yn Llywodraeth Cymru a'ch rhan bresennol yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+?

**Rhesymeg polisi**

2) O ble y daeth y Cynllun Gweithredu yn wreiddiol? A geisiodd oresgyn unrhyw faterion penodol a oedd yn dod i'r amlwg?
3) Yn eich meddwl chi, sut mae llwyddiant yn edrych?
    - A oes unrhyw ganlyniadau mesuradwy penodol a fyddai'n sicrhau llwyddiant?
4) A ddefnyddiwyd unrhyw wersi o'r Cynlluniau Gweithredu presennol i ddatblygu'r un presennol? Pa enghreifftiau yr edrychwyd arnynt?

**Cyflenwi a Gweithredu**

5) Sut y datblygwyd y Cynllun Gweithredu?
    - Pa randdeiliaid a sefydliadau a gymerodd ran?
6) A ydych yn disgwyl i'r Cynllun Gweithredu barhau i esblygu neu newid yn y dyfodol? Mae hyn yn bwysig oherwydd gall rhaglen newidiol fod â goblygiadau o ran defnyddioldeb gwerthusiad a wneir ar adeg benodol.
    - Pa newidiadau mawr rydym yn eu disgwyl yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
    - A oes disgwyl i'r Cynllun Gweithredu gael ei adolygu o bryd i'w gilydd, fel strategaeth?
7) A oes unrhyw gyllideb wedi'i chynllunio i ariannu gweithgareddau a chamau gweithredu'r Cynllun Gweithredu?
    - Sut pennir y gyllideb hon?
    - Sut gaiff ei dosbarthu?

**Monitro a chasglu data**

8) A wnaed unrhyw waith eisoes i gasglu dangosyddion neu ddata i fesur effaith y Cynllun Gweithredu?

9) Pa ddata sydd gan Lywodraeth Cymru y gellid ei ddefnyddio i fesur allbynnau a chanlyniadau allweddol?

10) A oes data'n cael ei gasglu ar gostau cysylltiedig gweithredu a chyflenwi?

**Gwerthusadwyedd**

11) O'ch safbwynt chi, pa gwestiynau allweddol y dylai asesiad gwerthusadwyedd geisio eu cwmpasu?

**Recriwtio rhanddeiliaid allanol**

12) Yn ystod cam nesaf y gwaith, byddwn yn ceisio cysylltu â sefydliadau a chyrff cynrychioli LHDTC+ i ddeall eu barn ar yr asesiad gwerthusadwyedd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cyrff sy'n cynrychioli is-grwpiau penodol o'r gymuned LHDTC+, megis pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig. A oes gennych unrhyw argymhellion ynghylch y bobl y gallem siarad â nhw?

13) Byddwn hefyd yn siarad ag aelodau o'r gymuned LHDTC+ i ddeall eu profiadau byw. A oes gan LIC unrhyw baneli ymgysylltu presennol gydag aelodau o'r cyhoedd a allai fod yn rhan o'r ymgysylltu hwn?

**Sylwadau clo**

Rydym nawr yn nesáu at ddiwedd ein cyfweliad ac rydw i eisiau diolch i chi eto am eich amser a'ch ymrwymiad i'r astudiaeth hon. A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu?

## 8.2 Canllawiau trafod ar gyfer cyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

Cwestiynau cychwynnol

1) A allech chi ddweud wrthym am eich rôl o fewn Llywodraeth Cymru?
   - Cwestiwn Trafod A: [Os oes angen] A allech chi ddweud wrthym am eich tîm?
2) A wnaethoch chi gymryd rhan yn y gwaith o greu a dylunio'r Cynllun Gweithredu LHDTC+?
   - Cwestiwn Trafod A: Os felly, sut?
3) A ydych yn disgwyl cymryd rhan mewn gweithredu neu fonitro unrhyw agwedd ar y cynllun?

**Uchelgais ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd.**

4) Os yw’r cynllun gweithredu yn llwyddo yn ei gyfanrwydd, pa bethau cyffredinol fydd yn wahanol ymhen ychydig flynyddoedd yn eich barn chi?

- Cwestiwn Trafod A: Yng Nghymru gyfan?
- Cwestiwn Trafod B: Mewn strwythurau, dulliau, ac agweddau o fewn Llywodraeth Cymru?

5) Yn eich barn chi, beth ddylid ei fesur wrth ystyried p'un a yw’r Cynllun Gweithredu wedi bod yn llwyddiannus yn ei gyfanrwydd?

- Cwestiwn Trafod A: A yw pobl LHDTC+ yn teimlo bod pethau wedi gwella?
- Cwestiwn Trafod B: Barn ac agweddau’r cyhoedd?
- Cwestiwn Trafod C: Ariannu, gwasanaethau, ac ati

**Eu thema benodol:**

6) A ydych yn gyfarwydd â chamau gweithredu'r Cynllun Gweithredu o fewn [thema sydd fwyaf perthnasol]?

7) A ydych chi'n cymryd rhan mewn rhoi unrhyw un o'r camau gweithredu o fewn y thema hon yn y cynllun gweithredu ar waith? Os felly, sut?

*(Cytunwch ar gamau gweithredu i’w trafod ac yna symudwch ymlaen fesul cam gweithredu gan ddefnyddio’r tabl.)*

8) Yn seiliedig ar eich dealltwriaeth, a fyddai'r gweithgareddau hyn o fewn y cam gweithredu hwn yn arwain at y canlyniadau a ddisgrifir yn y cynllun?

- Os na fuasent, pam?
- Os buasent, a fyddent yn arwain at unrhyw ganlyniadau ychwanegol nad ydynt wedi'u disgrifio yn y cynllun?

9) A allwch chi ragweld unrhyw ganlyniadau negyddol anfwriadol i'r gweithgareddau o fewn y cam gweithredu hwn?

10) A allwch chi ragweld unrhyw ffactorau allanol (e.e., arian/gwleidyddol) a allai (yn gadarnhaol neu’n negyddol) effeithio naill ai ar weithgareddau neu ganlyniadau’r Cynllun Gweithredu?

11) A allai’r canlyniadau eu hunain gael effeithiau pellach, ehangach ar fywydau pobl LHDTC+ yng Nghymru?

12) A ydych chi'n meddwl y gellir mesur gweithrediad y gweithgareddau, ac os felly sut?

13) A ydych chi'n meddwl y gellir mesur y canlyniadau yn y cynllun gweithredu?

*(Ewch yn ôl i Gwestiwn 8 gyda cham gweithredu newydd hyd nes y bo'r holl gamau gweithredu wedi cael eu trafod)*

14) A ydych yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau eraill a allai helpu i wella bywydau pobl LHDTC+ yng Nghymru ond nad ydynt wedi'u rhestru yn y rhannau o'r Cynllun Gweithredu rydym wedi'u trafod heddiw?

15) A ydych chi'n meddwl y bydd y camau gweithredu a'r gweithgareddau rydym wedi'u trafod heddiw yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr uchelgais cyffredinol i wneud Cymru'r wlad fwyaf cyfeillgar i LHDTC+ yn Ewrop?

## 8.3 Canllawiau trafod ar gyfer cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allanol.

**Cwestiynau cychwynnol**

1) Hoffech chi gyflwyno eich hun neu ddweud wrthym sut mae eich gwaith neu fentrau yn gysylltiedig â Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru?
2) A wnaethoch chi gymryd rhan yn y gwaith o greu a dylunio'r Cynllun Gweithredu LHDTC+?

- Cwestiwn Trafod A: Os felly, sut?

3) A ydych yn disgwyl cymryd rhan mewn gweithredu neu fonitro unrhyw agweddau ar y cynllun?

- Cwestiwn Trafod A: A ydych chi'n meddwl y bydd eich rôl yn canolbwyntio ar unrhyw themâu yn y cynllun?

**Uchelgais ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd.**

4) Os yw'r cynllun gweithredu yn llwyddo yn ei gyfanrwydd, pa bethau cyffredinol fydd yn wahanol ymhen ychydig flynyddoedd yn eich barn chi?

- Cwestiwn Trafod A: Yng Nghymru gyfan?
- Cwestiwn Trafod B: O ran llywodraethu a gwasanaethau Cymru?
- Cwestiwn Trafod C: Yn fwy personol, h.y. i chi neu eich sefydliad?

5) Yn eich barn chi, beth ddylid ei fesur wrth ystyried p'un a yw'r Cynllun Gweithredu wedi bod yn llwyddiannus yn ei gyfanrwydd?

    - Cwestiwn Trafod A: A yw pobl LHDTC+ yn teimlo bod pethau wedi gwella?
    - Cwestiwn Trafod B: Barn ac agweddau'r cyhoedd?
    - Cwestiwn Trafod C: Ariannu, gwasanaethau, ac ati

6) Pa rai o’r adrannau canlynol (rhestrwch nhw) a hoffech chi ganolbwyntio arnynt yn y cyfweliad heddiw?

**Adrannau**

**Hawliau a chydnabyddiaeth: thema sy’n trafod hawliau dynol – yn fwyaf nodedig cydnabod rhywedd, gwahardd arferion trosi, a chydnabyddiaeth anneuaidd – ochr yn ochr â mesurau i gynyddu cynrychiolaeth LHDTC+ wrth wneud penderfyniadau.**

7) Sut fyddai Cymru yn edrych pe bai hawliau dynol LHDTC+ yn cael eu deall a’u cydnabod yn eang?

- Cwestiwn Trafod A: Beth fyddai'r ffordd orau o fesur a yw hawliau dynol yn cael eu deall a'u cydnabod yn ehangach? Ai gofyn yn uniongyrchol i'r cyhoedd, mesur rhan benodol o'u hymddygiad, neu fesur effeithiau digwyddiadau hyfforddi hawliau dynol?

8) Mae’r Cynllun Gweithredu yn galw ar Gymru i ddefnyddio’r holl bwerau sydd ar gael i wahardd pob agwedd ar arferion trosi LHDTC+ yng Nghymru a cheisio datganoli unrhyw bwerau ychwanegol angenrheidiol. Mae hefyd yn anelu at archwilio opsiynau i geisio datganoli pwerau sy'n ymwneud â chydnabod rhywedd ar gyfer pobl draws. Pa mor bwysig yw datganoli a deddfu ar gyfer y newidiadau hyn i lwyddiant cyffredinol y cynllun?

- Cwestiwn Trafod A: A allai’r cynllun lwyddo i wneud Cymru’r wlad fwyaf cyfeillgar i LHDTC+ yn Ewrop, hyd yn oed os nad yw’r pwerau hyn wedi’u datganoli?

9) Mae'r cynllun yn cynnig rhannu gwybodaeth gyda phobl LHDTC+ am sut i fynnu eu hawliau dynol. Beth ydych chi'n meddwl y gallai effaith hyn fod?

- Cwestiwn Trafod A: Ym mha gyd-destun fyddech chi'n disgwyl gweld pobl LHDTC+ yn mynnu eu hawliau? A fyddai hynny yn y gwaith? Mewn addysg? Yn y gymdeithas ehangach?

**Gofal iechyd a gofal cymdeithasol: thema sy’n canolbwyntio ar wella profiadau pobl LHDTC+ mewn gofal iechyd – yn benodol gwasanaethau ffrwythlondeb, iechyd rhywiol, a hunaniaeth rhywedd.**

10) Sut fyddai gofal iechyd yng Nghymru yn edrych pe bai Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn llwyddo i wneud i bobl LHDTC+ deimlo’n ddiogel, a chael eu parchu a’u deall wrth ddefnyddio gwasanaethau? Pa newidiadau fyddech chi'n disgwyl eu gweld?

- Cwestiwn Trafod A: Sut fyddech chi'n disgwyl i'r newidiadau hyn gael eu mesur? e.e. Arolygon, cyfweliadau, neu wybodaeth feintiol fel rhestrau aros a thriniaethau?
- Cwestiwn Trafod B: Pe bai'r cyfwelai yn sôn am wasanaeth penodol: sut fyddai'r newidiadau hyn yn edrych o fewn [ailadroddwch y gwasanaeth a grybwyllwyd ganddo]?

11) Beth fyddai'n wahanol ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru os yw'r cynllun yn llwyddo i wneud i bobl deimlo'n ddiogel, a chael eu parchu a'u deall mewn gofal cymdeithasol?

12) Yn eich barn chi, beth fyddai'r ffordd orau o fesur llwyddiant Gwasanaethau Rhywedd yng Nghymru?

- Cwestiwn Trafod A: Archwilio opsiynau ar gyfer gwasanaethau rhywedd i blant a phobl ifanc traws yng Nghymru?
- Cwestiwn Trafod B: Amseroedd aros wedi gostwng? O faint?
  Cwestiwn Trafod C: Canolfan(nau) arbenigol ar gyfer pobl drawsryweddol neu ofal traws wedi'i integreiddio â gofal iechyd arall?

**Addysg: thema sy'n canolbwyntio ar gynyddu cynwysoldeb LHDTC+ mewn addysg a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig.**

13) Os yw'r cynllun gweithredu yn llwyddiannus, beth fyddech chi'n disgwyl i fod yn wahanol yn sector addysg Cymru?

- Cwestiwn Trafod A: Ysgolion.
- Cwestiwn Trafod: B: Colegau.
- Cwestiwn Trafod C: Prifysgolion.

14) Mae'r gweithgareddau o dan Gam Gweithredu 27 yn cynnwys: cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr, casglu data'n well, a gwell Addysg Gychwynnol i Athrawon. Y canlyniadau yw bod LHDTC+ yn a) adrodd am lefelau is o wahaniaethu, b) yn gwybod sut i gael cymorth, c) yn hyderus i herio gwahaniaethu. Nid oes cysylltiad clir rhwng y gweithgareddau a'r canlyniadau hyn – pa ganlyniadau cyfryngol sy'n rhaid iddynt fod yn wir er mwyn i'r canlyniadau hyn ddigwydd? Ar ba dybiaethau y mae'r gweithgareddau'n gorwedd?

15) Sut y dylem ni fesur llwyddiant o ran lleihau bwlio homoffobig, deuffobig, trawsffobig a chwiarffobig mewn ysgolion?

- Cwestiwn Trafod A: A yw'n ymwneud â lleihau nifer y digwyddiadau yr adroddir amdanynt, neu sicrhau bod pobl yn gwybod sut i adrodd am ddigwyddiadau?
- Cwestiwn Trafod B: A yw’n ymwneud â chefnogaeth ac arweiniad i ysgolion ac athrawon hyder a gallu i fynd i’r afael â bwlio gwrth-LHDTC+?

16) Sut y dylem fesur a oes gan ysgolion yr offer sydd eu hangen arnynt i weithredu Cod a Chanllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE)?

**Diogelwch: thema sy’n canolbwyntio ar fynd i’r afael â throseddau casineb, cryfhau’r berthynas rhwng yr heddlu a phobl LHDTC+, a thargedu trais domestig a rhywiol yn erbyn pobl LHDTC+. Mae hefyd yn cynnwys digartrefedd.**

17) Nod y cynllun gweithredu yw cynyddu diogelwch pobl LHDTC+. Beth ydych chi’n feddwl fyddai’n wahanol os yw’r uchelgais hwn yn llwyddiannus?

18) Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan Stonewall Cymru yn 2017, ni wnaeth 82% o bobl LHDT a brofodd drosedd casineb yng Nghymru adrodd i’r heddlu am y digwyddiad. Mae’r Cynllun Gweithredu yn cynnig dileu rhwystrau i bobl LHDTC+ adrodd am droseddau casineb drwy wella gweithdrefnau’r heddlu, amrywio’r ystod o opsiynau i adrodd am droseddau casineb fel dewis amgen i’r heddlu (e.e., drwy Gymorth i Ddioddefwyr a Chanolfan Cymorth Casineb Cymru), gan gynyddu amrywiaeth y gweithlu’r heddlu, a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd adrodd am droseddau casineb a’r ffyrdd o wneud hynny. Pa un o’r uchelgeisiau hyn, os unrhyw un, a fyddech chi’n disgwyl iddo fod yn fwyaf effeithiol o ran cynyddu’r adroddiadau am droseddau casineb?

- Cwestiwn Trafod A: A fyddai’n effeithiol addysgu pobl LHDTC+ am bwysigrwydd adrodd am droseddau casineb?
- Cwestiwn Trafod B: Perthynas fwy ymddiriedus rhwng heddlu Cymru a chymuned LHDTC+? Neu, adrodd am droseddau casineb trwy sefydliadau amgen i'r heddlu?

19) Sut y byddem yn gwybod a yw Llywodraeth Cymru yn llwyddo i fynd i’r afael â throseddau casineb LHDTC+? Pa ganlyniadau y byddem yn disgwyl eu gweld?

- Cwestiwn Trafod A: Llai o droseddau casineb yn cael eu hadrodd? Mwy o droseddau casineb yn cael eu hadrodd?
- Cwestiwn Trafod B: Cynnal pôl o'r gymuned LHDTC+?
- Cwestiwn Trafod C: Cyfweliadau gyda phobl LHDTC+ sydd wedi profi troseddau casineb, gyda nhw yn trafod eu profiad o adrodd am y drosedd?

20) Mae'r cynllun yn galw am fforwm i'r heddlu ac awdurdodau gorfodi eraill gwrdd â chymunedau a chynrychiolwyr LHDTC+. Beth ydych chi'n feddwl byddai effaith hyn ar y berthynas rhwng yr heddlu a'r gymuned?

Cwestiwn Trafod B: Pa wahaniaeth fyddai'n ei wneud pe bai perthynas a dealltwriaeth gryfach rhwng heddluoedd Cymru a'r gymuned LHDTC+?

21) Fel rhan o werthusiad eang o brosiectau digartrefedd, bydd y Cynllun Gweithredu yn anelu at werthuso prosiectau LHDTC+ penodol, megis y prosiect Tŷ Pride a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a chasglu arfer gorau ac egwyddorion i'w rhannu ag awdurdodau lleol eraill ynghylch digartrefedd LHDTC+. Mae prosiect Tŷ Pride yn cynnig tai â chymorth i bobl ifanc 16-25 oed ag anghenion cymorth sy'n nodi eu bod yn LHDTC+. Yn eich barn chi, beth fydd effaith y gwaith hwn o safbwynt ymdrin â digartrefedd LHDTC+?

- Cwestiwn Trafod A: Beth fyddai effaith y newidiadau hynny?
- Cwestiwn Trafod B: A ydych chi'n meddwl y byddai nifer fach o lochesi digartrefedd yn benodol ar gyfer pobl LHDTC+ yn arwain at newidiadau ledled Cymru, neu a fyddai eu heffeithiau'n parhau i fod yn lleol?

**Ffoaduriaid a cheiswyr lloches**

22) Sut fyddech chi'n mesur p'un a yw Cymru'n genedl noddfa i geiswyr lloches a ffoaduriaid LHDTC+?

- Cwestiwn Trafod A: Sut fyddech chi'n mesur effaith hyfforddiant cynhwysiant i ddarparwyr gwasanaethau sy'n gweithio'n agos gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches?

23) Sut y byddech yn mesur llwyddiant Llywodraeth Cymru wrth ymgysylltu'n effeithiol â Llywodraeth y DU i gyflawni'r uchelgeisiau yn y Cynllun Gweithredu yn y maes hwn, gan ystyried nad yw mewnfudo a lloches wedi'u datganoli?

**Diwylliant a chwaraeon.**

24) Petai cymunedau LHDTC+ yn cael eu cynrychioli a'u derbyn yn well ym mywyd diwylliannol Cymru, sut fyddai hyn yn edrych?

- Cwestiwn Trafod A: Sut ellir mesur hyn?

25) Nod y cynllun gweithredu yw sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu wrth gynrychioli diwylliant LHDTC+. Sut fyddai hyn yn edrych pe bai'n llwyddiannus?

- Cwestiwn Trafod A: A yw digwyddiadau LHDTC+ Cymraeg (e.e. Mas ar y Maes) yn ddigon i gyrraedd y nod hwn o gynrychioli siaradwyr Cymraeg yn niwylliant LHDTC+?
- Cwestiwn Trafod B: A fyddai Llywodraeth Cymru yn annog cyfryngau Cymraeg i hyrwyddo cynnwys targededig at gynulleidfaoedd LHDTC+ yn gwneud gwahaniaeth?

26) Nod y Cynllun Gweithredu yw gwella mynediad a chyfranogiad pobl drawsryweddol mewn chwaraeon. Yn eich barn chi, sut gallwn ni weld neu fesur newidiadau yn effeithiol i wella hyn?

- Cwestiwn Trafod A: Yn eich barn chi, sut effaith fyddai arferion cynhwysol ar draws chwaraeon yn ei chael?

**Cymunedau, bywyd preifat a bywyd teuluol**

27) Mae'r Cynllun Gweithredu yn galw ar i bawb allu teimlo'n perthyn i'w cymuned ac i Gymru. O ran pobl LHDTC+, beth mae 'perthyn i'ch cymuned' yn ei ddwyn i'r meddwl?

- Cwestiwn Trafod A: Y gymuned LHDTC+ fewnol? Unigolion Cymraeg eu hiaith neu Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n LHDTC+? Neu a yw'n pwysleisio cymunedau lleol a rhanbarthol?

28) Petai mwy o bobl LHDTC+ yn cael eu cynrychioli mewn swyddi etholedig, pa effaith fyddai hyn yn ei chael?

- Cwestiwn Trafod A: Beth am ar lefel awdurdodau lleol?
- Cwestiwn Trafod B: Yn eich barn chi, sut fyddai hynny'n edrych yn ymarferol?

**Cyflogaeth**

29) Nod y Cynllun Gweithredu yw annog cyflogwyr y sector preifat i gynnwys pobl LHDTC+. Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau i fonitro neu asesu gweithrediad polisïau gweithleoedd cynhwysol ar draws cyflogwyr? A beth fyddai'r effaith ar gymunedau LHDTC+?

- Cwestiwn Trafod A: Beth fyddai effaith gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr ledled Cymru i rannu arfer da mewn perthynas â gweithleoedd cynhwysol?

30) Ar lefel ehangach, sut beth fyddai cynwysoldeb LHDTC+ yn y gweithle yn eich barn chi?

- Cwestiwn Trafod A: Lleisiau LHDTC+ yn cael eu clywed yn y gwaith.
- Cwestiwn Trafod B: Pobl draws yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi yn y gwaith.
- Cwestiwn Trafod C: Polisi mabwysiadu.

**Croestoriadedd**

31) Mae'r cynllun yn ymrwymo i ymagwedd groestoriadol o ymdrin â hawliau LHDTC+. Beth mae hyn yn ei olygu i chi?

- Cwestiwn Trafod A: A yw'r ymrwymiad hwn i groestoriadedd yn golygu y dylid gwerthuso'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ fel rhan o werthusiad mwy o gynlluniau gweithredu Hil, Rhyw, Tlodi ac ati?

**Canlyniadau anfwriadol.**

32) A ydych yn rhagweld y bydd y Cynllun Gweithredu – neu rannau penodol ohono rydym wedi'u trafod heddiw – yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol?

**Ôl-drafodaeth**

A oes unrhyw sylwadau neu gwestiynau eraill cyn i ni orffen?

# 9. Cyfeiriadau


Abercrombie, R., Thomasoo, R. and Boswell, K. (2018), 'Thinking big: how to use Theory of Change for systems change'. Ar gael yn: Thinking big: how to use Theory of Change for systems change

Andrew J.B. Fugard, H. W. P., 2014. [Ar-lein] Ar gael yn: Supporting thinking on sample sizes for thematic analyses: a quantitative tool

Barcia, I. and Kagumire, R. (2021), 'Evaluation of the United Nations Free & Equal Campaign'. UN Office of the High Commissioner for Human Rights. Ar gael yn: Evaluation of the United Nations Free & Equal Campaign'. UN Office of the High Commissioner for Human Rights

Bristow, G., Farrington, J., Shaw, J., & Richardson, T. (2009), 'Developing an Evaluation for Crosscutting Policy Goals: The Accessibility Policy Assessment Tool.' Environment and Planning A: Economy and Space, 41(1), pp. 48–62.

Byrne, D. and Callaghan, G. (2014), 'Complexity Theory and the Social Sciences: The State of the Art.' Routledge, London.

Chakraborti and Hardy (2015), LGB&T Hate Crime Reporting Identifying Barriers and Solutions. Ar gael yn: LGB&T Hate Crime Reporting Identifying Barriers and Solutions

Chapman, S., Boodhoo, A., Duffy, C., Goodman, S., & Michalopoulou, M. (2023), 'Theory of Change in Complex Research for Development Programmes: Challenges and Solutions from the Global Challenges Research Fund', The European Journal of Development Research, 35(2), pp. 298–322.

Davies R. (2018), 'Representing Theories of Change: A Technical Challenge with Evaluation Consequences', CEDIL, Inception Paper 15: London.

Dyson, A. and Todd, L. (2010), 'Dealing with complexity: Theory of Change evaluation and the full service extended schools initiative', International Journal of Research & Method in Education, 33(2), pp. 119–134.

End Youth Homelessness Cymru (2022) 'Tŷ Pride - Three Years On'. Ar gael yn: Tŷ Pride - Three Years On'

Glouberman, S. and B. Zimmerman (2002), 'Complicated and Complex Systems: What Would Successful Reform of Medicare Look Like?' Commission on the Future of Health Care in Canada, Discussion Paper 8.

Government of Malta (2023), Sexual Orientation, Gender Identity, Gender Expression and Sex Characteristics Unit, Annual Report 2021-2022. Ar gael yn: Sexual Orientation, Gender Identity, Gender Expression and Sex Characteristics Unit, Annual Report 2021-2022

Grafsky, E.L. et al. (2011), 'Comparison of treatment response among GLB and non-GLB street-living youth', Children and Youth Services Review, 33(5), pp. 569–574.

Greek Government (2022), Annual Action Plan 2022. Ministry of Justice. Ar gael yn: Annual Action Plan 2022. Ministry of Justice

HM Treasury and Evaluation Task Force, 2020. The Magenta Book. [Ar-lein] Ar gael yn: The Magenta Book

HM Treasury (2020), Magenta Book Supplementary Guide - Handling Complexity in Policy Evaluation. Ar gael yn: Magenta Book Supplementary Guide - Handling Complexity in Policy Evaluation

Hodson, J. et al. (2018), 'Between the corporation and the closet: Ethically researching LHDTC+ identities in the workplace', Equality, Diversity and Inclusion: An International Journal, 37(3), pp. 283–297.

Hunt, R. et al. (2019), A Systematic Review of UK Educational and Training Materials Aimed at Health and Social Care Staff about Providing Appropriate Services for LGBT+ People. Int J Environ Res Public Health;16(24).

ILGA-Europe (2024) 'Annual Review 2024 | ILGA-Europe'. Ar gael yn: Annual Review 2024 | ILGA-Europe

Irish Government (2019), First Annual Report on the implementation of the Lesbian Gay Bisexual Transgender Intersex (LGBTI+) National Youth Strategy 2018–2020. Department of Children and Youth Affairs. Ar gael yn: First Annual Report on the implementation of the Lesbian Gay Bisexual Transgender Intersex (LGBTI+) National Youth Strategy 2018–2020

Israel, T. et al. (2014), 'Evaluation of Police Training on LGBTQ Issues: Knowledge, Interpersonal Apprehension, and Self-Efficacy', Journal of Police and Criminal Psychology, 29(2), pp. 57–67.

Jowett, A. et al. (2021), Conversion therapy: an evidence assessment and qualitative study. Government Equalities Office. Ar gael yn: Conversion therapy: an evidence assessment and qualitative study. Government Equalities Office

Leung, E. and Adams-Whittaker, J. (2022), 'Content Analysis of LGBTQ Picture Books for Elementary Education Through an Intersectional Lens', Frontiers in Education, 6.

Ling, T. (2012), 'Evaluating complex and unfolding interventions in real time', Evaluation, 18(1), pp. 79–91.

Llais – the Citizen's Voice Body for Health and Social Care (n.d.) Reports | Llais. Ar gael yn: the Citizen's Voice Body for Health and Social Care

Llamau (2019) Out On The Streets - LHDTC+ Youth Homelessness in Wales, Llamau. Ar gael yn: Out On The Streets - LHDTC+ Youth Homelessness in Wales.

Mason, P. and Barnes, M. (2007), 'Constructing Theories of Change: Methods and Sources', Evaluation, 13(2), pp. 151–170.

Mitchell, M. et al. (2016), 'Evaluation of an anti- homophobic, biphobic and transphobic (HB&T) bullying programme'. Ar gael yn: Evaluation of an anti- homophobic, biphobic and transphobic (HB&T) bullying programme

Mowles, C. (2014), Complex, but not quite complex enough: The turn to the complexity sciences in evaluation scholarship.  Evaluation, 20(2), 160–175.

Ymchwil Gymdeithasol NatCen (2014), Rhwystrau sy'n wynebu pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) wrth gael at wasanaethau cam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu, a thrais rhywiol. Ar gael yn: Rhwystrau sy'n wynebu pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) wrth gael at qasanaethau cam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu, a thrais rhywiol

NHS England (2022), NHS Staff Survey National Results 2022. Ar gael yn: NHS Staff Survey National Results 2022

GIG Cymru (2018), Arolwg Staff GIG Cymru 2018. Ar gael yn: Arolwg Staff GIG Cymru 2018

Norwegian Directorate for Children, Youth and Family Affairs (2013), Evaluation: The government's action plan for a better quality of life for lesbians, gays, bisexuals and transgender people. Ar gael mewn Norwyeg yn: Evaluation: The government's action plan for a better quality of life for lesbians, gays, bisexuals and transgender people

Norwegian Government (2008), Improving quality of life among lesbians, gays, bisexuals and trans persons: 2009-2012. Ministry of Children and Equality. Ar gael yn: Improving quality of life among lesbians, gays, bisexuals and trans persons

Norwegian Government (2016), Security, diversity openness: the government's action plan against discrimination on grounds of sexual orientation, gender identity and gender

expression: 2017–2020. Ministry of Culture. Ar gael mewn Norwyeg yn: Security, diversity openness: the government's action plan against discrimination on grounds of sexual orientation, gender identity and gender expression

Norwegian Government (2021), Safety, diversity and transparency: The government's action plan against discrimination on grounds of sexual orientation, gender identity, gender expression and gender characteristics: 2021–2024. Ar gael mewn Norwyeg yn: Safety, diversity and transparency: The government's action plan against discrimination on grounds of sexual orientation, gender identity, gender expression and gender characteristics

Office of the United Nations High Commissioner for Human Rights (2020), Evaluating the Impact of Human Rights Training: Guidance on developing indicators. Ar gael yn: Evaluating the Impact of Human Rights Training: Guidance on developing indicators

Parliament of Iceland (2022) 'Parliamentary resolution on a LGBTI Action Programme for the period of 2022–2025.' Ar gael yn: Parliamentary resolution on a LGBTI Action Programme for the period of 2022–2025

Powell, C. et al. (2016), 'iTEAM: Outcomes of an Affirming System of Care Serving LGBTQ Youth Experiencing Homelessness', Families in Society, 97(3), pp. 181–190.

Proba Samfunnanalyse (2021), Final Report, part 1: Evaluation of the action plan: security, diversity, and openness. Ar gael mewn Norwyeg yn: Final Report, part 1: Evaluation of the action plan: security, diversity, and openness

Proba Samfunnanalyse (2021a), Final Report, part 2: Evaluation of the action plan: security, diversity, and openness. Ar gael mewn Norwyeg yn: Final Report, part 2: Evaluation of the action plan: security, diversity, and openness

Randall, H. et al. (2023). Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2022. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2022

Rogers, P. J. (2008), 'Using Programme Theory to Evaluate Complicated and Complex Aspects of Interventions.' Evaluation, 14(1), 29–48.

Sanderson, I. (2000), 'Evaluation in Complex Policy Systems. Evaluation', 6(4), pp. 433–454.

Sanderson, I. (2003), 'Is it 'what works' that matters? Evaluation and evidence-based policy-making' Research Papers in Education, 18(4), pp. 331–345.

Scottish Government (2019), 'Dear Haters' Hate Crime Campaign 2018 - Evaluation Report. Ar gael yn: Dear Haters' Hate Crime Campaign 2018 - Evaluation Report

Sida (2006), Action plan for Sida's work on sexual orientation and gender identity in international development cooperation 2007–2009. Ar gael yn: Action plan for Sida's work on sexual orientation and gender identity in international development cooperation 2007–2009

Sida (2010), Evaluation of Sida's Action Plan on Sexual Orientation and Gender Identity in Swedish Development Cooperation 2007–2009. Ar gael yn: Evaluation of Sida's Action Plan on Sexual Orientation and Gender Identity in Swedish Development Cooperation 2007–2009

Smithies, D. and Byrom, N.C. (2018) LHDTC+ Student Mental Health: the challenges and needs of gender, sexual and romantic minorities in Higher Education. Student Minds.

Stonewall Cymru (2018), LGBT in Wales – Work Report. Ar gael yn: LGBT in Wales – Work Report

Storr, R. et al. (2022), 'Are we there yet? (Illusions of) Inclusion in sport for LGBT+ communities in Australia', International Review for the Sociology of Sport, 57(1), pp. 92–111.

Panel Arbenigwyr Annibynnol LHDTC+, 2021. Adroddiad i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r argymhellion ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb LHDTC+ yng Nghymr. [Ar-lein] Ar gael yn: Adroddiad i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r argymhellion ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb LHDTC+ yng Nghymr

Tschida, C. M., Ryan, C. L., & Ticknor, A. S. (2014). Building on windows and mirrors: Encouraging the disruption of "single stories" through children's literature. Journal of Children's Literature, 40(1), 28–39.

UK Government (2019), LGBT Action Plan: Annual Progress Report 2018 to 2019. UK Government Equalities Office. Minister for Women and Equalities. Ar gael yn: Annual Progress Report 2018 to 2019. UK Government Equalities Office. Minister for Women and Equalities

UK Government (n.d.) Criminal justice system (CJS) delivery data dashboard. Ar gael yn: Criminal justice system (CJS) delivery data dashboard

UK Medical Research Council (2015) *Process evaluation of complex interventions*. Ar gael yn: Process evaluation of complex interventions

University of Birmingham (n.d.), LHDTC+ Older Adult Social Care Assessment. Ar gael yn: LHDTC+ Older Adult Social Care Assessment

Valters, C. (2014), 'Theories of Change in International Development: Communication, Learning or Accountability?' The Asia Foundation, San Fransisco, California.

Vogel, I. (2012), 'Review of the use of "Theory of Change" in international development', UK Department for International Development. Ar gael yn: Review of the use of "Theory of Change" in international development

Vogel, I., and Stephenson, Z. (2012), 'Review of the use of "Theory of Change" in international development – Appendix 3: Examples of Theories of Change', UK Department for International Development. Ar gael yn: Review of the use of "Theory of Change" in international development – Appendix 3: Examples of Theories of Change

Llywodraeth Cymru (2023) Rhwydaith Tramor: Adroddiad blynyddol 2022 i 2023 LLYW.CYMRU. Ar gael yn: Rhwydaith Tramor: Adroddiad blynyddol 2022 i 2023

Llywodraeth Cymru (2023), FOI: ATISN 17095. Ar gael yn: FOI: ATISN 17095

Llywodraeth Cymru, 2019. Gweithredu ar anabledd: hawl i fyw'n annibynnol – fframwaith a chynllun gweithredu. [Ar-lein] Ar gael yn: Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol Fframwaith a'r Cynllun Gweithred

Llywodraeth Cymru, 2020. Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau: cynllun gweithredu. [Ar-lein] Ar gael yn: Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau: cynllun gweithredu

Llywodraeth Cymru, 2020. Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. [Ar-lein] Ar gael yn: Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Llywodraeth Cymru, 2022. Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. [Ar-lein] Ar gael yn: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Llywodraeth Cymru, 2022. Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026. [Ar-lein] Ar gael yn: Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026

Llywodraeth Cymru, 2023. Cynllun Gweithredu HIV i Gymru 2023 i 2026. [Ar-lein] Ar gael yn: Cynllun Gweithredu HIV i Gymru 2023 i 2026

Llywodraeth Cymru, 2023. Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. [Ar-lein] Ar gael yn: Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

Llywodraeth Cymru, 2023. Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru: diweddariad ar gynnydd. [Ar-lein] Ar gael yn: Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru: diweddariad ar gynnydd

Llywodraeth Cymru, 2023. Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig. [Ar-lein] Ar gael yn: Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig

Llywodraeth Cymru, 2024. Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024. [Ar-lein] Ar gael yn: Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024

Wilkinson, H., Hills, D., Penn, A., & Barbrook-Johnson, P. (2021), 'Building a system-based Theory of Change using Participatory Systems Mapping', Evaluation, 27(1), pp. 80–101.